Symud Ymlaen yn Sir Gaerfyrddin

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2019/2020

Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor

HYDREF 2020

Cyngor **Sir Gâr**
Carmarthenshire
County Council

Croeso gan Arweinydd y Cyngor

Unwaith eto mae'n bryd cyhoeddi ein hadroddiad blynyddol fel y gallwn ystyried sut rydym wedi gwneud cynnydd yn erbyn ein hamcanion llesiant a gwella. Mae'n dangos y gwrthgyferbyniad llwyr rhwng ein sefyllfa ar ddechrau'r flwyddyn a'n sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn. Mae hefyd yn tynnu sylw at faint sydd wedi'i wneud ar gyfer trigolion ein sir a faint yn fwy y bwriadwn ei wneud, er y bydd yn rhaid gohirio rhywfaint o'r gwaith hwn o bosib wrth inni ddelio â'r pandemig presennol. Mae lledaeniad COVID-19 wedi effeithio arnom i gyd ac wedi'n gorfodi fel Awdurdod i addasu ein gwasanaethau bron dros nos, a hynny i ddechrau er mwyn sicrhau y gallem gefnogi a chynorthwyo ein trigolion i ymateb i'r pandemig, ac erbyn hyn er mwyn cynorthwyo â'r broses adfer. Mae'r effaith ar ein sir a ledled y wlad wedi bod yn sylweddol ac mae'n debygol o barhau hyd y gellir rhagweld. Yn y tymor hwy mae'n debygol y bydd yn rhaid addasu'r ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau yn y dyfodol ond gallaf eich sicrhau ein bod yn cynllunio ac yn cyflawni i sicrhau ein bod yn gallu darparu'r gwasanaethau mwyaf diogel a mwyaf effeithiol i'n trigolion.

Mae'n bwysig cofio mai adroddiad ar 2019/20 yw hwn a dim ond yn ystod wythnosau olaf y flwyddyn ariannol dan sylw y cafodd y pandemig effaith. Mae'n ymddangos yn ofer bron i dreulio amser yn adrodd ar y flwyddyn ddiwethaf ar yr adeg hon, ond mae'n rhoi gwaelodlin inni farnu ein hadferiad yn ei erbyn. Mae'n arfer da cadw ffocws ar berfformiad a chanlyniadau, cydnabod cynnydd a nodi a mynd i'r afael â gwendidau mewn ffordd agored a thryloyw. Bydd hyn o gymorth i ni wrth i ni gynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau yn y dyfodol. Mae hefyd yn rhwymedigaeth gyfreithiol i gyhoeddi'r adroddiad hwn erbyn 31 Hydref ac nid yw'r gofyniad hwn wedi cael ei lacio. Nid yw mor gynhwysfawr ag arfer gan nad yw Llywodraeth Cymru, wrth reswm, wedi casglu canlyniadau cymharol pob cyngor yng Nghymru fel y byddai fel arfer wedi gwneud, oherwydd y pandemig. Oherwydd effaith y pandemig nid yw ein rheoleiddwyr wedi gallu cwblhau unrhyw asesiadau blynyddol ar gyfer 2019/20 y byddem hefyd wedi'u cynnwys fel arfer.

Mae'r adroddiad yn dangos y cynnydd yr ydym yn ei wneud o ran Amcanion Llesiant ein Strategaeth Gorfforaethol. Rwy'n falch iawn bod ein canlyniadau diwedd blwyddyn ar gyfer dangosyddion perfformiad y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu yn dangos gwelliant net o 8%. Mae hwn yn newid sylweddol o'r gostyngiad net o 25% yn y flwyddyn flaenorol. Rwyf hefyd yn falch o weld bod Arolwg Cenedlaethol Cymru wedi nodi ein bod yn y 5 safle uchaf ymhlith y 22 cyngor yng Nghymru ar gyfer darparu gwasanaethau o ansawdd uchel.

I mi, byddai uchafbwyntiau eraill yn cynnwys cyhoeddi ein strategaeth ar Adroddiad Symud Sir Gâr Wledig Ymlaen, y gyntaf o'i math yng Nghymru. Mae'r strategaeth yn egluro ein dyhead i adfywio ein heconomïau lleol a diogelu'r Gymraeg ac mae'n cynnwys 55 o argymhellion ar gyfer gweithredu a bydd yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda wrth i ni ymateb i effeithiau'r pandemig. Hefyd ni oedd y cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu Carbon Sero-net, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni o ran ein datganiad o Argyfwng Hinsawdd. Rwyf yn falch o'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn a byddwn yn parhau i sicrhau bod camau'n cael eu cymryd o ran ein hamcanion penodol fel y gallwn gyflawni ein hymrwymiad.

Mae gennym rai o'r swyddogion gorau yng Nghymru, ac mae'r misoedd diwethaf heb os wedi dangos hynny. Ni allaf ddiolch digon iddynt am eu hymdrechion drwy gydol y flwyddyn ac mae eu hymateb i bandemig Covid-19 wedi bod yn rhyfeddol. Maent wedi gweithio'n ddiflino i sicrhau bod ein preswylwyr, ein cymunedau, ein sefydliadau a'n busnesau yn ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi. Mae'n rhaid i mi dalu teyrnged i'r staff rheng flaen sydd wedi dangos dewrder mawr wrth barhau â'u gwaith, gan roi pobl eraill cyn eu hunain a'u teuluoedd yn aml. Hefyd hoffwn ddiolch i'r rhai sydd wedi symud o'u gwaith bob dydd i weithio mewn rhannau eraill o wasanaethau rheng flaen – y rhai sydd fel arfer yn gweithio mewn swyddfeydd sydd wedi gweithio mewn cartrefi gofal, gyrru bysiau, a dosbarthu bwyd. Mae'r ymrwymiad a'r parodrwydd i gefnogi eraill yn wirioneddol ysbrydoledig.

Pan ddeuthum yn Arweinydd bum mlynedd yn ôl, fy apêl i'r sir hon oedd y dylem fod yn arloesol, a hyd yn oed yn feiddgar, yn ein hymagwedd ac yn ystod y misoedd diwethaf rwyf wedi gweld hynny mewn modd rhyfeddol. Mae'n braf gweld y cynnydd sy'n cael ei wneud ledled Sir Gaerfyrddin a byddwn yn parhau i symud Sir Gaerfyrddin yn ei blaen yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Y Cynghorydd Emlyn Dole

Arweinydd Cyngor Sir Caerfyrddin

Rydym yn croesawu sylwadau adeiladol ar ein strategaethau a'n gwasanaethau. Mae adborth gan gwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaeth yn hanfodol o ran clustnodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant, ac rydym yn gobeithio y byddwch yn rhannu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau sydd gennych â ni os ydych o'r farn y byddant o gymorth. Cysylltwch â ni:
Gwrando Arnoch Chi, Cyngor Sir Caerfyrddin, Neuadd y Sir,
Caerfyrddin SA31 1JP neu anfonwch neges e-bost at perfformiad@sirgar.gov.uk

Cynnwys

Tudalen

COVID-19 a Chyflwyniad 4

Amcanion Llesiant Sir Gaerfyrddin

Dechrau'n Dda

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd 14
2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw 17
3. Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr 20
4. Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol. 23
5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi 27

Byw'n Dda

6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir 30
7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael 33
8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra) 35

Heneiddio'n Dda

9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel 39
10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio 42
11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin 45

Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol 49
13. Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth 52
14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru 55
15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau 60&64

Atodiadau

1. Gofynion cyfreithiol 69
2. Data am Fesurau Llwyddiant ein Hamcanion Llesiant 71
3. Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru (cyhoeddwyd Gorffennaf 2020) 74
4. A yw ein canlyniadau wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn 77
5. Adroddiadau rheoleiddiol ddaeth i law 2019/20 80
6. Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru 81

COVID-19

Mae argyfwng COVID-19 wedi newid yn sylweddol y byd yr ydym yn byw ynddo o fewn ychydig fisoedd. Fodd bynnag, mae dyletswydd statudol arnom i gyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer y llynedd erbyn 31 Hydref 2020. Nid oes unrhyw lacio wedi bod o ran y ddyletswydd statudol hon oherwydd pandemig COVID-19.

Mewn rhai achosion, adeg paratoi'r adroddiad hwn mae adnoddau'r Cyngor wedi'u hymrwymo o hyd i ddelio â'r argyfwng/gwaith adfer, ac felly nid yw'n bosibl gwneud cymaint o ddadansoddi a gwerthuso manwl â'r blynyddoedd a fu. Efallai hefyd fod rhai bylchau yn y wybodaeth sydd ar gael, er enghraifft mae Llywodraeth Cymru, oherwydd y pwysau sydd ynghlwm wrth ddelio â'r argyfwng, wedi cytuno na fydd *Data Alldro* cymharol ar gael ar gyfer 2019-20.

Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn i asesu perfformiad rhwng *Ebrill 2019 a Mawrth 2020*. Roedd o leiaf 11 mis o'r flwyddyn wedi mynd heibio cyn i'r argyfwng daro.

COVID-19 AMSERFLEN

2020		Y GOBLYGIADAU
CHWEFROR	28ain	Cadarnhawyd yr achos cyntaf o COVID-19 yng Nghymru
MAWRTH	3ydd	CAM CYFYNGU - Cyhoeddodd Llywodraeth y DU gynllun gweithredu ar gyfer y DU
	10fed	Cyfarfod Cyngor Sir Caerfyrddin
	12fed	Symudodd Llywodraeth y DU i'r CAM OEDI. • Roedd hyn yn cydnabod bod y feirws y tu hwnt i'r cam cyfyngu a bod angen cymryd camau i oedi ei ddyfodiad, gyda'r nod o ymestyn a gwastadu brig cromlin y pandemig. • Nod hyn yw lleihau pwysau eithafol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn colli cyn lleied â phosibl o fywydau.
	12fed	Symudodd yr holl swyddogion i'r modd *Gorchymyn* Aur (hierarchaeth reoli a ddefnyddir ar gyfer digwyddiadau mawr)
	16eg	Cyfarfu *Bwrdd Gweithredol* Sir Gaerfyrddin
	18fed	Bu'n rhaid i'r *Prif Weithredwr* benderfynu atal pob un o gyfarfodydd democrataidd fel cam rhagofalus
	19eg	Bu'n rhaid gwneud penderfyniad i gau adeiladau gweinyddol yr Awdurdod i'r cyhoedd er mwyn diogelu staff
	23ain	Cyhoeddodd y Prif Weinidog Boris Johnson 'gyfyngiadau symud' mewn ymgais i atal lledaeniad y feirws. Rhoddodd gyfarwyddyd i'r wlad *aros gartref ac eithrio at ddibenion penodol, gan gynnwys teithio i'r gwaith ac yn ôl, ond dim ond lle bo hynny'n gwbl angenrheidiol ac na ellid gwneud y gwaith gartref*
		Gwnaed trefniadau brys ynghylch: • Gofal Preswyl a Gofal Cartref • Cau ysgolion am gyfnod sylweddol • Darparu trefniadau gofal plant ar gyfer staff critigol / hanfodol i'w galluogi i barhau i weithio tra bo ysgolion ar gau. • Cyngor, cymorth ac ymyrraeth i fusnesau • Parhau i gasglu sbwriel • Glanhau mwy trylwyr • Cydgysylltu a chefnogi gwirfoddolwyr cymunedol. • Cwtogiad sydyn mewn gwasanaethau a symudiad i weithio gartref wedi'i alluogi gan barodrwydd TG, cyfathrebu a chymorth staff, adolygu polisïau Adnoddau Dynol • Ad-leoli staff o wasanaethau nad oeddent yn critigol i rai critigol • Colledion ariannol yn deillio o gau canolfannau hamdden, gwasanaethau arlwyo, colli incwm meysydd parcio, incwm gwastraff masnach ac ati a mwy o wariant
MEHEFIN	10fed	Ar 10 Mehefin ailddechreuwyd cyfarfodydd y Cyngor Sir drwy ddulliau digidol

Adeg anodd

Roedd y cyfnod hwn yn her enfawr a daeth y sefydliad at ei gilydd mewn argyfwng i sicrhau ein bod yn helpu ein trigolion a'n cymunedau. Daeth rhinweddau gorau dynol ryw i'r amlwg, sef ymroddiad, cydwybodolrwydd, tosturi, a chreadigrwydd, a hynny er lles ein cymunedau.

Er mwyn sicrhau ein bod yn dysgu o'r profiad hwn wrth i ni ailgyflwyno ein gwasanaethau ac ail-bennu ein blaenoriaethau strategol a gweithredol, byddwn yn nodi ein pwyntiau dysgu allweddol ar lefel sefydliadol ac ar draws ein holl wasanaethau. Mae un peth yn amlwg, ni allwn ddychwelyd i fel oedd pethau cyn Covid-19 ac ni fyddwn yn gwneud hynny.

Mae **ADFER** yn seiliedig ar bedwar cyfnod allweddol:

- Gwaelodlin (sefyllfa cyn y pandemig) - mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod hwn
- Cam diogelu brys (cyfnod cyfyngiadau symud acíwt)
- Paratoi ac addasu'r cam (codi'r cyfyngiadau'n raddol)
- Gorchfygu (y normal newydd)

Bydd yr adroddiad hwn yn darparu gwaelodlinau defnyddiol i helpu i fesur yr adferiad.

RHYBUDD... mae'n bwysig peidio â bod yn hunanfodlon --- nid yw'r Pandemig ar ben.
Yn nhermau Sefydliad Iechyd y Byd, rydym yn dechrau ar y cyfnod adfer a pharatoi:



Ffynhonnell: World Health Organisation: A WHO guide to inform & harmonise national & international pandemic preparedness & response

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn ar 2019/20 rydym yn cynnal Asesiad manwl o'r Effaith ar y Gymuned a fydd yn ystyried effaith y pandemig ac a yw newidiadau i'r ffordd yr ydym yn gwneud pethau (arferion gweithio o ran y ffyrdd yr ydym yn darparu gwasanaethau) yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol. Bydd hyn yn ein helpu i gynllunio i leihau neu ddileu effaith negyddol.

Bydd ein Hadroddiad Blynyddol ar 2020-21 yn gwerthuso'n llawn y flwyddyn ac effaith pandemig Covid-19 ar ein gwasanaethau.

Cyflwyniad

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddwyd gennym *Strategaeth Gorfforaethol Newydd ar gyfer 2018-23.* Mae'r ddogfen hon yn Adroddiad Blynyddol sy'n rhoi sylw i'n cynnydd yn ail flwyddyn y Strategaeth (2019/20).

Mae'n cael ei chynhyrchu gan y Cyngor oherwydd rydym yn credu y dylem ddarparu gwybodaeth gynhwysfawr a chytbwys i'r cyhoedd am ein gwasanaethau, er mwyn iddynt allu gweld sut yr ydym yn perfformio a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu. Hefyd mae'n ddyletswydd statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Gweithio gyda Phartneriaid

Fel Cyngor, nid ni yn unig sy'n gweithio i wella bywydau dinasyddion Sir Gaerfyrddin. Rydym yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill. Rydym wedi sefydlu *Bwrdd Sector Cyhoeddus* ac mae'r bartneriaeth hon wedi cyhoeddi Cynllun Llesiant Sir Gaerfyrddin. Mae'r holl gyrff cyhoeddus yn y bartneriaeth yn cyhoeddi eu Hamcanion Llesiant eu hunain, a byddwn yn gweithio i gyflawni llawer o amcanion cyffredin. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus hefyd wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol - maent yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel yr amlinellwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi. Yn ystod 2019/20, rydym wedi diwygio ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'n Hamcanion Cydraddoldeb Strategol.

Er mwyn datblygu'r nodau cydraddoldeb, rydym wedi ymgysylltu â'n preswylwyr a'n gweithlu ac wedi defnyddio gwybodaeth berthnasol. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys adroddiadau ymchwil y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ac adroddiadau a pholisïau Llywodraeth Cymru.

Daeth gwasanaethau cyhoeddus yng nghanolbarth a gorllewin Cymru ynghyd i ofyn i'r cyhoedd am eu barn ar gydraddoldeb. Roedd hyn yn cynnwys arolwg a digwyddiadau ymgysylltu yn ystod Mai-Mehefin 2019. Casglodd yr arolwg sylwadau ar sut mae pobl o wahanol gefndiroedd yn profi chwe phrif faes bywyd.

- Addysg
- Gwaith
- Safonau Byw
- Iechyd
- Cyfiawnder a Diogelwch Personol
- Cyfranogiad.

Roedd y bartneriaeth yn cynnwys Cyngor Sir Ceredigion, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Powys, Heddlu Dyfed-Powys, y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro.

Yn ystod y flwyddyn, mae Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin, sy'n cael ei chadeirio gan Hyrwyddwr Anabledd y Bwrdd Gweithredol, wedi parhau i ddatblygu, gyda golwg ar sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor yn diwallu anghenion pobl anabl ar draws y sir. Un o'r meysydd gwaith allweddol yn ystod y flwyddyn oedd hwnnw'n gysylltiedig â Phentre Awel (Pentref Llesiant Llynnoedd Delta gynt) . Ymgysylltodd tîm y prosiect â Phartneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin (CDP) yn ystod y cam datblygu dylunio er mwyn rhoi ystyriaeth briodol i hygyrchedd a chynwysoldeb mewn perthynas â chyfleusterau a chynllun yr adeilad.

Cyflwynodd *Arup* – ymgynghorwyr dylunio'r prosiect – gynlluniau/amlinelliadau i'r CDP wrth iddynt ddatblygu a cheisio adborth ar nifer o bynciau sydd o fewn cylch gwaith y Grŵp, gan gynnwys: darpariaeth lles (toiledau hygyrch), trafnidiaeth gyhoeddus, parcio ceir i'r anabl, mynediad i'r pwll hydrotherapi, cyfleusterau newid ac amgylcheddau hygyrch i'r cyhoedd.

Yr iaith Gymraeg (hefyd, gweler *Amcan Llesiant 14)*

Rydym yn parhau i weithredu *Safonau'r Gymraeg* ar draws y Cyngor a chafodd gwaith cyfathrebu mewnol sylweddol ei wneud yn ystod 2019-20. Cafodd negeseuon am y Safonau eu cyfleu i staff drwy gyflwyniadau gan y Tîm Polisi, drwy ffrydiau cyfathrebu Marchnata a'r Cyfryngau, a thrwy Arweinwyr Iaith yr Adrannau. Hefyd, cafodd gwaith mwy dwys a oedd yn cyfleu negeseuon am y Safonau a'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle ei wneud mewn digwyddiadau amrywiol ar draws adeiladau'r Cyngor ar *Diwrnod Shwmae*, ar ddydd Gŵyl Dewi, ac ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn.

Yn ystod 2019-20, cafodd gwaith ei wneud gyda'r is-adran Hamdden i hyrwyddo cydymffurfiaeth â'r Safon ar gyrsiau i'r cyhoedd. Comisiynwyd fideo hyfforddi mewnol i gynghori staff sut i ddarparu gwersi nofio cyfrwng Cymraeg mewn lleoliad dwyieithog. Arweiniodd y fideo y staff drwy'r holl broses o ddarparu gwersi nofio, o gofrestru'r plentyn i gynnig adborth i rieni a darparu'r sesiynau hyfforddi eu hunain. Roedd y fideo'n sicrhau bod y wers yn cael ei chynnal yn Gymraeg heb lithro'n ôl i'r Saesneg, ac yn sicrhau bod y staff yn deall gofynion darparu gwersi yn ogystal ag ymdrin â rhieni. Yn dilyn yr hyfforddiant, cynhaliwyd arolwg i gasglu argraffiadau staff o'r fideo ac i ofyn pa gymorth pellach fyddai ei angen arnynt. O ganlyniad, darparwyd rhagor o hyfforddiant ar ffurf gweithdai nofio Cymraeg yn Rhydaman, Llanelli a Llanymddyfri yn ystod mis Chwefror 2020.

Mae *Fforwm Strategol Sirol yr Iaith Gymraeg*, sy'n parhau i gael ei arwain gan y Cyngor ac sy'n cynnwys cynrychiolaeth o sefydliadau hybu iaith y sir, yn ogystal â chyrff cyhoeddus gyda swyddogion iaith, hefyd wedi parhau â'i rôl o ddatblygu rhaglen o hyrwyddo'r Gymraeg yn y sir ac wedi cychwyn llawer o gynllunio ar y cyd ar gyfer gweithredu Cynllun Gweithredu Hybu Sir Gaerfyrddin, sy'n unol â'r safonau Hybu. Cyfarfu'r fforwm bedair gwaith a rhoddwyd sylw penodol i flynyddoedd cyn-ysgol, cynllunio, symudiadau poblogaeth, pobl ifanc a Chymraeg i oedolion.

'Mae'n rhaid byw bywyd, gadewch i ni ddechrau'n dda, byw'n dda a heneiddio'n dda, mewn amgylchedd iach, diogel a llewyrchus'







Amcanion Llesiant

1. Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.

2. Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.

3. Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwr.

4. Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant.

5. Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.

6. Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.

7. Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.

8. Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).

9. Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.

10. Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.

11. Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin.

12. Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.

13. Gwella seilwaith a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.

14. Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.

15. Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Sut rydym yn mesur llwyddiant ein Hamcanion Llesiant

Gweler Atodiad 2 i gael manylion am yr holl fesurau llwyddiant

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i wella'r mesurau canlynol.

Amcanion Llesiant		Mesur llwyddiant allweddol	Canlyniad blaenorol	Canlyniad mwyaf cyfredol
Dechrau'n Dda	**Amcan Llesiant 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.** Mwy o fanylion ar dudalen 13	% y Plant mewn gofal â **3 lleoliad neu fwy** yn y flwyddyn	**10.4**	**8.6**
	Amcan Llesiant 2 - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw Mwy o fanylion ar dudalen 16	% y Plant sydd **dros bwysau neu'n ordew**	**29.4**	**26.6**
	Amcan Llesiant 3 - Cefnogi a gwella cynnydd a chyflawniad yr holl ddysgwyr. Mwy o fanylion ar dudalen 19	**Cyfartaledd sgôr pwyntiau (9) wedi'i chapio i ddisgyblion**	**363.1**	**367.2**
	Amcan Llesiant 4 - Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Mwy o fanylion ar dudalen 22	Rhai sy'n gadael **Blwyddyn 11** Nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEETs)	**1.8**	**Ddim ar gael**
Byw'n Dda	**Amcan Llesiant 5 - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.** Mwy o fanylion ar dudalen 26	% yr Aelwydydd **sy'n Byw mewn Tlodi**	**35.5**	**33.7**
	Amcan Llesiant 6 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir. Mwy o fanylion ar dudalen 29	**Enillion Amser Llawn Wythnosol Gros** Canolrifol ***(£)***	**511.3**	**536.5**
	Amcan Llesiant 7 – Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael. Mwy o fanylion ar dudalen 32	Nifer y **tai fforddiadwy yn y Sir**	**247**	**315**
	Amcan Llesiant 8 – Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus gordewdra). Mwy o fanylion ar dudalen 34	% o oedolion yn dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn**	**66**	**70**

Amcanion Llesiant		Mesur llwyddiant allweddol	Canlyniad blaenorol	Canlyniad mwyaf cyfredol
Heneiddio'n Dda	**Amcan Llesiant 9 - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.** Mwy o fanylion ar dudalen 38	% yn dweud bod ganddynt **ymdeimlad o gymuned**	**47.7**	**51.6**
	Amcan Llesiant 10 - Cefnogi'r nifer gynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio. Mwy o fanylion ar dudalen 41	% yn cytuno bod **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da** ar gael yn yr ardal	**56.2**	**47.5**
	Amcan Llesiant 11 - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y Sir. Mwy o fanylion ar dudalen 44	% y **bobl sy'n unig**	**18.3**	**16.2**
Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus	**Amcan Llesiant 12 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.** Mwy o fanylion ar dudalen 48	**% y Gwastraff sy'n cael ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio**	**58.95**	**64.66**
	Amcan Llesiant 13 - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth. Mwy o fanylion ar dudalen 51	% **ffyrdd** sydd mewn **cyflwr gwael** **Dosbarth A, B ac C**	**5.2** **4.2** **12.5**	**5.4** **4.7** **12.5**
	Amcan Llesiant 14 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru. Mwy o fanylion ar dudalen 54	% sy'n gallu **siarad Cymraeg**	**37.8**	**37.4**
	Amcan Llesiant 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau. Mwy o fanylion ar dudalen 59	Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd **absenoldeb salwch**	**9.8**	**10.7**

Mesurau'r Canlyniadau

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn hyrwyddo newid mewn ffocws o gynhyrchiant gwasanaethau, i bob corff cyhoeddus yn cydweithio i ddatblygu canlyniadau sy'n gwella ansawdd bywyd dinasyddion a chymunedau, nawr ac yn y dyfodol.

Gwybodaeth Asesu Arall

Bodlonrwydd Dinasyddion

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd wedi eu seilio ar oddeutu 12,000 o gyfweliadau a gynhaliwyd ledled Cymru rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020. Rhoddwyd cyfweliad i fwy na 600 yn Sir Gaerfyrddin.

Cyhoeddwyd prif ganlyniadau 2019/20 ar 14 Gorffennaf 2020, a chyhoeddwyd gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru pan oedd ar gael.

O ran darparu **gwasanaeth o safon uchel,** rydym wedi symud o'r 8fed safle i'r 5ed safle ac wedi gwella ar y canlyniad blaenorol o 51% (2016/17).



Rydym wedi mynd â'r canlyniadau sydd ar gael ar hyn o bryd ar lefel Awdurdod Lleol ac wedi trefnu'r canlyniadau ar gyfer pob un o'r 22 Awdurdod o'r safle gwaethaf (22ain) i'r gorau (1af) ***- Gweler Atodiad 3.*** Cofiwch mai nid perfformiad y Cyngor sydd i gyfrif am bob un o'r canlyniadau hyn.

[Dolen i Arolwg Cenedlaethol Cymru Llywodraeth Cymru]

Ymgynghoriad a gynhaliwyd gan y Cyngor

- Drwy gydol y flwyddyn, cynhaliwyd nifer o brosiectau ymgynghori ac ymgysylltu. Roedd y rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, ymgynghori ar; Adolygu Polisi Trwyddedu; Tlodi Misglwyf mewn perthynas â'r Cyngor Ieuenctid; Cau ffyrdd a Blaen-gynllunio.
- Gwelwyd y gyfradd gyfranogi uchaf mewn pum mlynedd ar gyfer yr ymgynghoriad ar y gyllideb, a chafwyd 2,006 o ymatebion gan wahanol rannau o'r gymuned, gan gynnwys unigolion, busnesau, cynghorau tref a chymuned, a grwpiau a sefydliadau cynrychioliadol. Y ffordd oedd yr ymgynghoriad wedi cael ei hyrwyddo oedd y prif reswm dros y cynnydd hwn, ynghyd â fformat diwygiedig yr arolwg ar-lein. Rhoddodd canlyniadau'r ymgysylltu â dinasyddion arwydd clir i'r aelodau o'r gwasanaethau yr hoffent eu diogelu, a arweiniodd at ddileu rhai cynigion. *Roedd enghreifftiau o gynigion a dynnwyd yn ôl yn sgil cael sylwadau negyddol gan y cyhoedd yn cynnwys cau Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref Hendy-gwyn ar Daf; cau toiledau cyhoeddus; lleihau cyllidebau'r Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid; a'r cynnydd arfaethedig i daliadau mynwentydd*. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd ymgysylltu'n llawn gan sicrhau y gwrandewir ar unigolion ledled Sir Gaerfyrddin, ac felly helpu aelodau i wneud penderfyniadau allweddol.
- Rydym wedi ailgyflwyno arolygon staff i sicrhau y clywir barn staff ynghylch y sefydliad. Mae ymgysylltu ag aelodau o staff ym mhob adran wedi bod yn hanfodol i lwyddiant yr arolygon, ac mae hynny'n amlwg yn ôl nifer y gweithwyr sy'n cymryd rhan. Yn yr arolwg diweddaraf, cymerodd dros 30% o'r sefydliad ran yn yr arolwg gwirfoddol. Gofynnwyd i'r staff roi eu barn am y cyfathrebu a dderbyniwyd yn gorfforaethol a chan reolwyr, iechyd a llesiant. Mae nifer o gamau gweithredu allweddol wedi deillio o'r data a gasglwyd sydd bellach wedi'u rhoi ar waith ar draws y sefydliad.

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus

Hefyd mae cyfres genedlaethol o fesurau y mae'n rhaid i bob Cyngor yng Nghymru eu casglu, ond oherwydd COVID-19, nid yw'r canlyniadau ar gyfer pob awdurdod ar gael i'w cymharu. Fodd bynnag, gallwn adrodd ein canlyniadau ein hunain.

Roedd mwy o fesurau wedi gwella yn 2019/20 nag oedd wedi gwaethygu, er gwaethaf gostyngiadau parhaus yn y gyllideb, mwy o alw a disgwyliadau.

2019/20
+8%

2018/19
-25%

Blwyddyn	Wedi gwella	Yn gyson	Wedi dirywio	Gwahaniaeth Net (Wedi gwella - Wedi dirywio)
2019/20	**47% (13 mesur)**	**14% (4 mesur)**	**39% (11 mesur)**	**8%**
2018/19	36% (12 mesur)	3% (1 mesur)	61% (20 mesur)	**-25%**

Canlyniad Rheoleiddio

Yn ystod y flwyddyn cyhoeddodd ein cyrff Rheoleiddiol nifer o adroddiadau am Wasanaethau'r Cyngor a chaiff y rhain eu rhestru yn **Atodiad 5**

Archwilio Cymru Audit Wales — Estyn — Arolygiaeth Gofal Cymru Care Inspectorate Wales

[Archwilio Cymru] [Estyn] [Arolygiaeth Gofal Cymru]

Dechrau'n Dda

Mae nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal wedi *lleihau'n sylweddol*

Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r nifer isaf o blant sydd mewn gofal ledled Cymru, ac mae'r ffigurau'n gostwng yn raddol o flwyddyn i flwyddyn wrth i fwyfwy o deuluoedd gael cymorth i aros gyda'i gilydd.

Helpu Teuluoedd i aros gyda'i gilydd

- Un o'r newidiadau symlaf, ond mwyaf effeithiol, a wnaed yn ystod y blynyddoedd diwethaf yw **integreiddio** a chysoni timau sy'n gweithio ar draws gwasanaethau plant ac addysg, ynghyd â dod â staff sydd â sgiliau arbenigol at ei gilydd i greu tîm cyfan o amgylch teulu mewn angen, yn hytrach na neilltuo un gweithiwr cymdeithasol i achos unigol.
- Mae'r **cydweithredu** hwn wedi arwain at rannu sgiliau, safbwyntiau a syniadau i ddarparu pecyn pwrpasol o gefnogaeth i bob teulu, yn ogystal â bod yn greadigol wrth ddod o hyd i wahanol ffyrdd o gysylltu â theuluoedd a'u cadw ynghyd.
- Mae timau yn canolbwyntio ar **gynnwys** teuluoedd a meithrin perthnasoedd â theuluoedd i lwyr ddeall eu hanghenion, a pha ymyrraeth fydd yn gweithio orau iddyn nhw - yn aml drwy wahodd teuluoedd i weithio gyda nhw i gomisiynu cefnogaeth arbenigol wedi'i theilwra gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffordd sy'n gweithio orau iddynt.
- Mae **atal** ac ymyrraeth blynyddoedd cynnar hefyd yn nodwedd allweddol - mewn cyfnod diweddar o chwe mis roedd y gwasanaeth wedi cefnogi 18,000 o deuluoedd ag ystod o wasanaethau yn y gymuned i feithrin gwytnwch ac atal yr angen i deuluoedd gael cyswllt â'r system gofal cymdeithasol statudol.
- Nid y targedau sy'n bwysig, ond cadw teuluoedd ynghyd yn y **tymor hir**, a lleihau nifer y plant y mae angen gofal arnynt heb gyfaddawdu dim o ran eu diogelwch. Mae parodrwydd i weithio'n wahanol a rhoi cynnig ar ddulliau newydd o gefnogi teuluoedd mewn angen, ac i geisio sicrhau nad oes angen ein gwasanaethau arnynt.

"Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gwneud gwaith gwych i gadw teuluoedd ynghyd ac atal plant rhag mynd i ofal. Mae Sir Gaerfyrddin yn sefyll mas am fod y tîm yn barod i feddwl a gwneud pethau'n wahanol. Fel Prif Weinidog Cymru, rwyf am adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd yma, deall pam ei fod yn cael effaith, a rhannu'r arfer da ledled Cymru er mwyn i ni allu helpu i gadw mwy o deuluoedd gyda'i gilydd."
Mark Drakeford - Prif Weinidog Cymru

Pam mae'n bwysig

- Gan fod rhoi'r cychwyn gorau mewn bywyd i bob plentyn yn hanfodol er mwyn lleihau anghydraddoldebau yn ystod cwrs bywyd
- Mae ymyrraeth gynnar yn allweddol i iechyd a llesiant hirdymor. Mae'r hyn sy'n digwydd yn ystod y blynyddoedd cynnar hyn yn cael effaith gydol oes ar sawl agwedd ar iechyd a llesiant - o ordewdra, clefyd y galon ac iechyd meddwl i gyflawniad addysgol a statws economaidd
- Gan fod Plant sy'n Derbyn Gofal yn fwy tebygol o fod wedi bod yn agored i risgiau niferus sy'n gysylltiedig â chanlyniadau gwael yn y tymor hir cyn dechrau derbyn gofal.

Mesur Llwyddiant

Mae % y plant mewn gofal oedd wedi gorfod symud 3 gwaith neu fwy wedi gostwng i **8.6%**

Egluro'r Canlyniadau

Rydym yn falch fod gwelliant mewn sefydlogrwydd lleoliadau wedi bod a bod gostyngiad yn nifer y plant sydd wedi symud 3 gwaith neu fwy yn ystod 19/20, sef 8.6% (14 o 163) o gymharu â 10.4% (19 o 183) yn 18/19, sy'n is na Chyfartaledd Cymru o 9.2%. ***(Gweler Siart 1)***

Rydym yn perfformio'n dda yn gyson o ran cadw plant sy'n derbyn gofal yn yr un ysgol, sydd hefyd yn ffactor pwysig o ran gwella canlyniadau.





Yn ystod 19/20 roedd 4 o 101 o blant wedi newid ysgol ***(Gweler Siart 2).*** Nid aros yn yr un ysgol yw'r peth gorau i'r disgybl bob amser e.e. pellter teithio neu anghenion academaidd ddim yn cael eu diwallu.

Yn y **tymor hir** erys ein pwyslais ar **atal** a chadw plant yn eu cartrefi gyda'u teuluoedd, y tu allan i'r system ofal lle bynnag y bo'n bosibl, yn ogystal â darparu adnoddau ychwanegol i ofalwyr maeth i gefnogi plant yn eu gofal er mwyn cael lleoliadau sefydlog ac osgoi'r angen am eu symud ble bynnag y bo modd.

Y cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i **drawsnewid arferion gwaith cymdeithasol plant** gan integreiddio **arfer systemig a *Signs of Safety*** yn ddull cydlynol o ddarparu gwasanaethau gwaith cymdeithasol plant. Mae wedi cael ei lywio gan ymchwil yn ogystal ag adborth gan randdeiliaid.
- Rydym wedi parhau i ymestyn a mireinio'r dull **Tîm o Amgylch y Teulu** ar draws y sir ar gyfer pobl ifanc 0-25 oed. Dechreuodd y Tîm o Amgylch y Teulu newydd mewn ysgolion ar 1/4/19.
- Mae'r **Cynnig 30 awr o Ofal Plant am ddim** bellach wedi bod ar gael ledled y sir ers dros flwyddyn i bob rhiant/gofalwr cymwys sy'n gweithio. Mae **1,222** o geisiadau wedi'u prosesu hyd yma. Mae **203** o ddarparwyr gofal plant wedi cofrestru, ac mae 168 arall yn rhan ohono ar hyn o bryd. Ar gyfartaledd, telir £143,000 y mis i Ddarparwyr Gofal Plant yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn arbed swm sylweddol o arian i lawer o deuluoedd sydd bellach yn gallu cynllunio ar gyfer eu gwyliau teulu cyntaf erioed ac yn ystyried gweithio oriau ychwanegol.
- Rydym wedi adolygu ein **gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc anabl** a'u teuluoedd, drwy sefydlu model 0-25 ar draws pob oedran a fydd yn darparu llwybr gofal cyson gyda mewnbwn gan iechyd ac addysg yn seiliedig ar angen, nid oedran, fel bod plant a'u teuluoedd yn cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, pan fydd eu hangen arnynt, ac yn y mannau y gallant eu cyrchu orau.
- Mae'r rhaglen **Teuluoedd yn Gyntaf** (0-25 oed) yn parhau i ddarparu gwasanaethau cymorth ymyrraeth gynnar i blant, pobl ifanc a theuluoedd difreintiedig. Y tri maes ffocws yw: - Rhianta, Pobl Ifanc a chymorth Anabledd. Yn ystod 19/20, cefnogwyd 11,682 o unigolion (3,890 o deuluoedd) gan y prosiectau.
- Mae gwasanaeth blynyddoedd cynnar **Dechrau'n Deg** wedi bod yn destun ehangiad 3 blynedd i gynyddu capasiti, ac mae bellach yn cael ei ddarparu ar draws 18 ardal sy'n cwmpasu 767 o godau post ledled Sir Gaerfyrddin i deuluoedd â phlant 0-3 oed sy'n byw yn rhai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig.

Dathlu llwyddiant Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal

Cynhaliwyd dathliad blynyddol o gyflawniadau Plant sy'n Derbyn Gofal a'r Rhai sy'n Gadael Gofal yn yr Xcel Bowl, Caerfyrddin ar 25 Hydref 2019.

Dyfarnwyd gwobrau am lwyddiant yn yr ysgol, ym meysydd celf, cerddoriaeth, a chwaraeon, ac am wirfoddoli.

Fel Rhieni Corfforaethol mae gennym gyfrifoldeb i sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn llwyddo ac yn cael cymorth i gyflawni eu dyheadau. Da iawn pawb a dderbyniodd wobrau ac i'n holl bartneriaid am eu cefnogaeth. Diolch arbennig i gôr newydd, ***VOICES ALOUD*** *a wnaeth ein diddanu a'n perswadio i ganu!*

Y ffordd rydym yn gweithio

Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer plant anabl
Darparu'r hyn mae teuluoedd am ei gael - dim beth rydym ni'n meddwl eu bod am ei gael.

Drwy gydweithio â rhieni plant anabl sydd ag anghenion arbennig a'u cynnwys bob cam o'r ffordd, llwyddom i greu cynllun ar ôl-ysgol a gwyliau gwell.

Mae'r rhieni a'r gwirfoddolwyr oedd yn gysylltiedig dal yn gysylltiedig, i sicrhau bod y plant yn cael amser da. Nid datrysiad cyflym oedd hwn, ond roedd yn gweithio. Dywedodd un rhiant "mae'n wych gwybod bod y Cyngor ar eich ochr chi"

"Mae'r ffordd newydd hon o gydweithio wedi datblygu perthnasoedd ac mae'n adlewyrchiad cywir o gydweithio a chydgynhyrchu. Er mwyn i'r dull o gydgynhyrchu weithio, rhaid buddsoddi yn y broses. Mae'n rhoi gwell dealltwriaeth o anghenion cwsmeriaid ac yn meithrin cydberthnasau.
Sarah Bolton, Cydgysylltydd Cynhwysiant

Enillodd y gwaith wobr flynyddol y Cyngor am Trawsnewid, Arloesi a Herio

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
Y Cynghorydd Glynog Davies

Amcan Llesiant 2
Dechrau'n Dda - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw

Mae gordewdra ymhlith plant yn Sir Gaerfyrddin yn lleihau

Mae'r gyfradd ordewdra yn Sir Gaerfyrddin yn is nag y mae wedi bod ers pedair blynedd. Mae hwn yn dal i fod yn amcan buddsoddi i arbed, er mwyn sicrhau iechyd plant yn tymor hir.

Pam mae'n bwysig

- Nododd yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mai chwarae yn yr awyr agored oedd y lleoliad mwyaf poblogaidd i blant ond canfu hefyd fod 32% o rieni'n poeni am ddiogelwch eu plentyn.
- Dangosodd gweithgarwch asesu gyda phlant ysgolion cynradd mai bod yn gorfforol egnïol oedd y ffactor ail bwysicaf er llesiant cadarnhaol plant.
- Mae byw bywydau iach yn galluogi plant i gyrraedd eu potensial a gwireddu eu dyheadau o ran addysg.
- Mae arferion a sefydlir yn gynnar mewn bywyd yn aros gyda phobl i'w galluogi i gyfrannu'n llawn at economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.

Mesur Llwyddiant

26.6% o blant dros eu pwysau neu'n ordew (Gwelliant ar y flwyddyn flaenorol)



Egluro'r Canlyniadau

Mae data diweddaraf Rhaglen Mesur Plant Cymru ar gyfer 2017/18, a chafodd ei gyhoeddi ym mis Mai 2019. Oherwydd goblygiadau COVID-19 nid ydym yn siŵr pryd y bydd data 2018/19 yn cael ei gyhoeddi gan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyflawnir y rhaglen mesur plant gyda phlant sy'n mynychu dosbarth derbyn mewn ysgolion yng Nghymru. Yn 2017/18, bu i *93.2%* o'r plant sy'n gymwys gymryd rhan yn y rhaglen yn Sir Gaerfyrddin, a *94.1%* oedd y ffigwr yng Nghymru.



- Bu tuedd ar i lawr yng **% y plant 4 i 5 oed sydd dros bwysau neu'n ordew** yn Sir Gaerfyrddin dros y 4 blynedd diwethaf. O **30.7%** yn 2014/15 i **26.6%** yn 2017/18, gan symud o'r 3ydd uchaf i'r **11eg uchaf yng Nghymru.** Mae'r bwlch rhyngom ni a chyfartaledd Cymru wedi cau ac ar hyn o bryd ychydig yn uwch na'r ffigur o 26.6%.
- Mae cyfran y plant sy'n **ordew** wedi cynyddu ychydig o 14% yn 2016/17 i **13%** yn 2017/18.
- Mae gordewdra yn ystod plentyndod yn aml yn parhau i fywyd fel oedolyn, gan arwain at broblemau iechyd cysylltiedig fel diabetes math 2, clefyd yr afu, cyfraddau uwch o glefyd y galon a rhai mathau o ganser.

Cynnydd a Wnaed

Cynyddu Gweithgarwch Corfforol:

- Mae gennym 86 o leoliadau yn y gymuned (cylchoedd Meithrin, llyfrgelloedd ac ati) sy'n darparu *Amser Stori Actif* (menter flaengar yn y sector sy'n cael plant i fod yn egnïol drwy adrodd storïau)
- Mae ein *Pasbortau Actif* i blant hefyd wedi cael eu hystyried yn fodel mor effeithiol fel bod Chwaraeon Cymru wedi buddsoddi mewn Partneriaeth Genedlaethol gyda ni, ynghyd â Thriathlon Cymru ac ymgynghorwyr llythrennedd corfforol o Brifysgol Fetropolitan Caerdydd i greu pasbort triathlon i'w gyflwyno ledled Cymru. Mae'r datblygiad hwn yn Sir Gaerfyrddin wedi arwain at 30 o ysgolion, 37 o'u staff a thros 1,000 o ddisgyblion yn cael hwyl ac yn gwneud gweithgarwch triathlon yn ystod y flwyddyn.
- Roedd ychydig dros 205,000 o *bresenoldebau mewn Cyfleoedd Chwaraeon* sy'n cael eu trefnu gan Swyddogion Chwaraeon a Hamdden. Roedd hyn yn llai na phresenoldebau'r flwyddyn flaenorol (230,000), yn bennaf oherwydd Storm Dennis a chanslo digwyddiadau mawr ym mis Mawrth oherwydd COVID-19.
- Mae 36% o ysgolion wedi *cyflawni Cam 5 y Fenter Ysgolion Iach.* Mae'r Cynllun Ysgolion Iach yn ei unfed flwyddyn ar bymtheg bellach, ac mae 100% o'r ysgolion yn rhan o'r cynllun erbyn hyn. Mae Ysgol Feithrin Rhydaman ac ysgolion Peniel a Nantgaredig wedi ennill y *Wobr Ansawdd Genedlaethol.*



- Mae bron i 26,000 o bobl ifanc (0-16) wedi cael *sesiynau nofio am ddim,* sy'n gynnydd o 20,000 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Iechyd Meddwl:

- Roedd presenoldeb da mewn cyrsiau i athrawon ar faterion Llesiant / Bugeiliol yn eu hysgolion, ac roedd 36 o athrawon wedi mynychu *Cwrs Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl* 1 dydd a 25 o athrawon wedi mynychu *Cwrs Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Pobl Ifanc* 2 ddydd dilynol.
- Gosodwyd Adnoddau Addysgol ynghylch Gwrth-fwlio ar y Rhwydwaith Ysgolion Iach ar Hwb, gan atgoffa ysgolion o'r *Ymgyrch Gwrth-fwlio Genedlaethol* a gynhaliwyd ym mis Tachwedd - *'The Change Starts with Us'*. Cyflwynwyd ysgolion hefyd i'r *apiau 'Hunanofal'* addas i blant y gellir eu lawrlwytho i ffonau symudol, sy'n gallu cefnogi pobl ifanc â phroblemau Iechyd Meddwl.

Bwyta'n Iach:

- Roedd 95% o'r plant sy'n derbyn gofal wedi'u *cofrestru gyda meddyg teulu* o fewn 10 diwrnod gwaith i ddechrau eu lleoliad. Rydym yn parhau i berfformio'n dda ac yn uwch na ffigur Cymru Gyfan am 18/19 sef 90.6%.
- Rydym wedi parhau i sicrhau bod ysgolion yn cadw at y *Rheoliadau Bwyta'n Iach mewn Ysgolion* yn ystod cyfarfodydd clwstwr, ymweliadau ysgol ac asesiadau

HARRI a HETI

Stori gan blant Sir Gaerfyrddin, i blant, ar effeithiau bwyta gormod o siwgr.

Daeth y Gwasanaeth Llyfrgelloedd ac Addysg at ei gilydd i gynnal cystadleuaeth i ysgrifennu stori neu gerdd ar oblygiadau hirdymor bwyta gormod o siwgr.

Y nod oedd cyfrannu at atal ac ymyrraeth gynnar o ran gordewdra ymhlith plant, gan fod hyn yn broblem yng Nghymru.

Roedd cynnwys y plant yn amcan allweddol a chyhoeddwyd llyfr, wedi'i ysgrifennu a'i ddylunio gan blant o ysgolion o bob cwr o Sir Gaerfyrddin.

Bydd pob llyfrgell ac ysgol ar hyd a lled Sir Gaerfyrddin yn cael y llyfr i'w hyrwyddo.

'Tyfu yn yr Awyr Agored'

Mae'r prosiect hwn yn adeiladu ar *arfer arloesol grŵp o 33 o ysgolion* yn Sir Gaerfyrddin a fu'n gweithio ochr yn ochr â'i gilydd y llynedd i ddatblygu cyfleoedd dysgu'n greadigol ar gyfer disgyblion, a oedd yn cynnwys elfennau o bedwar diben craidd ein cwricwlwm newydd. Roedd y pwyslais ar iechyd a llesiant disgyblion a staff y llynedd, yn ogystal â'u sgiliau creadigol a llythrennedd, gan weithio ochr yn ochr â NAWR a defnyddio'r awyr agored gymaint â phosibl. Bydd llu o artistiaid, beirdd, awduron ac ymarferwyr awyr agored lleol yn helpu i sicrhau bod ein hysgolion yn cael cefnogaeth dda i ddefnyddio eu hardal fel rhan o brofiadau dysgu'r disgyblion.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
Y Cynghorydd Glynog Davies

Amcan Llesiant 3

Dechrau'n Dda - Cefnogi a gwella cynnydd a chyrhaeddiad yr holl ddysgwyr

Canlyniadau Arholiadau yn Parhau i Wella

Mae perfformiad TGAU Sir Gaerfyrddin yn parhau i wella ac mae 58.5% o'n dysgwyr wedi cyflawni dangosydd cynhwysol Lefel 2 (o leiaf 5 TGAU gradd A * i C yn cynnwys iaith a mathemateg). Mae'r canlyniad hwn yn ein gosod yn ddiogel uwchlaw cyfartaledd Cymru o 53.8%.

Mae manylebau arholiadau diwygiedig ac ail-bwyslais cenedlaethol ar gynnydd a llesiant disgyblion yn golygu bod yn rhaid i ni fod yn ofalus wrth ystyried unrhyw gymariaethau â'r tueddiadau perfformiad o ddata blynyddoedd blaenorol.

Yn Sir Gaerfyrddin, rydym yn parhau i bwysleisio a chanolbwyntio ar y cynnydd mae ein dysgwyr yn ei gyflawni o'u man cychwyn unigol ac yn credu'n gryf mai dyma'r gwir fesur o lwyddiant.

Pam mae'n bwysig

- Rydym ni i gyd eisiau i'n plant a'n pobl ifanc gael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy eu helpu i ennill y sgiliau a'r wybodaeth y mae arnynt eu hangen i fyw bywydau hapus, iach a bodlon.
- Rydym am wella canlyniadau i bobl o bob oedran drwy ddysgu gydol oes, i'w galluogi i ffynnu yn yr 21ain Ganrif ac ym myd gwaith.
- Mae ymchwil gan *Y Sefydliad Addysg* yn awgrymu bod mynychu cyn-ysgol dda ac ysgol gynradd dda yn gallu cael mwy o effaith ar gynnydd academaidd plant na'u rhywedd neu eu cefndir teuluol (Taggart, 2015)
- Mae ein gwasanaeth wedi ymroi o hyd i'r egwyddorion a'r blaenoriaethau a amlinellir yn nogfen strategol ddiweddaraf Llywodraeth Cymru Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl.

Mesurau Llwyddiant

367.2 yw'r sgôr gyfartalog (y 9 canlyniad arholiad gorau) ar gyfer disgyblion blwyddyn 11

6ed uchaf yng Nghymru

Ffynhonnell: StatsCymru

93.9% Presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd

93.5% Presenoldeb mewn Ysgolion Uwchradd

Mae presenoldeb mewn Ysgolion Cynradd wedi aros yr un fath â'r flwyddyn flaenorol tra bo presenoldeb Uwchradd wedi gostwng ymhellach

(Cynradd 93.9% ac Uwchradd 93.8%)

Ffynhonnell: StatsCymru

95% yn fodlon ar ysgol gynradd eu plentyn

(Gwelliant ar ganran y flwyddyn flaenorol sef 84%)

89% yng Nghymru

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Egluro'r Canlyniadau

- Y sgôr gyfartalog yn seiliedig ar y **9 canlyniad arholiad gorau** ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 yn ystod 2019/20 (Blwyddyn Academaidd 2018/19) yw 367.2 lle roedd gan y merched sgôr gyfartalog o 378.5 a'r bechgyn 356.4. Mae hwn yn welliant ar y flwyddyn flaenorol ac yn llawer uwch na chyfartaledd Cymru o 354.4.
- Mae **presenoldeb yn Ysgolion Uwchradd** Sir Gaerfyrddin wedi gostwng ymhellach yn ystod 2019/20 *(Blwyddyn Academaidd 2018/19)* i 93.5%, ac mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd wedi aros yr un peth â'r llynedd, ar 93.9%. Bydd ymgynghori cadarn gyda Llywodraethwyr, Penaethiaid, y Gwasanaeth Lles Addysg a phobl broffesiynol gysylltiedig er mwyn datblygu cynllun gweithredu i wella presenoldeb ysgol yn y dyfodol.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, roedd 95% o'r cyfranogwyr yn fodlon ag ysgol gynradd eu plentyn yn Sir Gaerfyrddin, mae hyn wedi cynyddu o'r flwyddyn flaenorol (84%) ac yn uwch na chyfartaledd Cymru. Gallai hyn fod yn anwadal yn dibynnu ar yr aelwydydd a holwyd yn ystod y flwyddyn.

Cynnydd a wnaed

- Eto eleni mae disgyblion ysgolion uwchradd yn Sir Gaerfyrddin yn dathlu cyfraddau llwyddo TGAU sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae bron i 71 y cant o ddisgyblion wedi ennill gradd C neu'n uwch, gyda 21.3 y cant yn ennill y graddau uchaf A*- A, y ddau yn uwch na'r cyfartaleddau ar gyfer Cymru. Mae safonau mewn Llenyddiaeth Saesneg a Saesneg Iaith yn parhau i wella ar draws y Sir, gyda 63.5 y cant a 80.5 y cant o'r ymgeiswyr yn ennill gradd C neu'n uwch. Mae disgyblion yn parhau i ddangos cynnydd cadarn yn eu sgiliau o ran y Gymraeg gyda 72 y cant o ymgeiswyr yn yr arholiad Cymraeg Iaith ac 88 y cant o'r ymgeiswyr yn yr arholiad Cymraeg Llenyddiaeth yn ennill gradd C neu'n uwch, sef tuedd ar i fyny sy'n mynd yn groes i'r duedd genedlaethol. Mae cyfraddau pasio mewn Bioleg, Cemeg, Ffiseg a Mathemateg hefyd wedi parhau i wella ac yn rhagori ar gyfartaleddau Cymru.
- Mae Categoreiddio Ysgolion yn Genedlaethol yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru yn gosod ysgolion mewn un o bedwar categori cymorth â chod lliw - gwyrdd, melyn, ambr a choch - i ddangos lefel y cymorth sydd ei angen arnynt.

Rhif o ysgolion Sir Gar sydd mewn pob Categori Cenedlaethol am ysgolion a'r newid o flwyddyn i flwyddyn.

	Gwyrdd	Melyn	Ambr	Coch
2019	40 ↑	49 ↓	19 ↓	4 ↑
2018	35	54	21	2

- Mae'r gwaith o gyflawni holl ymrwymiadau Band A a B a nodwyd yn y Rhaglen Moderneiddio Addysg wedi parhau, gyda'r rhan fwyaf o brosiectau yn Rhaglen Band A wedi'u cwblhau. Mae cynlluniau pellach yn cael eu llunio ar gyfer gweddill y prosiectau. Mae'r prosiect Band B ar gyfer Pump-hewl wedi dechrau ac mae'r cynllun ar gyfer Ysgol Pen-bre hefyd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru. Mae'r ymrwymiadau hyn yn golygu y bydd ein plant a'n pobl ifanc yn cael addysg o'r radd flaenaf mewn amgylcheddau diogel ac ysgogol.
- Mae tîm Gwella Ysgolion Sir Gaerfyrddin yn parhau i roi pwyslais clir ar arweinyddiaeth ysgolion, gan weithio mewn ysgolion a lleoliadau i'w helpu i gyflawni eu nodau, cynnig arweiniad a sicrhau y dilynir arferion gorau. Mae gwaith wedi mynd rhagddo'n effeithiol ar gefnogaeth a her blaenorol pob ysgol o ran darparu arweinyddiaeth mewn modd parhaus sy'n canolbwyntio ar ymweliadau cymorth; sicrhau prosesau hunanwerthuso cywir a thryloyw mewn ysgolion; darparu cyfleoedd arweinyddiaeth drwy gymryd rhan yn rhaglen datblygu arweinyddiaeth ERW; Seminarau Arweinyddiaeth gwybodus a datblygiadol i Benaethiaid enwebedig er mwyn rhannu rolau strategol yn ein pedwar Fforwm Strategol.
- Cefnogodd y Bwrdd Gweithredol gynlluniau i newid iaith addysg mewn pum ysgol gynradd leol. O dan y cynigion, bydd dosbarthiadau cyfnod sylfaen ym mis Medi 2020 yn Ysgol y Ddwylan (Castellnewydd Emlyn), Ysgol Griffith Jones (Sanclêr), Ysgol Llangynnwr (Caerfyrddin) ac Ysgol Llys Hywel (Hendy-gwyn ar Daf) yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg tan eu bod yn 7 oed, pan fydd y rhieni'n gallu penderfynu ym mha iaith y mae eu plentyn yn parhau i ddysgu. Bydd y plant sy'n dechrau yn Ysgol Rhys Prichard, Llanymddyfri, o fis Ionawr 2020 yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at ddiwedd blwyddyn 6, yn 11 oed. Ein bwriad yw symud yr ysgolion hyn ar hyd y continwwm iaith, yn unol â'n cynllun pum mlynedd a'n Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Ein nod fel sir yw gweld pob disgybl yn gwbl ddwyieithog ar ddiwedd cyfnod allweddol 2, ac yn hyderus wrth ddefnyddio'r iaith Gymraeg a Saesneg.
- Rydym wedi parhau i wella addasrwydd ac adnoddau TGCh mewn ysgolion i sicrhau bod gan yr holl ysgolion a adeiladir o'r newydd y seilwaith a'r technolegau digidol diweddaraf i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif.
- Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru fel Awdurdod arweiniol, wrth lywio, dylanwadu a chynllunio ar gyfer y grant Addysg Ddigidol o £5 miliwn y byddwn yn ei dderbyn i Ysgolion Sir Gaerfyrddin dros y 3-4 blynedd nesaf.
- Mae swyddogion wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Phenaethiaid a Chadeiryddion Llywodraethwyr mewn perthynas â'u diffygion cyllidebol. Cytunwyd ar gamau adfer a chaiff y rhain eu monitro gan swyddogion. Fodd bynnag, mae COVID-19 a chau ysgolion oherwydd y cyfyngiadau symud cenedlaethol wedi effeithio ar y cynnydd, ond mae ysgolion wedi sicrhau rhai arbedion effeithlonrwydd..

Ysgol yn Llanelli yn ennill gwobr bwysig am ei hansawdd

Bron i flwyddyn ar ôl ei hagor yn swyddogol, cafodd Ysgol Pen Rhos, sef ysgol gynradd a gostiodd £10.2 miliwn, ganmoliaeth fawr yng nghategori prosiect ysgol y flwyddyn yng ngwobrau mawreddog Adeiladau Addysg Cymru.

Agorodd yr ysgol yn swyddogol ym mis Mehefin 2018, ac mae'n cynnwys cyfleusterau megis meithrinfa dechrau'n deg, paneli haul ac ystafelloedd dosbarth â therasau ar gyfer gwersi awyr agored. Mae cae 3G hefyd ar gael ar gyfer defnydd yr ysgol a'r gymuned, yn ogystal â mannau tirlunio caled a meddal.

Mae nodweddion megis gwaith brics a thoeau ar oleddf wedi'u cynnwys i adlewyrchu treftadaeth ddiwydiannol teras o dai cyfagos, ynghyd â nodweddion mwy cyfoes megis cladin pren a metel. Mae'r prosiect hefyd wedi bod o fudd i'r gymuned gan gynnwys hyfforddiant a chyflogaeth leol.
Fe'i hariannwyd drwy gyfrwng Rhaglen Moderneiddio Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin a menter Ysgolion yr 21ain Ganrif gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd y prosiect ei ddatblygu, ei weithredu a'i reoli gan Dîm Dylunio Eiddo mewnol Cyngor Sir Caerfyrddin, ar y cyd â HLM Architects. Adeiladwyd Ysgol Pen Rhos gan T Richard Jones (Betws) Cyf, ac mae ennill y wobr am ansawdd dyluniad ac adeilad yr ysgol yn gydnabyddiaeth deilwng am ymdrech tîm eithriadol a oedd yn cynnwys y cyngor a'i bartneriaid, yn ogystal â staff a disgyblion.

Mae cynnwys nodweddion eco-gydnaws hefyd yn golygu y bydd yr ysgol yn gynaliadwy am flynyddoedd i ddod, ac mae'r ddarpariaeth dysgu yn yr awyr agored a mannau tirlunio yn sicr o ysbrydoli disgyblion nawr ac yn y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn wedi arwain at gyfleuster sy'n darparu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf, ac yn dathlu treftadaeth ddiwydiannol gyfoethog Llanelli. Mae Ysgol Pen Rhos ymysg llawer o brosiectau sydd wedi'u cwblhau neu eu cynllunio yn Sir Gaerfyrddin sy'n dangos pa mor ddifrifol yr ydym o ran ein hymrwymiad i ddarparu cyfleusterau o'r radd flaenaf i blant a chymunedau'r sir sy'n diwallu anghenion yr 21ain ganrif.

Y ffordd rydym yn gweithio

GOLWG SIR GÂR

Daeth pobl ifanc o Ysgolion Uwchradd Sir Gaerfyrddin ac Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a'r Tîm Rheoli Corfforaethol at ei gilydd i drafod 12 mater sy'n allweddol i'n sir. Trafododd pob grŵp 2 fater e.e. yr iaith Gymraeg, addysg, hinsawdd, hamdden a diwylliant. Buont yn trafod ac yn cytuno ar argymhellion ar gyfer creu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon. Cafodd y bobl ifanc eu herio gan yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a'u cymheiriaid, a chawsom drafodaethau aeddfed iawn a gonest. Gwnaethpwyd cyfraniadau adeiladol, proffesiynol a chynhwysfawr gan bawb - dyma arweinwyr y dyfodol!

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
Y Cynghorydd Glynog Davies

Amcan Llesiant 4

Dechrau'n Dda - Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol.

Gweithio tuag at sicrhau bod Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant yn parhau

Nid oes canlyniadau cyhoeddedig ar gael ar hyn o bryd ar gyfer disgyblion a adawodd ysgolion yng Nghymru yn ystod 2019. Ceir y canlyniadau o Arolwg Hynt Disgyblion Gyrfa Cymru, ond ni chafodd ei gynnal ym mis Mawrth 2020 o achos y pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae gwaith i sicrhau bod ein holl bobl ifanc yn aros mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant Seiliedig ar Waith wedi parhau a chafwyd cadarnhad y bydd prosiectau a Ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop yn parhau tan fis Awst 2021.

Pam mae'n bwysig

- Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn lleihau effaith tlodi a'r gost ehangach i gymdeithas o wasanaethau cymorth, dibyniaeth ar fudd-daliadau a throseddu.
- Mae mwyhau cyfleoedd bywyd plant yn hanfodol, a sicrhau bod cynifer o bobl ifanc â phosibl yn gallu camu ymlaen i'r chweched dosbarth mewn ysgolion, i Golegau Addysg Bellach, i gael prentisiaethau, neu i gael hyfforddiant neu waith.
- Mae'n galluogi pobl ifanc i gyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau lleol.

Mesurau Llwyddiant

1.8% o ddisgyblion Blwyddyn 11 a

4.9% o ddisgyblion Blwyddyn 13

nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth a Hyfforddiant (NEET)

(Y flwyddyn flaenorol - Bl. 11: **1.4%** a Bl. 13: **3.0%)**

Egluro'r Canlyniadau

Mae'r Swyddfa Rheoli Ystadegau wedi datgan na fydd canlyniadau'r mesur hwn yn cael eu cyhoeddi eleni gan ei bod wedi newid ei harferion casglu a rhyddhau data, gan ganolbwyntio ei hymdrechion ar ddadansoddi blaenoriaethau wrth i'r galw gynyddu am ystadegau a data i fesur effaith pandemig COVID19. **Mae'r data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2018/19 (Blwyddyn academaidd 2017-18) uchod ac isod:**



- 1.8%, neu 32 o ddisgyblion **Blwyddyn 11** yn NEET, sy'n cyfateb i 96.1% o ddisgyblion, neu 1,743 o ddisgyblion sy'n dal mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant. Roedd nifer fach o ddisgyblion (38), naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael Sir Gaerfyrddin. Y canlyniad oedd y 14eg gorau yng Nghymru ac roedd yn uwch na chyfartaledd Cymru o 1.6%.
- 4.9% neu 33 allan o 673, o ddisgyblion **Blwyddyn 13** yn NEET, a 41 o ddisgyblion oedd naill ai heb ymateb i gysylltiad neu yr oedd yn hysbys eu bod wedi gadael yr ardal. Mae'r ffactorau oedd yn effeithio ar y canlyniad o'r blaen yn cynnwys cost gynyddol addysg uwch, ymwybyddiaeth pobl ifanc o gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, a diffyg adnabod gan ysgolion o'r grŵp hwn o bobl ifanc yn dilyn canlyniadau Safon Uwch. Byddwn yn ceisio data ansoddol i wella'r sefyllfa hon.

"Roeddwn i'n hoffi cael cyfle i siarad am bethau sy'n fy mhoeni"

Cyfeiriwyd person ifanc at brosiect Cynnydd ar ôl symud i'r ardal flwyddyn ynghynt, ac er ei fod ar gofrestr ysgol uwchradd leol, nid oedd wedi ei mynychu o gwbl.

Trefnodd Gyrfa Cymru leoliad gwaith a helpu'r person ifanc i ddatblygu cynllun ar gyfer y dyfodol. Gwelodd y Tîm Ymgysylltu ag Ysgolion y person ifanc am 2 sesiwn yr wythnos. Rhoddwyd cymorth 1 i 1 i ennill cymhwyster a chymorth mewn perthynas â pherthnasoedd iach a rheoli dicter, yn ogystal â chanolbwyntio ar gynyddu hunan-barch, hyder a dyheadau. Roedd sesiynau grŵp yn cynnwys amrywiaeth o weithgareddau gan gynnwys siarad a gwrando, gweithgareddau STEM, herio rhagfarnau, a gwella sgiliau cymdeithasol. Hefyd cafodd y person ifanc ei gyfeirio at glybiau ieuenctid lleol a chlybiau paffio, a chynigiwyd cymorth iddo fynychu'r clybiau hyn os oedd yn dymuno gwneud hynny.

Ymgysylltodd y person ifanc yn dda iawn a chwblhau cymhwyster BSC ac OCN Prosesu Geiriau o Agored Cymru. Mae'r Person Ifanc wedi gwneud cynnydd mawr o ran datblygu sgiliau cymdeithasol a rheoli emosiynau/teimladau. Mae'r Person Ifanc yn fwy cadarnhaol ynghylch y dyfodol ac yn sylweddoli i raddau fwy fod gan weithredoedd ganlyniadau. Dechreuodd y person hwn hyfforddeiaeth ac nid oedd bellach yn NEET.

Cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i gyflawni elfennau lleol prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop Cynnydd a Cam Nesa. Mae llawer o bobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET wedi ennill cymwysterau, wedi symud ymlaen i gyflogaeth, addysg neu hyfforddiant ac wedi gwella eu presenoldeb, eu cyrhaeddiad a'u hymddygiad o ganlyniad i ymyriadau Cynnydd.

- Yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, mae pobl ag anableddau dysgu yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion wedi cydweithio i ddatblygu Siarter Anableddau Dysgu - rhestr syml yn nodi'r pethau maent yn eu disgwyl a'u hangen i fyw bywydau hapus. Mae'r Siarter wedi ei datblygu â chefnogaeth gan Gronfa Gofal Canolraddol Llywodraeth Cymru, Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru a Choleg Sir Benfro. Fe'i cefnogir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Ceredigion a Chyngor Sir Penfro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Gall trefnwyr, cwmnïau ac unigolion lofnodi'r siarter ac ymrwymo i drin pawb yn gyfartal. Bydd marc ansawdd yn cael ei ddatblygu a fydd yn cael ei roi i sefydliadau neu fusnesau sy'n dangos eu bod yn bodloni safonau a dyheadau'r siarter.

- Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid (YEPF) yn rhan annatod o'r Gwasanaeth Cymorth Ieuenctid. Mae Cyfarfodydd Proffil Asesu Bod yn Agored i Niwed wedi cael eu cynnal bob tymor yn narpariaeth ysgolion uwchradd y sir. Yn ogystal, cynhelir Cyfarfodydd Cymorth i Gyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant gyda rhanddeiliaid allweddol ar gyfer y rhai dros oedran ysgol statudol.

- Cafodd y cwricwlwm newydd ar ei ffurf derfynol ei ryddhau ar 28 Ionawr 2020. Felly, mae momentwm wedi bod yn adeiladu o ran cymorth ERW (Addysg drwy Ddysgu Rhanbarthol) i'w weithredu mewn ysgolion. Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wrthi'n cefnogi'r ymdrech hon ac mae ein dehongliad lleol o'r cwricwlwm newydd yn dal i gael ei lunio.

Y ffordd rydym yn gweithio

Polisi Ecwiti'r Adran Addysg a Gwasanaethau Plant

MAE POB DYSGWR YN BWYSIG: Cynigion i hyrwyddo Tegwch, Llesiant, Cynhwysiant a Rhagoriaeth yng nghymunedau dysgu Sir Gaerfyrddin



Gwella cyfleoedd i bawb:

- Mae cynnwys pob dysgwr a sicrhau bod pob unigolyn yn cael yr un cyfle i wneud cynnydd addysgol sylweddol yn hawl ddynol sylfaenol. Dylai hyn gael ei ategu gan system addysgol **deg** a **chynhwysol**
- Mae cymunedau dysgu teg a chynhwysol hefyd yn pwysleisio **llesiant disgyblion,** ynghyd â ffocws ategol ar **ragoriaeth** addysgol
- Gall grymoedd mawr megis globaleiddio, mudo, newid economaidd a chymdeithasol ledaenu anghydraddoldebau yn ein cymunedau, mewn teuluoedd ac yn y lleoliadau dysgu sy'n eu gwasanaethu. Ein dymuniad yn Sir Gaerfyrddin yw nad oes neb yn cael ei adael ar ôl **ac y gall pob plentyn fod cystal ag y gallai fod**, drwy gael pob **cyfle i wireddu ei botensial yn llawn**
- Yn ei hanfod, mae **'Pob dysgwr yn bwysig ac yn gydradd**' ac mae'r ddogfen hon yn paratoi'r ffordd tuag at wireddu'r ddelfryd honno yng nghymunedau dysgu Sir Gaerfyrddin
- Caiff yr awydd hwn i ddatblygu polisi ac arfer yn y maes hwn ei reoli gan ein **pwrpas moesol** cyfunol dros addysg, a dymunwn gynnig camau gweithredu ar sail ffrâm gyfeirio **foesegol** y cytunir arni'n gyffredinol
- Cyfeirir at y cefndir o bolisi rhyngwladol a chenedlaethol, sydd o blaid cynnig gweledigaeth a fydd yn creu unoliaeth yn y maes ymarfer datblygol hwn.
- Mae gennym eisoes lawer i'w ddathlu yn Sir Gaerfyrddin wrth hyrwyddo tegwch a chynwysoldeb.
- Gellir cyd-adeiladu'r dyfodol hwn ymhellach gyda swyddogion allweddol ac ymarferwyr ysgolion
- Byddai'n ymddangos bod sicrhau **safonau gofynnol** mewn addysg gynradd ac uwchradd yn hanfodol os ydym i **gael cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**
- Er mwyn cyflawni lefel mor uchel â phosibl o **gydraddoldeb** (y nod yn y pen draw), bydd angen cymhwyso'r modd i'r perwyl hwnnw **(tegwch, llesiant, cynhwysiant a rhagoriaeth)**

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant
Y Cynghorydd Glynog Davies

Byw'n Dda

Amcan Llesiant 5

Dechrau'n Dda/Byw'n Dda - **T**rechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

Mae dros draean o aelwydydd Sir Gaerfyrddin yn dal i fyw mewn tlodi



Yn ystod 2019, dosbarthwyd **27,576** o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin yn rhai oedd yn byw mewn tlodi, ac yn anffodus disgwylir i hyn gynyddu yn ystod 2020 oherwydd argyfwng COVID-19

Diffiniad tlodi yw pan fo "incwm aelwyd yn llai na 60% o incwm canolog Prydain" (yn 2019 llai na £19,285)

Pam mae'n bwysig

- Mae tlodi ac amddifadedd yn cael effeithiau niweidiol difrifol ar bob agwedd ar lesiant. Mae'n cyfyngu ar y cyfleoedd a'r gobeithion ar gyfer plant a phobl ifanc ac yn niweidio ansawdd bywyd teuluoedd a chymunedau
- Gall tlodi fod yn rhwystr o ran cyfrannu'n llawn at gymdeithas, ac yn rhy aml o lawer mae'n brofiad sy'n pontio'r cenedlaethau ac sy'n peri bygythiad sylweddol i lesiant cadarnhaol yn awr ac yn y dyfodol,
- Roedd dwy o wardiau Sir Gaerfyrddin (Tyisha a Glanymôr) yn yr 20 ward waethaf ar gyfer tlodi plant yng Nghymru (y ddau yn 41.3%) *Ffynhonnell: End Child Poverty, Loughborough University, 2019*

Mesurau Llwyddiant

Llwyddwyd i atal **46.4%** o aelwydydd yr oedd digartrefedd yn fygythiad iddynt rhag mynd yn ddigartref

wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol (59.5%)

Mae nifer yr aelwydydd mewn amddifadedd materol yn parhau i leihau

11.3%

wedi gostwng o'r flwyddyn flaenorol (13.5%)

11eg uchaf yng Nghymru

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Mae bwlch o **17.9%** rhwng canlyniadau disgyblion sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim a'r rheiny nad ydynt

(bwlch o 19.7% yn y flwyddyn flaenorol)

Ffynhonnell: StatsCymru

Egluro'r Canlyniadau

- O'r 416 o aelwydydd **a fygythir â digartrefedd** yn ystod 2019/20, **cafodd 193 eu hatal yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref - 46.4%**, gostyngiad o **13.1** pwynt canran ar 2018/19. Mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau bod pobl sy'n wynebu anawsterau o ran tai yn cysylltu â ni cyn gynted â phosibl, gan fod llawer mwy o bobl â phroblemau tai cymhleth erbyn hyn (h.y. cyffuriau, alcohol, camddefnyddio sylweddau), sy'n gwneud atal dipyn anoddach. Yn anffodus, daw achosion cymhleth atom yn hwyr iawn sy'n golygu mai prin yw'r amser sydd gennym i ddatrys eu problem, sy'n aml yn gysylltiedig â'u landlord neu eu teulu, ac felly maent yn mynd yn ddigartref. Drwy gyllid ychwanegol sydd bellach ar gael gan Lywodraeth Cymru rydym yn edrych ar atebion i helpu'r rhai ag achosion mwy cymhleth i ddod ymlaen yn gynt h.y. gweithio yn y cymunedau lle mae'r problemau mwyaf i nodi a darparu atebion yn gynt a rhoi mwy o gymorth, yn enwedig i unigolion cymhleth drwy'r gwaith o ran Tai yn Gyntaf.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, dosbarthwyd **11.3%** o'r aelwydydd a gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin yn rhai oedd yn **byw mewn amddifadedd materol,** ac mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru o 12.9% ac yn llai na'r llynedd sef 13.5%.
- Mae'r **bwlch** rhwng **canlyniadau arholiadau** disgyblion **sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim** a'r **rhai nad ydynt** wedi gostwng 1.8 pwynt canran ond hwn yw'r 7fed bwlch lleiaf yng Nghymru o hyd.

Cynnydd a wnaed

Atal Tlodi

- Er mwyn sicrhau bod trigolion agored i niwed yn cael cefnogaeth briodol, mae gwaith wedi parhau i gymryd camau allweddol o ran y *Strategaeth Ddigartrefedd.* Mae hyn yn cynnwys darparu gradd ehangach o opsiynau tai fforddiadwy, a chynllun comisiynu newydd ar gyfer *tai dros dro a thai â chymorth* a fydd yn gweld cynigion llai, mwy gwasgaredig o lety. Rydym yn parhau i weithio gydag asiantaethau partner i sicrhau bod pobl ag anawsterau tai yn cysylltu â ni'n gynharach i atal eu digartrefedd rhag digwydd yn y lle cyntaf.
- Lansiwyd cynllun *Prynu â Hyder Sir Gaerfyrddin* yn swyddogol mewn digwyddiad rhwydweithio ym mis Chwefror. Mae'n rhoi rhestr i ddefnyddwyr o fusnesau lleol sydd wedi ymrwymo i fasnachu'n gyfrifol ac yn deg. Mae'r cynllun hwn yn helpu i ddiogelu cwsmeriaid rhag masnachwyr twyllodrus a busnesau annilys.
- Rydym yn helpu tenantiaid tai cyngor i leihau eu biliau ynni drwy barhau i asesu opsiynau, ac i dreialu technoleg newydd er mwyn gwneud eu cartrefi'n fwy cysurus a lleihau allyriadau carbon i'r lefelau a bennir gan Lywodraeth Cymru.

Gwaith

- Trwy raglenni Cymunedau am Waith a Chymunedau am Waith a Mwy, cafodd
  - 385 o oedolion gymorth â chyflogadwyedd ac roedd 100% yn teimlo'n fwy hyderus am chwilio am waith.
  - Derbyniodd 218 gymorth â chynhwysiant digidol ac roedd 100% yn teimlo'n fwy hyderus wrth ddefnyddio'r cyfrifiadur.
  - Enillodd 258 o drigolion gymwysterau achrededig mewn cyrsiau cysylltiedig â chyflogaeth.
- Rydym wedi parhau i weithio tuag at fynd i'r afael â bylchau mewn gofal plant ac mae rhieni/gofalwyr lleol wedi cael cymorth i gael cydbwysedd rhwng eu cyfrifoldebau gweithio a gofalu. Mae ymgyrch fawr wedi bod yn y cyfryngau yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i hyrwyddo gofal plant fel dewis gyrfa er mwyn ceisio denu gwarchodwyr plant newydd. Cofrestrwyd 8 gwarchodwr plant newydd yn ystod y flwyddyn, 4 o ardaloedd wedi'u targedu. Mae gennym 110 o warchodwyr plant cofrestredig yn Sir Gaerfyrddin ar hyn o bryd, sy'n cynnig cyfanswm o 817 o leoedd gofal plant cofrestredig.
- Nid yw gwaith bellach yn gallu rhoi sicrwydd rhag tlodi. Mae'r gyfradd ddiweithdra yng Nghymru yn dal i fod cyn ised ag y bu erioed bron, ac eto, mae dros hanner y bobl sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru heddiw mewn gwaith.
- Mae angen i ni helpu pobl i ddatblygu sgiliau a chael gwaith digonol, caffael nwyddau a gwasanaethau'n deg ac yn lleol, lle mae'r economi seiliol yn creu cyfoeth a chyflogaeth leol, a lle'r ydym yn symud tuag at gymdeithas carbon isel. Yr economi seiliol yw'r nwyddau a'r gwasanaethau sylfaenol y mae pob dinesydd yn dibynnu arnynt ac sy'n ein cadw'n ddiogel. Er enghraifft, gwasanaethau iechyd a gofal, bwyd, tai, ynni, adeiladu, twristiaeth ac adwerthwyr ar y stryd fawr. Fel arfer mae busnesau seiliol, mawr a bach, yn rhan greiddiol o'r economi leol. Maent yn helpu i gadw ac ailgylchu cyfoeth mewn ardal, gan gadw gwargedion ac enillion yn yr ardal. Gan fod busnesau cymdeithasol yn rhan annatod o'u cymunedau, mae'r buddsoddiad a wneir ynddynt yn aros yn y gymuned ac yn cael ei ailgylchu at ddibenion economaidd a chymdeithasol ehangach.
- Buddsoddwyd £100k i gynyddu nifer y busnesau lleol a rhanbarthol sy'n cefnogi'r sector cyhoeddus yn yr ardal

Gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi

- Er mwyn gwneud gwasanaethau cymorth rheng flaen yn fwy hygyrch i bobl, rydym wedi ymestyn y model *Hwb* a ddatblygwyd yn Llanelli i **Rydaman** a **Chaerfyrddin**. Ar gyfartaledd mae Llanelli yn ymdrin â 2,900 o apwyntiadau y mis, Rhydaman yn ymdrin â 1,100 a Chaerfyrddin 2,000. Mae'r Hwb yn caniatáu i breswylwyr: ddefnyddio pwynt cyfrifiadur hunan-gymorth sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n gwefan, i'r porth tai; cael mynediad uniongyrchol dros y ffôn i'n Canolfan Gyswllt; cael opsiynau chwilio am swydd a chyflogadwyedd a chwilio am swydd gyda sefydliadau partner fel Gweithffyrdd+; talu biliau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor.
- Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddadansoddi gwahanol effeithiau tlodi mewn gwahanol ardaloedd daearyddol o'r sir a bydd cynllun i fynd i'r afael â'r materion hynny yn cael ei ddatblygu.
- Rydym yn cefnogi'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau sy'n deillio o wahaniaethau mewn galwedigaeth, addysg, preswylfa neu ddosbarth cymdeithasol, drwy ei hymgorffori yn yr Asesiad Effaith Integredig newydd a gaiff ei gyflwyno yn ystod 2020-21

Cawsom ein cydnabod yn Adroddiad Comisiynwyr Cenedlaethau's Dyfodol 2020 *(Pennod 3: Cymru sy'n Fwy Cyfartal, tud 17 a Phennod 3: Cymunedau Cydlynus, tud 7)* fel enghraifft dda o ystyried tlodi'n gyfannol, o dan yr amcan llesiant hwn "... gan gynnwys camau sy'n canolbwyntio ar raglenni ymyrraeth gynnar fel Dechrau'n Deg, helpu pobl i gael gwaith a llythrennedd ariannol."

Y ffordd rydym yn gweithio

Y Weledigaeth...

'Darparu tai, datblygiad defnydd cymysg o ran cyfleusterau cymunedol ac amodau amgylcheddol gwell. Bydd hyn yn ei dro o gymorth i wella proffil cymdeithasol ac economaidd yr ardal ac yn darparu cyfleoedd ar gyfer addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.'

Tyisha: Y Ffordd Ymlaen

Byddwn yn buddsoddi miliynau o bunnoedd i drawsnewid yr ardal er budd y gymuned

Ar ôl ymgysylltu ac ymgynghori'n helaeth â chymuned Tyisha, mae ein huwchgynllun adfywio uchelgeisiol yn cael ei roi ar waith. Rydym wedi bod yn gwneud llawer o waith 'tu ôl i'r llenni' ers cynnal ymarfer ymgynghori 'Planning for Real'. Rydym wedi gwrando ar farn y gymuned am yr ardal a'r hyn roedd y bobl yno am ei newid amdani, a nawr rydym am roi rhai o'r syniadau hynny ar waith. Gyda chymorth y gymuned, rydym wedi datblygu uwchgynllun ar gyfer Tyisha sy'n rhoi sylw i'r prif broblemau a sut gallwn eu gwella.

Beth rydym yn ei wneud a beth rydym yn bwriadu ei wneud:

- *Datblygu canolfan gymunedol i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau fel cymorth i deuluoedd blynyddoedd cynnar, cymorth ieuenctid ac addysg a hyfforddiant ynghylch cyflogadwyedd;*
  - Mae hwn yn brosiect allweddol yn yr ardal. Rydym yn gweithio'n agos gydag Ymddiriedolaeth Sied Nwyddau Rheilffordd Llanelli i adfer yr adeilad rhestredig Gradd II a'i ddefnyddio unwaith eto er budd y gymuned.
- *Adeiladu cartrefi fforddiadwy i'w prynu neu eu rhentu i deuluoedd a'r sawl sy'n prynu am y tro cyntaf;*
  - Rydym wedi bod yn gweithio gyda pherchnogion eiddo yn Heol yr Orsaf i helpu i ddefnyddio adeiladau sy'n adfail unwaith eto fel rhan o'r *Rhaglen Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio.* Y nod yw cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo adfywio economaidd gan ganolbwyntio ar unigolion ac ardaloedd sydd â'r angen mwyaf
- *Gweithio gyda landlordiaid i wella eiddo rhent preifat;*
  - Mae lefel uchel o eiddo cymdeithasol a rhent preifat yn Tyisha ac rydym yn ystyried gweithio gyda chwmni partner i ddarparu gwell cymysgedd o dai, a fydd yn cynnwys tai fforddiadwy ac opsiynau prynu, yn enwedig i rai sy'n prynu am y tro cyntaf
- *Lleihau troseddau, a phroblemau cyffuriau ac alcohol;*
  - Rydym yn gweithio'n agos gyda Heddlu Dyfed Powys i fynd i'r afael â phroblemau cyffuriau, alcohol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Tyisha. Rydym am wneud yr ardal yn lle mwy diogel i fyw ynddo.
- *Darparu parc i blant chwarae ynddo yn y ward;*
  - Mae adborth wedi dangos nad oes parciau i blant yn ward Tyisha. Drwy weithio'n agos gyda Chyngor Tref Llanelli, rydym wedi gallu ariannu llecyn chwarae yn Stryd Ann, ynghyd ag ardal benodol i gerdded cŵn. Bydd y gwaith yn dechrau cyn bo hir.
- *Adolygu casgliadau biniau a mynd i'r afael â phroblemau sbwriel*
- *Creu porth ger yr orsaf drenau a safle'r Pentref Llesiant;*

Gwneud yr ardal yn fwy deniadol, yn fwy gwyrdd a chreu 'boulevard' ar hyd Heol yr Orsaf

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Gymunedau a Materion Gwledig
Y Cyng. Cefin Campbell

Amcan Llesiant 6
Byw'n Dda - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir

Tâl Wythnosol Gros Cyfartalog wedi cynyddu 5% yn Sir Gaerfyrddin (o £511.4 i £536.5)
O ran cyflog uchaf, mae Sir Gaerfyrddin wedi codi o'r 11eg safle yng Nghymru yn 2018 i'r 9fed safle yn 2019.
Mae hyn yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o £540.7

Pam mae'n bwysig

- Mae cynyddu cyflogadwyedd yn cael effaith ddramatig ar ein hiechyd a'n gallu i weithredu mewn cymdeithas bob dydd.
- Mae angen i ni ganolbwyntio ar y sectorau meithrin y gellir eu hystyried yn sylfeini ein heconomi leol, er enghraifft gofal, bwyd, tai, ynni ac adeiladu.
- Mae angen i ni hefyd sicrhau ein bod yn cefnogi egwyddorion datblygu yn yr economi gylchol, gan anelu at ddefnyddio adnoddau cyhyd ag sy'n bosibl. Bydd economi fwy cylchol yn:
  - lleihau gwastraff;
  - ysgogi cynhyrchu rhagor o adnoddau;
  - darparu economi fwy cystadleuol yn Sir Gaerfyrddin a
  - ennyn y gwerth mwyaf tra bydd mewn defnydd ac adfer ac atgynhyrchu nwyddau a deunyddiau ar ddiwedd pob bywyd gwasanaeth.

Mesurau Llwyddiant

Ffigur cyflogaeth yw

71.5%
(Ebrill 19 – Mawrth 20)

(71.6% o'r blaen)
16eg uchaf yng Nghymru
Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol – Poblogaeth Arolwg Blynyddol

41.4%
Cymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch
@ Rhagfyr 2019
(38% ym mis Rhagfyr 2018)
Ffynhonnell: Stats Cymru

78.9% yn fodlon ar eu swyddi
yn ystod 2019/20
(82.5% o'r blaen)
17eg uchaf yng Nghymru (roedd yn 11eg)
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Egluro'r Canlyniadau

- **Ffigurau cyflogaeth** yn Sir Gaerfyrddin ar ddiwedd mis Mawrth 2020 yw **71.5%,** mae hyn ychydig yn is na 71.6% y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn is na chyfartaledd Cymru (73.7%) a chyfartaledd y DU (75.9%), y mae'r ddau ohonynt wedi cynyddu. Rydym hefyd wedi symud o'r 15fed i'r 16eg safle yng Nghymru. Er nad cyfrifoldeb y Cyngor yn unig yw cyflogaeth, mae'r ffigurau'n siomedig gan ein bod wedi parhau i roi nifer o fentrau ariannu ar waith eto yn ystod 2019/20 i ysgogi swyddi a thwf yn y sir ar ffurf y Gronfa Datblygu Eiddo, Cronfa Mentrau Gwledig Sir Gaerfyrddin a Grantiau Busnes ac wedi creu 393 o swyddi. Disgwylir i'r ffigurau cyflogaeth ar gyfer 2020/21 ostwng yn Sir Gaerfyrddin fel sawl rhan o'r DU oherwydd effaith COVID-19
- Mae gan **41.4%** o oedolion o oedran gweithio sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin **gymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu uwch** yn 2019, ac mae hyn yn welliant ar 38% y flwyddyn flaenorol ac yn uwch na chyfartaledd Cymru o 38.8%. Mae gennym y *ffigur 5ed uchaf* yng Nghymru, gan symud i fyny o'r 9fed safle'r flwyddyn flaenorol.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, roedd **78.9%** o'r rhai a gymerodd ran yn **weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar eu swyddi,** mae hyn yn is na'r canlyniad blaenorol o 82.5%. Rydym wedi symud o'r 11eg safle i'r 17eg safle yng Nghymru

Cynnydd a wnaed

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

- Mae'r dyluniad wedi'i gwblhau ar gyfer Cam/Parth cyntaf **Pentre Awel** – mae'r Parth cyntaf hwn yn cynnwys y Ganolfan Iechyd Cymunedol a'r Ganolfan Lesiant, sy'n cael eu dwyn ynghyd mewn cynllun 'Stryd' i integreiddio gwasanaethau (elfennau hamdden, iechyd, busnes ac addysg/hyfforddiant gydag awyrgylch cymunedol lle gall ymwelwyr dreulio amser mewn amgylchedd o safon). Bydd nifer o gyfleoedd a buddion, gan gynnwys creu 1,853 o swyddi ar draws amrywiaeth o sectorau, a gefnogir gan raglen addysg, sgiliau a hyfforddiant gynhwysfawr i sicrhau mai pobl leol sydd yn y sefyllfa orau i fanteisio ar ddatblygiad y pentref.
- Pentre Awel oedd un o'r *prosiectau cyntaf yn y DU i gael cyllid llawn* (£60,000) gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol er mwyn cynnal astudiaeth ddichonoldeb rhwydwaith gwres, gyda golwg ar ddefnyddio ac adfer ynni i'r eithaf.

Cyflawni Cynlluniau Ardal y Strategaeth Drawsnewidiol

- Dechreuodd prif waith contract Prosiect Denu Pentywyn ym mis Ionawr 2019 (i'w gwblhau ym Mai 2021) ac mae adeiladau'r hostel a'r amgueddfa wedi cael eu codi.
- Dechreuodd y gwaith yng *Ngwlyptiroedd Caerfyrddin / Y Morfa* ym mis Ionawr 2020 a bellach mae i'w gwblhau ar ôl i gyfyngiadau COVID-19 godi ym mis Hydref 2020.
- Mae contractwr prosiect *Jackson's Lane* wedi cael ei benodi ac mae gwaith wedi dechrau oddi ar y safle.
- Mae busnesau yng Nghaerfyrddin wedi cefnogi *Ardal Gwella Busnes* a fydd yn cynhyrchu mwy na £165,000 y flwyddyn i'w ddefnyddio i wella Caerfyrddin. Mae penderfyniad y busnesau yn sicrhau mai Caerfyrddin yw un o nifer fach o drefi yng Nghymru i gael y statws hwn, sy'n canolbwyntio ar welliannau i'r dref drwy ymdrech ar y cyd. Bob blwyddyn, bydd busnesau'n talu ardoll flynyddol o 1.5%, gan greu mwy na £165,000 y flwyddyn i'w ddefnyddio i wella'r dref.
- Mae prosiectau *Gweithffyrdd* + *a Buccaneer* yn mynd yn dda ac mae cymorth ar gyfer pobl ddiwaith yn y tymor hir a busnesau yn parhau dan amcanion y prosiectau dan sylw.

Materion Gwledig Sir Gaerfyrddin

- Ar ôl cymeradwyo a chyhoeddi ein Hadroddiad Symud Sir Gaerfyrddin Wledig Ymlaen, a oedd yn cynnwys 55 o argymhellion ym mis Medi 2019, cafodd *y rhaglen 10 tref wledig* ei lansio ym mis Hydref 2019.
  - Un o'r prif argymhellion yw '*ein bod yn gweithio gyda'r cymunedau a'r rhanddeiliaid lleol yn neg o'i drefi gwledig (a'u cymunedau cyfagos) i ddatblygu cynlluniau unigol a fydd â'r nod o ddarparu gweledigaeth strategol hirdymor i sicrhau cynaliadwyedd economaidd, diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol ar gyfer y trefi hynny'.* Bydd cydnerthu cymunedol a hunangymorth yn un o ystyriaethau allweddol y cynlluniau twf hyn.
  - Mae pwyslais hefyd ar *greu swyddi a chyfleoedd busnes* fel y gallwn gadw pobl ifanc a'r Gymraeg yn Sir Gaerfyrddin ac annog y rhai sydd wedi gadael y sir i ddychwelyd a'n helpu i dyfu'r economi.

Dysgu, Sgiliau a Chyflogadwyedd

- Mae'r *Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Ranbarthol* wedi gweithio gyda chyflogwyr, ysgolion a cholegau i nodi cyfleoedd a sgiliau newydd y bydd eu hangen er mwyn sicrhau bod Sir Gaerfyrddin yn elwa'n llawn ar Fenter Sgiliau a Thalentau y Fargen Ddinesig. Mae'r ysgolion y mae'r prosiect eisoes wedi gweithio gyda nhw wedi cyflwyno nifer o syniadau prosiect y maent yn awyddus i fwrw ymlaen â nhw er mwyn datblygu cyfleoedd a chodi dyheadau myfyrwyr ifanc ynghylch prosiectau'r Fargen Ddinesig. Mae Cynllun Busnes Sgiliau a Thalentau hefyd wedi'i ddatblygu a bydd adolygiad allanol o'r prosiect yn cael ei gynnal cyn i'r Cynllun gael ei gwblhau.

Drwy sicrhau cefnogaeth fusnes glir a chefnogi twf economaidd lleol

- Buom yn gweithio'n galed i glirio llanast a adawyd gan *Storm Dennis a* chafwyd contractwyr arbenigol i mewn i helpu mewn rhai ardaloedd. Cysylltodd swyddogion cymorth busnes â mwy na 100 o fusnesau, y mae llifogydd wedi effeithio arnynt o'r blaen, i gynnig cyngor a chymorth ariannol lle bo angen, ac roedd llawer yn gallu ailagor.
- Sicrhawyd cyllid gan Lywodraeth Cymru i drawsnewid *hen neuadd y farchnad Llandeilo* sy'n adfail, gan greu canolfan fusnes wledig arloesol ac iddi le cyflogaeth pwrpasol i fusnesau gwledig ac academi mentrau gwledig newydd.

Safle Cyflogaeth Strategol Dwyrain Cross Hands

Dechreuodd y gwaith ar y *prosiect seilwaith gwerth £5m* lle bydd, ar ôl ei gwblhau, 7 llain ddatblygu yn cael eu creu a allai ddarparu ar gyfer hyd at 500 o swyddi. Mae'r gwaith yn cynnwys: cwblhau'r rhwydwaith ffyrdd mewnol a'r gwrthgloddiau i greu'r platiau datblygu ynghyd â draeniad, darparu cyfleustodau, a chadw cynefinoedd. Bydd y gwaith yn cael ei gwblhau yn hydref 2020 ac yn darparu lle y mae mawr ei angen ar gyfer buddsoddiad lleol a buddsoddiad newydd. Ariennir y gwaith drwy'r Cyngor Sir a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop ac mae'r cynllun yn rhan o *Gyd-fenter Cross Hands* sy'n fenter gydweithredol gyda Llywodraeth Cymru.

Ysgol Teilo Sant yw'r pencampwyr masnachwyr ifanc ar ôl gwerthu eu holl stoc ym Marchnad Awyr Agored Caerfyrddin. Mae'r gystadleuaeth flynyddol yn golygu bod disgyblion yn sefydlu busnes a'i droi'n fenter broffidiol. Coronwyd y disgyblion o Flwyddyn 6 yn enillwyr ar ôl brwydr â dwy ysgol arall, sef Saron a Meidrim, yng Nghystadleuaeth Masnachwyr Ifanc Sir Gaerfyrddin.

Gwerthodd yr ysgol dros 500 o bice ar y maen â blas mewn pedair awr a chodi bron i £300 ar gyfer eu hysgol.

Y ffordd rydym yn gweithio

Archfarchnad fegan gyntaf Llanelli

Mae'r archfarchnad fegan gyntaf **– *Kind Earth* –** wedi agor ei drysau yng Nghanolfan y Strade ym Maes y Coed, diolch i gefnogaeth grant gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Cefnogwyd y busnes, sy'n eiddo i *Matt Rogerson,* sy'n byw'n lleol, gan grant drwy gronfa cychwyn busnes y Cyngor, sy'n gysylltiedig â chreu swyddi. Defnyddiwyd yr arian i brynu offer gan gynnwys system EPOS, oergelloedd a rhewgelloedd, silffoedd, trollïau, basgedi a ffitiadau golau. Mae'r busnes yn barth di-blastig sy'n cynnig bagiau papur a chludwyr papur i gwsmeriaid fel deunydd pecynnu.

Yn ogystal â gwerthu bwydydd bydd y siop yn rhedeg cynllun terracycle ac yn cynnal nifer o ddigwyddiadau gan gynnwys diwrnodau casglu sbwriel a gweithdai ar ystod eang o bynciau i wella ffyrdd o fyw yn y tymor hir. Yn ogystal â bod yn archfarchnad fegan lle gall pobl brynu eitemau lleol ffres o ansawdd da, mae'r siop yn cynnig cyfle i gwsmeriaid fod yn rhan o fentrau a gweithdai i'n gwneud yn gymuned iachach a mwy cynaliadwy.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddatblygu Economaidd
Y Cynghorydd Emlyn Dole (Arweinydd)

Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Ar y trywydd iawn i ddarparu dros 1,000 o dai fforddiadwy ychwanegol erbyn 2021

Tai fforddiadwy o ansawdd da yw sylfaen cymunedau iach a chynaliadwy.
Rydym wedi darparu **dros *970*** o dai fforddiadwy ychwanegol ers 2016 fel rhan o'r cynllun tai fforddiadwy

Pam mae'n bwysig

- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da yn hybu *iechyd a llesiant,* gan ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr a chreu cymunedau cynaliadwy cryf a lleoedd y mae pobl am fyw ynddynt.
- Mae tai fforddiadwy o ansawdd da sy'n effeithlon o ran ynni yn dda i *Bobl a'r Amgylchedd* - bydd yr ynni a ddefnyddir yn y cartref yn llai, gan gael effaith sylweddol ar leihau costau tanwydd i'r preswylwyr. Bydd hefyd yn cael effaith sylweddol ar leihau llygryddion yn yr atmosffer a lliniaru tlodi tanwydd yn ein cymunedau.
- Mae'n dda i'r *Strwythur Cymdeithasol* - mae codi tai fforddiadwy yn y mannau cywir yn caniatáu i gymunedau groesawu ystod eang o deuluoedd a chreu grŵp o breswylwyr bywiog, amrywiol.
- Mae'n dda i'r *Economi* - er mwyn ffynnu, mae angen i fusnesau newydd gael mynediad hwylus i'w gweithlu. Mae datblygiadau tai fforddiadwy yn sicrhau bod teuluoedd sy'n gweithio yn aros yn eu cymuned.

Mesur Llwyddiant

315

Tai Fforddiadwy Ychwanegol yn ystod 2019/20

Egluro'r Canlyniadau



Cynnydd a wnaed

- Fel rhan o *Gynllun Tai Fforddiadwy 2016-2021* hyd yn hyn rydym wedi darparu **971** o dai fforddiadwy ychwanegol yn cynnwys y canlynol:-

  217: *Asiantaeth Gosod Syml*
  *(**32**: 16/17; **63**: 17/18; **61**: 18/19: **61**:19/20)*

  222: *Tai gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto*
  *(**28**: 16/17; **63**: 17/18; **67**: 18/19; **64:**19/20)*

  238: *Prynu tai'r sector preifat*
  *(**45**: 16/17; **69**: 17/18; **81**: 18/19; **43**:19/20)*

  189: *Datblygiadau tai newydd Cymdeithasau Tai*
  *(**45**: 16/17; **20**: 17/18; **17**: 18/19; **107**:19/20)*

  105: *Cyfraniad Adran 106 gan Ddatblygwyr*
  *(**23**: 16/17: **20**: 17/18; **21**: 18/19; **41:**19/20)*



- Rydym wedi prynu **208** o dai sector preifat i gynyddu *stoc dai y Cyngor ei hun.* Prynwyd **30** o dai yn uniongyrchol hefyd gan Gymdeithasau Tai Bro Myrddin a Coastal.
- Mae gennym fel Cyngor bump o ddatblygiadau tai newydd ar safleoedd Dylan, Garreglwyd, Teras Glanmor, Gwynfryn a Maespiode. Bydd y datblygiadau hyn yn creu 114 o dai fforddiadwy newydd.
- Drwy'r system gynllunio (Adran 106) mae **208** o dai wedi'u darparu ar gyfer Perchentyaeth Cost Isel ac wedi'u henwebu i bobl leol yr oedd angen help arnynt i brynu eu tai eu hunain.
- Rydym yn bwriadu adeiladu bron i 1,000 o dai cyngor ychwanegol.
- Ym mis Mai 2020 cyhoeddodd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol adroddiad ar gynnydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ac mae'r adroddiad yn nodi: *"Mae rhaglen adeiladu tai newydd Sir Gaerfyrddin yn enghraifft wych o'r hyn y gellir ei gyflawni yn y sector tai cymdeithasol"*
- Ym mis Hydref 2019, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad ar yr amcan llesiant hwn a chanfod bod *'y Cyngor yn defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth ddarparu tai fforddiadwy ychwanegol'*

Adeiladu dros 30 o dai cyngor newydd ar un o'n safleoedd cyntaf sef Dylan yn Llanelli

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai
Y Cynghorydd Linda Evans

Amcan Llesiant 8

Byw'n Dda - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)

Bron i 1.5 miliwn o ymweliadau â'n Cyfleusterau Chwaraeon a Hamdden, gan greu Enillion Gwerth Cymdeithasol o £4.97 miliwn yn ystod 2019/20

Rydym am sicrhau:

- Taw Sir Gaerfyrddin yw'r sir fwyaf heini ac iach yn y Deyrnas Unedig
- Bod pob unigolyn yn Sir Gaerfyrddin yn cymryd rhan weithgar mewn *Clwb Cymunedol* neu *Gyfleuster Hamdden/Diwylliannol.*
- Bod pob plentyn yn Sir Gaerfyrddin yn dwlu ar weithgareddau Hamdden/Diwylliannol am oes.

Pam mae'n bwysig

- Gan fod ein ffordd o fyw yn newid, mae pobl yn byw'n hwy ac mae eu hansawdd bywyd yn well.
- Gan mai'r her yw atal salwch.
- Gan fod byw bywydau iach yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial, gwireddu eu dyheadau addysgol, a chwarae rhan lawn yn economi a chymdeithas Sir Gaerfyrddin.
- Gan fod llawer o'r gwasanaethau ataliol a'r ymyriadau sy'n ofynnol i gynnal iechyd, annibyniaeth a llesiant y tu allan i feysydd iechyd a gofal cymdeithasol.

Mesurau Llwyddiant

70% o oedolion yn dweud bod eu hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn
66% o'r blaen
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

51% o oedolion yn dweud bod ganddynt salwch hirdymor
53% o'r blaen
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Sgôr llesiant meddwl oedolion o **51**
(Allan o uchafswm o 70)
50% o'r blaen
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

12.4%
o oedolion â **<2** o ymddygiadau ffordd o fyw iach
(waeth na'r canlyniad blaenorol o 8.8%)
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Egluro'r Canlyniadau

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn dangos:-

- Dywedodd **70%** o'r bobl gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin fod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn,** ac mae hyn yn welliant ar y canlyniad blaenorol o 66%, ac rydym wedi symud i fyny o'r 21ain i'r 15fed safle yng Nghymru. Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid fel Iechyd Cyhoeddus drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo amgylchedd iach i drigolion Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys ymarfer corff, maeth ac aer glanach.
- Dywedodd **51%** o'r bobl gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin **fod ganddynt salwch, anabledd neu lesgedd tymor hir,** ac mae hyn yn ostyngiad ar ganlyniad yr arolwg blaenorol sef 53% ac rydym wedi symud o'r ail safle yng Nghymru i'r 15^{fed} safle**.** Er bod gan y mesur hwn nifer o ddylanwadau, rydym yn parhau i weld cynnydd yn nifer ac effaith cynlluniau fel y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i wneud Ymarfer Corff gyda bron i 1,400 o atgyfeiriadau yn ystod y 12 mis diwethaf.
- Mae'r **sgôr llesiant meddwl** wedi'i seilio ar 14 o ddatganiadau wedi'u geirio mewn ffordd bositif a ofynnwyd fel rhan o arolwg sy'n cynrychioli rhinweddau cadarnhaol llesiant ac sy'n cwmpasu sut mae rhywun yn teimlo ac yn gweithredu, yn wahanol i salwch ac anhwylder meddwl ac mae'n addas i'w defnyddio yn y boblogaeth gyffredinol. Er bod gwelliant, mae'n fach iawn, o sgôr o 50 i 51.
- Mae gan **12.4%** o'r cyfranogwyr **lai na dwy ffordd iach o fyw,** ac mae hyn wedi cynyddu ers y llynedd (8.8%) ac mae'n uwch nawr na chyfartaledd Cymru, sef 10%, ac rydym wedi disgyn o'r 5ed safle gorau i'r 18fed gorau yng Nghymru.

Cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i fonitro *ansawdd aer* (nitrogen deuocsid) ar gyfer trigolion ac ymwelwyr â'r Sir gan weithredu rhaglen samplu.
- Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd Actif 1384 o atgyfeiriadau i'r *Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff*, y mae 58.5% ohonynt yn ymwneud â'r cynllun, ac wedi hynny, cwblhaodd 57.3% o'r rhain y rhaglen 16 wythnos (cynnydd o 2.2% ers 2018/19).
- Bydd dros *£1 filiwn* hefyd yn cael ei fuddsoddi yng Nghanolfan Hamdden Rhydaman er mwyn ailwampio ystafelloedd newid ochr y pwll, uwchraddio'r cae pob tywydd a gwella'r cyfleusterau parcio ceir ar y safle.
- Mae'r cynlluniau ar gyfer y cyfleuster hamdden newydd yn Llanelli yn datblygu'n dda. Rydym yn bwriadu buddsoddi ymhell dros £25 miliwn mewn canolfan hamdden newydd ar safle Llynnoedd Delta - Pentre Awel.
- Mae ein huchelgais o fod yn *Ganolbwynt Beicio Cymru* bellach wedi'i hen sefydlu, ac rydym yn parhau i fuddsoddi mewn seilwaith lleol a threfol ac sydd o safon cystadlu; gyda digwyddiadau a gwaith datblygu yn tanategu'r cyfan.
- Mae'r prosiect *Mental Health Running* a lansiwyd gan yr adran yn 2018 yn Llanelli wedi mynd o nerth i nerth gyda grwpiau bellach yn cael eu sefydlu ar draws y sir. At hynny, mae'r prosiect wedi'i roi ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Gofal Cymdeithasol eleni.
- Ym mis Hydref 2019, lansiwyd (mewn cydweithrediad â'r trydydd sector a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda) gwasanaeth argyfwng *'The twilight Sanctuary',* sydd ar agor o ddydd Iau i ddydd Sul o 6pm i 2am. Gall unigolion sydd mewn argyfwng siarad â staff dros y ffôn neu fynychu'r ganolfan i gael cymorth. Mae hwn yn wasanaeth gwerthfawr i'r rhai y mae angen cymorth iechyd meddwl brys arnynt, a chaiff ei ehangu i gynnwys cyfleuster dros nos fel dewis arall i'r ysbyty.
- Mae staff enwebedig yn nghyfleusterau Gofal Ychwanegol Tŷ Dyffryn a Chartref wedi llwyddo i gwblhau Rhaglen ymarfer corff OTAGO, lle maent yn arwain dosbarth o ddefnyddwyr gwasanaeth yn wythnosol i gynnal *ymarferion cadair.* Mae'r dosbarthiadau hyn yn cynnal iechyd corfforol a llesiant meddyliol y defnyddwyr gwasanaeth.
- O fewn ein Gwasanaeth Anabledd Dysgu, mae *Iechyd a Llesiant* wedi bod yn ffocws ar draws yr holl wasanaethau, gan weld datblygiad ac ehangiad llawer o grwpiau cymunedol. Mae'r gweithgareddau wedi cynnwys grwpiau rhedeg a cherdded, tîm pêl-droed newydd, ehangu'r tîm pêl-rwyd a datblygiad cycle4all ym Mhen-bre. Cymerodd dau ddefnyddiwr gwasanaeth ran yn Hanner Marathon Llanelli ac mae 1 wedi sicrhau lle ym Marathon Llundain.
- Rhwng mis Ebrill 2019 a chanol mis Mawrth 2020 *gwnaed dros 1 filiwn o ymweliadau corfforol â llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin* a thros chwarter miliwn o ymweliadau rhithwir. Mae hyn yn golygu bod ein llyfrgelloedd ymhlith y gwasanaethau sy'n cael eu defnyddio fwyaf o holl wasanaethau'r Cyngor.

Cysylltiadau Llyfrgell Rhydaman â'r Ganolfan Ddydd

Mae llyfrgell Rhydaman wedi datblygu cysylltiadau cryf â Chanolfan Ddydd Ffordd y Faenor. Mae'r ganolfan yn helpu oedolion 18 oed a hŷn sydd ag anabledd dysgu difrifol i dyfu, datblygu a theimlo'n ddiogel a perthyn i'w cymuned.

Taith y Menywod yn llwyddiant ysgubol i Sir Gâr

Cynhaliwyd *grand finale* Taith Menywod OVO yn y sir ar 15 Mehefin 2019 a bu'n llwyddiant ysgubol, wrth i filoedd floeddio eu cefnogaeth i'r beicwyr ar eu ras 79 milltir drwy Sir Gaerfyrddin.

Bu i'r daith ddangos beth gellir ei gyflawni pan fydd cymunedau, busnesau, gwirfoddolwyr a gwylwyr, yn ogystal â staff digwyddiadau, staff diogelwch, marsialiaid a'r gwasanaethau brys i gyd yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu diwrnod arbennig i'r sir.

Yng Ngham Chwech y ras, gwelwyd beicwyr benywaidd gorau'r byd yn cystadlu mewn cyfres o sbrintiau, dringfeydd mynydd a disgynfeydd drwy rai o dirweddau mwyaf trawiadol Sir Gaerfyrddin, gan ddechrau yn *Felodrom hanesyddol Caerfyrddin, croesi'r Mynydd Du, a dod i ben yn y Gylchffordd Gaeedig ym Mharc Gwledig Pen-bre*.

Helpodd cymunedau i greu awyrgylch carnifal, gyda llawer yn cynnal eu digwyddiadau a'u gweithgareddau i deuluoedd eu hunain.

Rhoddodd cynnal y ras gyfle inni arddangos ein *tirwedd a'n golygfeydd syfrdanol*, gan ddarparu un o gamau mwyaf heriol y Daith i'r beicwyr eleni ar ein mynyddoedd ac yn ein dyffrynnoedd mwyaf trawiadol.

Rydym yn arbennig o falch o *Manon Lloyd (Drops)*, sy'n dod o Sir Gaerfyrddin ac a gychwynnodd ei gyrfa feicio gyda Towy Riders yng Nghaerfyrddin. Mae'n rhaid bod cystadlu â'r goreuon yn y byd yn ei chynefin yn deimlad gwych iddi.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths

Heneiddio'n Dda

Amcan Llesiant 9

Byw'n Dda/Heneiddio'n Dda - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel

Arolwg Ymdeimlad o Gymuned wedi cynyddu yn Sir Gaerfyrddin *o 47.7% i 51.6%*

Mae'r **'Ymdeimlad o Gymuned'** yn deillio o dri chwestiwn; *Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'.*



Er gwaethaf canlyniad gwell, rydym yn symud o'r 13eg safle i'r 14eg safle yng Nghymru.

Pam mae'n bwysig

- Mae arwahanrwydd cymdeithasol yn cynyddu'r risg o ddirywio'n wybyddol, gydag un astudiaeth yn dod i'r casgliad bod pobl unig 64% yn fwy tebygol o ddatblygu dementia clinigol.
- Mae unigrwydd ymhlith pobl ifanc yn cynyddu'r tebygolrwydd o iechyd corfforol a meddyliol gwael, o droseddu, ac o gael llai o gyfleoedd cyflogaeth yn y dyfodol
- Yn ogystal â chael effaith ar leihau'r risg o farwolaeth gynnar a salwch, mae cyfeillgarwch a rhwydweithiau cymdeithasol hefyd yn helpu unigolion i wella pan fyddant yn sâl.

Mesur Llwyddiant

76.1% o bobl yn teimlo'n ddiogel

78.7% o'r blaen

7fed uchaf yng Nghymru

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Egluro'r Canlyniadau

- Mae'r nifer gyfrannodd i Arolwg Cenedlaethol Cymru sy'n **teimlo'n ddiogel** wedi gostwng o **78.7%** i **76.1%** ond rydym dal yn y 7fed safle. Deilliodd y canlyniad hwn o bedwar cwestiwn; pobl yn teimlo'n ddiogel gartref, cerdded yn yr ardal leol, ac wrth deithio yn y tywyllwch, a fydd ar gael maes o law.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, teimlai **51.6%** o'r cyfranogwyr **'Ymdeimlad o Gymuned'**, ac mae hyn yn welliant o 47.7% ar y flwyddyn flaenorol. Deilliodd y canlyniad hwn o dri chwestiwn; Mae pobl yn teimlo eu bod yn perthyn i'w hardal leol; Mae pobl yn yr ardal sy'n dod o wahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu ac mae pobl yn yr ardal yn trin ei gilydd â pharch'. *Mae'r manylion ar gyfer pob un o'r cwestiynau hyn ar lefel Awdurdod Lleol heb gael eu cyhoeddi eto.* Er gwaethaf canlyniad gwell, rydym wedi symud o'r 13eg i'r 14eg safle yng Nghymru.

Cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i weithio'n agos gyda *Grŵp Llywio Lluoedd Arfog Sir Gaerfyrddin* a *Hyrwyddwr y Lluoedd Arfog* ar feysydd allweddol fel Tai, Plant aelodau o'r Lluoedd Arfog, a Grantiau i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog.

- **Cysylltu â Charedigrwydd**
  Rhaglen waith yw hon sy'n seiliedig ar sesiwn wybodaeth sy'n cynyddu ymwybyddiaeth o *bwysigrwydd* a *buddion caredigrwydd*. Mae'n rhannu 5 neges allweddol ac yn rhoi tystiolaeth o effeithiau cadarnhaol caredigrwydd ar iechyd a llesiant. Rydym wedi recriwtio 287 *o Gysylltwyr Caredigrwydd Sir Gaerfyrddin* eleni - sy'n hyrwyddo caredigrwydd a chysylltedd yn eu cymunedau.

  Ar ddiwrnod Rhyngwladol Caredigrwydd (17eg Chwefror) aethpwyd â sioe deithiol o amgylch y sir lle'r oedd caffis yn rhoi te a choffi am ddim i bobl oedd yn addo gwneud tro caredig ag eraill. Rhoddwyd addewidion caredigrwydd ar goed ledled y sir ac ar un diwrnod gwnaed 2,003 o addewidion o garedigrwydd ar draws y sir.

- Rydym yn gweithio gyda'r trydydd sector a'r Cyngor Gwirfoddol Cymunedol i annog pobl i wirfoddoli. Mae *swyddog datblygu gwirfoddoli* wedi'i ariannu i weithio gyda chymunedau ar lefel tref a phentref a bydd hyn yn galluogi Canolfannau Gweithredu Lleol i gael eu datblygu sy'n creu ac yn hyrwyddo cyfleoedd gwirfoddoli anffurfiol a charedigrwydd.

- Rydym wedi parhau i helpu grwpiau a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i'r amrywiaeth enfawr o *ddigwyddiadau cymunedol* sy'n cael eu cynnal yn Sir Gaerfyrddin.

Cymunedau Mwy Diogel

- Cynhaliodd Pwyllgor Craffu'r Amgylchedd a Diogelu'r Cyhoedd *Adolygiad Gorchwyl a Gorffen o Gynllun Diogelu rhag Camfanteisio Ariannol (FESS) y Safonau Masnach* – ac fe'i cwblhawyd. Mae'r adroddiad yn cael ei lunio ond mae oedi wedi bod oherwydd COVID-19.

- Daliwyd ati i gynyddu ymwybyddiaeth o *Llinellau Cyffuriau* ymhlith sefydliadau partner ac mae sesiynau wedi'u cyflwyno i tua 800 o staff ac roeddent yn cynnwys cyflwyniadau i dros 300 o landlordiaid preifat am denantiaid sy'n agored i niwed.

- Cafodd ymgyrch gydgysylltiedig ei chynnal ar gyfer *'Diwrnod Rhuban Gwyn'* ar 25 Tachwedd, ac yn dilyn hynny cafwyd *16 Diwrnod o Weithredu* lle roedd thema'n cael ei nodi bob dydd, i weithio tuag at roi terfyn ar drais gwrywaidd yn erbyn menywod.

- Cynhaliwyd sesiwn beilot *'Ymwybyddiaeth o Ddiogelu'* ym mis Chwefror ar gyfer staff safleoedd trwyddedig a staff y drysau.

- Rydym wedi ymestyn ein *rhaglen rhagnodi cymdeithasol arloesol* mewn practisau meddygon teulu ar draws y sir gyfan, gan weithio gyda chleifion i wella iechyd a llesiant cleifion drwy atebion yn y gymuned.

- Daeth y *Bws Seiber* i ganol tref Caerfyrddin am y dydd ar 19 Mawrth 2019, fel rhan o'r daith gwytnwch seiber ledled Cymru. Helpodd y Bws i godi ymwybyddiaeth o ba mor agored yw'r cyhoedd i seiberdroseddu a hyrwyddo sut i osgoi bod yn ddioddefwr. Ymwelodd 91 aelod o'r cyhoedd â'r bws i gael gwybodaeth ar y dydd a siaradwyd ag 17 o fusnesau am gyngor seiberddiogelwch/diogelwch.

Cysylltu â Charedigrwydd

Gall gweithredoedd syml o garedigrwydd wneud gwahaniaeth mawr – dyna neges yr ymgyrch newydd sy'n cael ei lansio yn Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion.

Nod *Cysylltu â Charedigrwydd* yw gwella dealltwriaeth o fanteision ac effaith caredigrwydd i ni ein hunain ac i eraill yn ein cymuned.

Dywedodd Rebecca Evans, Uwch-swyddog Iechyd Cyhoeddus o Iechyd Cyhoeddus Cymru: "*Mae astudiaethau gwyddonol wedi dangos bod gweithredodd syml o garedigrwydd yn gwneud gwahaniaeth mawr i lesiant a bod caredigrwydd yn dda i chi*."

Fel rhan o'r ymgyrch, bydd y partneriaid rhanbarthol yn datblygu rhwydweithiau cymunedol cryfach er mwyn creu amgylchedd lle gall gweithredoedd caredig ffynnu a digwydd yn haws.

Mae Cysylltu â Charedigrwydd wedi datblygu o raglen a luniwyd yng Nghronfa Trawsnewid Gorllewin Cymru Iachach. Y partneriaid yw Cyngor Sir Penfro, Cyngor Sir Ceredigion, a Chyngor Sir Caerfyrddin, Cymdeithasau Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro, Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phartneriaeth Gofal Gorllewin Cymru.

Mae gan Cysylltu â Charedigrwydd bum neges allweddol:

1. **Mae caredigrwydd i bawb -** Mae caredigrwydd yn gynhwysol, nid yw'n gadael i unrhyw beth ei rwystro ac nid yw'n gwahaniaethu, ac mae ar gyfer pawb!
2. **Mae caredigrwydd yn dda i chi -** Profa ymchwil feddygol fod bod yn garedig a derbyn caredigrwydd yn cael effaith gorfforol gadarnhaol arnom
3. **Mae caredigrwydd yn ein cysylltu ni** - Mae'n dod â ni at ein gilydd ac yn ein helpu i rannu
4. **Mae caredigrwydd yn ein diogelu** - Mae wedi cael ei brofi fod bod yn garedig a derbyn caredigrwydd yn ein helpu i fyw bywydau hirach a hapusach
5. **Mae caredigrwydd yn ysbrydoli** - Pan fo eraill yn garedig rydym yn fwy tebygol o fod yn garedig ein hunain

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelwch Cymunedol:
Y Cyng. Cefin Campbell
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd:
Y Cynghorydd Jane Tremlett

Amcan Llesiant 10

:neiddio'n Dda - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio

***Ein Cynnig i'r Boblogaeth - 'Cymorth i Helpu eich Hun'* (Atal salwch neu anaf)**
Hyrwyddo annibyniaeth, llesiant, ymgysylltu cymunedol a chynhwysiant cymdeithasol.

Pam mae'n bwysig

- Gan fod ymgyngoriadau wedi dangos mai'r hyn sy'n bwysig i unigolion yw gallu bod mor annibynnol ac iach â phosibl am gyn hired â phosibl.
- Gan fod y boblogaeth sy'n fregus yn cynyddu a bydd angen cymorth arnynt i fod mor annibynnol â phosibl.
- Gan ei bod yn hanfodol inni osod seiliau cadarn i ddiogelu at y dyfodol argaeledd gwasanaethau sy'n hybu ac yn cefnogi llesiant parhaus ac annibyniaeth ein poblogaeth hŷn sy'n fregus.

Mesurau Llwyddiant

119 o bobl wedi'u cadw yn yr ysbyty tra'n aros i gael gofal cymdeithasol
(6.03 fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed)

(81 o bobl o'r blaen - 4.21 fesul 1,000 o'r boblogaeth)

47.5%
Cytuno bod gwasanaeth gofal cymdeithasol da ar gael yn yr ardal
(56.2% o'r blaen)
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Ar gyfartaledd mae'n cymryd **176** o ddiwrnodau calendr i gyflawni *Grant Cyfleusterau i'r Anabl*
(157 o ddiwrnodau o'r blaen)

Egluro'r Canlyniadau

- Cadwyd 119 o gleientiaid (75+) **yn yr ysbyty** yn ystod 2019/20 tra'n aros am ofal cymdeithasol, ac nid yw hyn yn cynnwys ffigurau ar gyfer mis Chwefror a mis Mawrth 2020, nad ydynt wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru oherwydd y pandemig Coronafeirws. Mae hyn yn dipyn o gynnydd ar ffigwr y flwyddyn flaenorol o 81. Mae llif parhaus drwy'r ysbytai acíwt gyda rhai achosion cymhleth yn achosi oedi yn yr ardaloedd mwy gwledig lle mae'r capasiti ar gyfer Gofal Cartref yn gallu bod yn anodd neu'r achosion hynny lle nad yw eu cartrefi'n addas mwyach.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19 roedd **47.5%** o'r cyfranogwyr yn credu bod **Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol da ar gael yn yr ardal.** Er bod hyn yn siomedig a'u bod yn aneglur ynghylch yr ymatebwyr, rydym yn credu ein bod yn darparu gwasanaeth o safon i'n defnyddwyr gwasanaeth a'n gofalwyr ac mae gennym dystiolaeth i brofi hyn.
  - Cawsom Adroddiad Arolygu da iawn gan Arolygiaeth Gofal Cymru ym Mai 2019 (cyhoeddwyd 7 Awst 2019) a oedd yn cadarnhau y *gall pobl fod yn hyderus ynghylch ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir.*
  - At hynny, fel rhan o'i rwymedigaeth statudol i ymgynghori â defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr, cafodd yr adran gyfradd ymateb ardderchog o 604 o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr i'r arolwg, a ddangosodd fod pobl yn fodlon iawn ar y gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y sir: Er enghraifft, dywedodd 85% o bobl eu bod yn hapus â'r gofal a'r cymorth roeddent yn eu cael; dywedodd 81% o blant eu bod yn gwybod â phwy i gysylltu ynglŷn â'u gofal a'u cymorth; roedd 83% yn teimlo'n ddiogel rhag niwed neu anaf; ac roedd 93% yn cael eu trin â pharch ac urddas.

- Mae nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i wneud **addasiad Grant Cyfleusterau i'r Anabl** wedi cynyddu i 176 diwrnod, y ffigur ar ddiwedd chwarter tri oedd 169 diwrnod. Roedd y dirywiad ychwanegol mewn perfformiad wedi'i achosi, yn rhannol, gan oedi a goblygiadau COVID-19 ar y gallu i gwblhau gwaith parhaus ar y safle. *Nid oes data cymharol ar gyfer Cymru gyfan ar gael am 2019/20*.

Cynnydd a wnaed

- Mae *Bywydau Bodlon* yn wasanaeth tymor hir sy'n cefnogi pobl sy'n byw â dementia, mae'n rhoi gweithiwr allweddol i unigolion sy'n helpu pobl i fyw eu bywyd mor llawn â phosibl wrth i'w dementia ddatblygu. Mae'r pwyslais ar gael yr unigolyn i gyfeirio'r cymorth sydd ei angen arno er mwyn bod mor annibynnol â phosibl. Mae'r gwasanaeth wedi'i ymestyn o Lanelli i gynnwys Rhydaman, Dyffryn Aman a Llandeilo, gyda chynnydd o 39 i 77 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn ystod 2019/20. Mae cynlluniau'n cael eu datblygu i'r gwasanaeth fod ar gael ar draws y sir gyfan, fel rhan o ail-dendro gwasanaethau yn y Gymuned, sydd wedi'i ohirio tan 2021 oherwydd COVID-19.

- *Prosiect Cymorth Unedig Sir Gaerfyrddin (CUSP)* i'r rhai y mae angen gweithwyr allweddol arnynt, bydd ein prosiect comisiynu cydweithredol yn y trydydd sector yn helpu unigolion yn uniongyrchol. Ei nod yw rhoi cymorth i bobl sydd bron iawn angen gofal statudol a darparu gweithiwr allweddol i roi ymateb cymunedol cydgysylltiedig i gadw pobl yn iach ac yn annibynnol. Mae hyn hefyd yn cynnwys cynllun grant yn y trydydd sector sy'n gallu cefnogi canlyniadau unigol yn hyblyg.

- Rydym wedi datblygu a gwella ein *Tîm Ymateb Aciwt* llwyddiannus iawn yn Sir Gaerfyrddin, er mwyn creu gwasanaeth ymateb i argyfwng fel dewis arall yn lle derbyn cleifion i'r ysbyty. Caiff y gwasanaeth integredig ei ddarparu gan un tîm amlddisgyblaethol a fydd yn cydweithio mewn dull cydweithredol i sicrhau bod llwybr pob unigolyn yn ddi-dor, yn lleihau dyblygu asesiadau ac yn sicrhau bod y canlyniadau cywir yn cael eu cyflawni. Mae'n eu trin gartref fel pe baent mewn ward rithwir ac yn cynnwys Meddygon, Nyrsys, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol, Dietegydd a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd.

  Mae'n wasanaeth hynod ddefnyddiol sy'n rhoi i bobl y gofal maent am ei gael, lle maent am ei gael, a bydd yn:

  - Gwella profiad cleifion a gofalwyr
  - Lleihau derbyniadau brys
  - Lleihau hyd arosiadau mewn ysbyty
  - Lleihau derbyniadau parhaol i leoliad preswyl

- Mae'r *Gwasanaeth Ailalluogi* wedi helpu'r defnyddwyr gwasanaeth i adennill eu symudedd a'u hannibyniaeth. Mae hyn wedi galluogi rhai defnyddwyr gwasanaeth i ddychwelyd i weithgareddau roeddent yn eu mwynhau o'r blaen e.e. nofio a mynychu'r eglwys ar ddydd Sul.

Gwasanaeth **CONNECT -** model newydd a chyffrous o hunangymorth a gofal rhagweithiol, a gefnogir gan y defnydd o Ofal trwy Gymorth Technoleg a digidol. Yn seiliedig ar fodel sydd ar waith yn Sbaen sydd wedi cael effaith ar lesiant ac sydd wedi lleihau'n sylweddol nifer y bobl sydd angen gofal tymor hir neu acíwt.

Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:

- **Galwadau rhagweithiol**: bydd cynllun hunanreoli unigol yn cael ei roi ar waith drwy rhestr o alwadau.
- **Gofal trwy Gymorth Technoleg**: Offer pwrpasol ac unigol i gefnogi'r gwasanaeth
- **Ymateb 24/7**: drwy ganolfan alwadau bwrpasol sy'n gallu defnyddio ymateb brys priodol pan fydd argyfwng yn digwydd, bydd gwasanaeth symudol yn ymateb o fewn awr
- **Cymorth Llwybrau Llesiant**: bydd tîm i weithio gydag unigolion i ddarparu llwybrau cymorth uniongyrchol.
- **Presgripsiwn digidol** sy'n cynnwys prosiect i greu grwpiau cyfeillgarwch rhithwir a chysylltiad. Lleihau unigrwydd ac arwahanrwydd i bobl hŷn:
- Gwasanaeth atal **cwympiadau rhagweithiol**
- Cymorth penodedig i **Ofalwyr** gan gynnwys cymorth cyflym i Ofalwyr drwy'r Cerdyn Argyfwng Gofalwyr
- **Hunangymorth** ar gyfer cyflyrau iechyd hirdymor gan Raglenni Addysg pwrpasol i Gleifion

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd:
Y Cynghorydd Jane Tremlett

Amcan Llesiant 11

Heneiddio'n Dda - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin

Gostyngiad bach mewn unigrwydd

Dangosodd arolwg blynyddol Arolwg Cenedlaethol Cymru ostyngiad bach mewn unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin, er ei fod yn dal yn uwch na Chyfartaledd Cymru.

Pam mae'n bwysig

- Mae heneiddio'n dda – '*ychwanegu bywyd at flynyddoedd, nid blynyddoedd yn unig i fywyd'* – yn bwysig i bob un ohonom, ac i'n gwlad yn gyffredinol. Dylai pobl hŷn gael eu gweld fel rhan hanfodol o'r gymdeithas a dylent gael mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn ein heconomi a'n cymunedau a chyfrannu atynt. Mae pobl hŷn yn gaffaeliad sylweddol i'n cymuned a'n heconomi.
- Gall gwasanaethau ehangach wneud cyfraniad pwysig i gefnogi a chynnal annibyniaeth pobl hŷn a lleihau'r galw ar Wasanaethau Cymdeithasol a Gofal Iechyd.
- Y Comisiynydd Pobl Hŷn, Helena Herklots sy'n pennu'r uchelgais o Sicrhau mai Cymru yw'r lle gorau yn y byd i dyfu'n hyn.

Mesur Llwyddiant

% y bobl sy'n teimlo'n unig yn Sir Gaerfyrddin wedi gostwng i

16.2% *(roedd yn 18.3%)*

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Egluro'r Canlyniadau

Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, roedd **16.2%** o oedolion a gymerodd ran yn Sir Gaerfyrddin **yn ystyried eu hunain yn unig**, ac mae hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru o 14.43% ond wedi gostwng o'r canlyniad blaenorol o 18.3%.

Ym mis Gorffennaf 2019, canfu'r adroddiad Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin yn sgil Adolygiad Gorchwyl a Gorffen aelodau'r Pwyllgor Craffu - Gofal Cymdeithasol ac Iechyd:

'Mae llu o weithgareddau a mentrau ledled Sir Gaerfyrddin sy'n sicrhau newid cadarnhaol ac yn mynd i'r afael ag unigrwydd ar lefel leol. Cydnabyddir bod angen dull strategol llawer mwy penodol i sicrhau'r effaith fwyaf posibl'

Mae tystiolaeth dda o'r effaith sylweddol y gall unigrwydd ei gael ar iechyd corfforol, meddyliol a chymdeithasol. Mae mynd i'r afael ag unigrwydd wedi'i gymeradwyo fel dull allweddol o atal anghenion gofal cymdeithasol yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a chaiff ei gydnabod yn ffordd o newid ffocws iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r Adolygiad hefyd wedi argymell 4 cam gweithredu allweddol:

1. *Cymryd agwedd strategol at unigrwydd*
2. *Mynd i'r afael ag unigrwydd fel blaenoriaeth rannu*
3. *Canolbwyntio ar adeiladu a chefnogi asedau cymunedol*
4. *Mynd i'r afael yn uniongyrchol â rhwystrau o ran cysylltu*

Cynnydd a wnaed

Cymunedau Oed Gyfeillgar

- Rhoddodd *Uned Cyfathrebu Digidol a Seiberdroseddu yr Heddlu* sgwrs yn y digwyddiad blynyddol Fforwm 50+ ym mis Medi 2019 i roi cyngor a dolenni i wefannau perthnasol.
- Mae *Grŵp Llywio'r Fforwm 50+* yn hyrwyddo buddiannau pobl hŷn yn y sir
- Dywed defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr eu bod yn fodlon eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau yn eu dewis iaith.

Cymunedau sy'n Cefnogi Pobl â Dementia

- Mae prosiect Bevan Exemplar, *'Bywydau Bodlon'*, sef prosiect sy'n cefnogi pobl sy'n byw gyda dementia a nam gwybyddol, wedi cael cynllun peilot llwyddiannus yn Llanelli. Mae'r dull canolbwyntio ar yr unigolion tuag at bobl â dementia a'u teuluoedd wedi ennill statws rhagorol gan Gomisiwn rhyngwladol Bevan. Dangosodd ei werthusiad ganlyniadau rhagorol i bobl â dementia o ran aros gartref gyda llai o debygolrwydd o anghenion cynyddol

Atal Codymau

- Mae Atal Codymau yn dal i fod yn un o flaenoriaethau allweddol y *Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff* (NERS), sydd â dull arloesol ac effeithiol ar gyfer darparu ymyriadau gweithgarwch corfforol. Mae atgyfeiriadau atal cwympiadau wedi arwain at gynnydd yn y nifer sy'n cymryd rhan yn y cynllun.
- Mae hyfforddiant *`Drink Wise Age Well'* wedi cael ei ddarparu i staff sy'n gweithio gydag oedolion. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio ar effaith defnyddio alcohol ar bobl dros 50 oed ac mae'n cynnwys pwyslais ar nodi defnydd problematig yn gynnar.

Fforwm 50+ Blynyddol

Cafwyd Digwyddiad Fforwm 50+ Blynyddol llwyddiannus arall lle gwelwyd tua 500 o aelodau yn mynychu'r Ardd Fotaneg Genedlaethol ar 12 Medi 2019.

Mae'r digwyddiad poblogaidd yn dwyn ynghyd amrywiaeth eang o bobl a thros 30 o sefydliadau, ac yn rhoi cyfle i edrych yn gadarnhaol ar fynd yn hŷn yn ogystal â chanolbwyntio ar anghenion pobl hŷn y sir. Cefnogir y digwyddiad blynyddol gan Gyngor Sir Caerfyrddin a Llywodraeth Cymru.
Roedd y Digwyddiad yn cynnwys themâu yn seiliedig ar y materion blaenoriaeth a godwyd yn Arolwg 2018 ac arolygon bach dilynol dros y flwyddyn, gan gynnwys:

- Symudedd a mynediad at drafnidiaeth
- Hygyrchedd bancio ac aros yn ddiogel ar y rhyngrwyd
- Cymorth digidol ar gyfer iechyd a llesiant, atal unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol

Clwb Cuppa Saron 50+ oedd un o enillwyr gwobrau T2T

Cyflwynodd y gymdeithas *Tenant i Denant* (T2T) dlws ail safle i grŵp Saron 50+ yn y categori prosiect cymunedol.

Roedd y grŵp mor falch o gael ennill y wobr hon fel bod pob aelod yn cadw'r darian am bythefnos cyn iddi gael ei throsglwyddo i'r aelod nesaf!

Sefydlwyd y clwb oddeutu 4 blynedd yn ôl gydag 17 aelod ac erbyn hyn mae bron 60 o aelodau yn mynychu'r clwb paned bob yn ail ddydd Mercher o 10-12pm yn Neuadd Saron.

Maent yn cael amrywiaeth o siaradwyr gwadd ac mae awyrgylch cyfeillgar a chroesawgar iawn yno. Trefnir hefyd ddawns amser te bob mis, ond nid oes yn rhaid i chi ddawnsio! Maent hefyd yn mynd i'r ganolfan fowlio yn rheolaidd.

Dolen i rifyn Gwanwyn 2019 o'r cylchgrawn *'Tenant i Denant'*

Yr Aelodau o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai:
Y Cynghorydd Linda Evans a
Gofal Cymdeithasol ac Iechyd:
Y Cynghorydd Jane Tremlett

Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus

Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Cynllun gweithredu carbon sero-net cyntaf Cymru

Ym mis Chwefror 2020, Cyngor Sir Caerfyrddin yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i gyhoeddi cynllun gweithredu newid yn yr hinsawdd, sy'n nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at fod yn garbon sero-net yn ystod y 10 mlynedd nesaf. Ni oedd un o'r cynghorau cyntaf yn y DU i ddatgan argyfwng hinsawdd, gan addo bod yn garbon sero-net erbyn 2030 - 20 mlynedd cyn targedau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

Ymhlith y camau gweithredu eraill y mae datblygu ffyrdd newydd o leihau carbon yn adeiladau'r Cyngor, prynu fflyd sy'n defnyddio ynni'n fwy effeithlon, cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill i sicrhau newid ehangach, edrych ar gyfleoedd i blannu coed a chynhyrchu ynni adnewyddadwy ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.

Pam mae'n bwysig

- Mae'r *Amgylchedd Naturiol* yn elfen greiddiol o ddatblygu cynaliadwy. Mae Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ymestyn y ddyletswydd sydd ar gyrff cyhoeddus *i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chynyddu cryfder ecosystemau*.
- Mae *amgylchedd naturiol bioamrywiol*, gydag ecosystemau iach, yn helpu gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol. Amgylchedd naturiol Sir Gaerfyrddin yw'r adnodd naturiol y mae rhan helaeth o'n heconomi wedi ei seilio arni – twristiaeth, ffermio, coedwigaeth, ac ynni adnewyddadwy. Mae'n ffactor o bwys sy'n denu pobl, ifanc a hŷn, i fyw, gweithio ac ymweld â'n sir, gan ddod â buddsoddiad o'r tu allan gyda hwy.
- Mae *perthynas gref rhwng llesiant pobl a'r amgylchedd o'u hamgylch*, o ddarparu cyfleoedd hamdden, i ymdeimlad cadarnhaol seicolegol, buddion iechyd a chysylltiad â threftadaeth a diwylliant.

Mesurau Llwyddiant

Cynhyrchwyd **997,480 kWh** o ynni adnewyddadwy gennym yn ystod 2019/20 (wedi cynyddu o 979,071 kWh yn y flwyddyn flaenorol)

Ein cyfradd ailgylchu yw **64.66%** (Mae hwn yn gynnydd ar ffigur y flwyddyn flaenorol sef 58.95%).

Egluro'r Canlyniadau

- **Ailgylchu** wedi cynyddu ychydig yn 2019/20 i 64.66% o 58.95% y flwyddyn flaenorol. Felly rydym wedi cyrraedd targed statudol Llywodraeth Cymru o 64% erbyn 31 Mawrth 2020, gan osgoi unrhyw gosbau ariannol. Gwnaethom gynnal rhaglen o ddrws i ddrws er mwyn cynghori ac annog trigolion i fod yn rhan o'n cynlluniau ailgylchu. *Diolch i breswylwyr mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn ailgylchu*.

Cynnydd a wnaed

- Rydym wedi parhau i gyflawni prosiect Britheg y Gors Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau'r *Mynydd Mawr.* Mae'r prosiect bellach yn rheoli 25 o safleoedd sy'n darparu 41.05 hectar o dir mewn cynefin sy'n addas ar gyfer glöynnod byw britheg y gors
- Roeddem wedi parhau i ymgysylltu â'r cyhoedd a'u hannog i gefnogi'r cyngor ymhellach i wella ei berfformiad ailgylchu. Cynhaliwyd rhaglen gynhwysfawr i ymgysylltu â chartrefi ym mis Hydref, a oedd yn cyd-fynd â newidiadau i'r polisi casglu gwastraff gweddilliol a darparu bagiau blychau gwastraff bwyd.
- Rydym wedi cynhyrchu a chyhoeddi ein Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd sy'n nodi, yn rheoli, ac yn lleihau perygl llifogydd yn ein cymunedau.
- Rydym wedi parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i dreialu trefniadau rheoli sbwriel ar draws Llanelli drwy gyflwyno grwpiau Swyddogion Ansawdd Amgylcheddol Lleol, grŵp rhanddeiliaid Cymoni eich Cymuned, gorchmynion diogelu'r cyhoedd a gweithrediadau gorfodi ar y cyd drwy weithio gydag arolygwyr heddlu lleol.

Gwybodaeth i ddilyn ar ddefnydd o ynni yn 2019/20

Rydym yn aros am:

- Data defnydd ynni 2019/20 gan ein cyflenwyr ac yna bydd angen gwirio'r ffigurau.
- Canllawiau riportio gan Lywodraeth Cymru i gymhwyso methodolegau rhagnodedig.

Rydym yn gobeithio cynnwys data **os** daw i law erbyn i'r adroddiad hwn gael ei gyhoeddi'n derfynol erbyn 31 Hydref 2020.

Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan yn Sir Gaerfyrddin

26 o leoliadau yn Llanelli, Porth Tywyn, Rhydaman, Caerfyrddin, Cwm Gwendraeth a Llandeilo yw'r rhai diweddaraf i elwa ar bwyntiau gwefru cerbydau trydan.

Swydd Ecolegydd Bwrpasol

Rydym wedi penodi Ecolegydd i sicrhau ein bod yn cyflawni ein Dyletswydd Bioamrywiaeth fel y nodwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

Mae'r Ecolegydd yn gweithio ar ddylunio peirianneg ac ar y safle gyda chontractwyr sy'n darparu prosiectau o gynlluniau bach megis meysydd parcio a llwybrau troed, i gynlluniau mawr megis Safle Strategol Dwyrain Cross Hands.
Mae hyn yn cynnwys darparu a sicrhau trwyddedau rhywogaethau a warchodir a chynhyrchu gwaith ecolegol. Rhoi cyngor i'r Gwasanaethau Eiddo (e.e. cyngor ar ystlumod) ynghylch yr effaith ecolegol ar Amddiffyn rhag Llifogydd a Diogelu'r Arfordir

Mae'r swydd hon wedi peri manteision amlwg o ran cyflawni Cam 1 Ffordd Gyswllt Cross Hands a'r gwaith o gynllunio a darparu'r ail gam.



Llifogydd

Cynhaliodd ein Tîm Gweithredol waith glanhau mewn cymunedau a busnesau yr effeithiwyd arnynt i ddelio â chanlyniadau **Storm Dennis**.

Bu criwiau yn gweithio'n galed i glirio malurion a adawyd gan y llifogydd, gyda chontractwyr arbenigol yn dod i mewn i helpu mewn rhai ardaloedd. Cafodd asesiad llawn o'r difrod a achoswyd gan y storm ei gynnal ar yr holl arwynebau ffordd, coed a phontydd yr effeithiwyd arnynt.

Sefydlwyd *Cronfa Gymorth* ar gyfer trigolion a busnesau yr effeithiwyd arnynt gan y storm.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Ddiogelu'r Cyhoedd: **Y Cynghorydd Philip Hughes**
Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd: **Y Cynghorydd Hazel Evans**

Amcan Llesiant 13
Amgylchedd Iach a Diogel - Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth

Rydym wedi gwella seilwaith ffyrdd, trafnidiaeth wledig a theithio llesol

Mae ein gwasanaethau cysylltiedig â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd yn hwyluso symud nwyddau a phobl yn ddiogel. Galluogi mynediad i farchnadoedd a nwyddau crai yn ogystal â darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden a gweithgareddau cymdeithasol. Rydym wedi parhau i ddatblygu Teithio Llesol drwy fuddsoddi mewn llwybrau a rennir a llwybrau beicio, gwella'r seilwaith ffyrdd i hybu gweithgarwch economaidd, a chynnal gwasanaeth bysiau gwledig drwy ein gwasanaeth Bwcabus a cheir cefn gwlad.

Pam mae'n bwysig

- Mae gan *drafnidiaeth a phriffyrdd* rôl allweddol o ran cynnal ein cymunedau. Mae economi fodern, lwyddiannus yn dibynnu ar symud pobl a nwyddau'n ddiogel ac yn effeithlon; darparu cyfleoedd i bobl gael mynediad at gyflogaeth, addysg, iechyd, hamdden a gwasanaethau adwerthu.
- *Bod yn unedig a chysylltiedig* yw un o bedwar amcan Llywodraeth Cymru yn ei gynllun *'Symud Cymru Ymlaen'.* Gall darparu mynediad integredig a fforddiadwy i fusnesau, i drigolion y sir, ac i ymwelwyr ysgogi datblygiad economaidd, lleihad mewn amddifadedd ac allgau cymdeithasol, a chynnydd mewn llesiant.
- Bydd *cynnal mynediad at wasanaethau* drwy gynlluniau Teithio Llesol yn sicrhau gwelliannau mewn iechyd a llesiant i bob rhan o'r gymuned gan gynnwys cerdded, beicio, teithio i deithwyr a thrafnidiaeth y ffyrdd.
- Bydd De-orllewin Cymru yn Ddinas-ranbarth hyderus, uchelgeisiol a chysylltiedig erbyn 2030.

Mesurau Llwyddiant

Ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael:



5.4% o'n rhai Dosbarth **A**
(Gostyngiad gan taw 5.2% oedd yn 18/19)

4.7% o'n rhai Dosbarth **B**
(Gostyngiad gan taw 4.2% oedd yn 18/19)

12.5% o'n rhai Dosbarth **C**
(Mae hyn wedi aros yn gyson a'r ffigur ar gyfer 18/19 oedd 12.5%).

Mae nifer yr anafusion ar ein ffyrdd wedi cynyddu a chafodd **113** o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol ar ein ffyrdd *(97 yn 2018)*

(2il uchaf yng Nghymru)
Ffynhonnell: Stats Cymru

Egluro'r Canlyniadau

- **Mae amodau ffyrdd yn Sir Gaerfyrddin wedi dirywio yn ystod 2019/20**. Gan Sir Gaerfyrddin y mae'r rhwydwaith priffyrdd ail fwyaf yng Nghymru. Mae % cyfunol y ffyrdd dosbarth A, B ac C yn Sir Gaerfyrddin sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) wedi cynyddu, gyda'r ffyrdd dosbarth A yn cynyddu o 5.2% i 5.4%, y ffyrdd dosbarth B yn cynyddu o 4.2% i 4.7%, ond mae cyflwr y ffyrdd dosbarth C wedi aros yr un peth sef 12.5% mewn cyflwr gwael. Mae'r cynnydd cyffredinol yn y ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael (parth coch) yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cyfateb i tua 175km o ffordd, ac mae hwn yn rhwydwaith go helaeth. Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol, nid yw'r buddsoddiad yn cyd-fynd â chyfradd y dirywiad. Byddwn yn cyflwyno achos ariannu ychwanegol er mwyn mynd i'r afael â'r rhannau 'coch' a hefyd yn gofyn am fwy o fuddsoddiad mewn gwaith cynnal a chadw ataliol.
- **Cafodd cyfanswm o 113 o bobl eu lladd neu eu hanafu'n ddifrifol** ar ffyrdd Sir Gaerfyrddin yn 2019, a dyma'r ffigwr 2il uchaf yng Nghymru ar ôl Powys, ac mae wedi codi o 97 yn 2018. Mae'r rhain yn cynnwys 25 o feicwyr modur a 27 o bobl 16-24 oed. Er na allwn reoli nifer y digwyddiadau traffig ffordd ar rwydwaith ffyrdd y sir, rydym yn gweithio gydag asiantaethau partner i annog pobl i ddefnyddio'r ffordd yn fwy diogel, ymgysylltu â grwpiau defnyddwyr ffordd risg uchel (beicwyr modur, yr henoed, gyrwyr ifanc), buddsoddi mewn prosiectau peirianneg diogelwch ffyrdd a dargedir, helpu'r Heddlu ag ymgyrchoedd gorfodi rheolau cyflymder a mynd i'r afael â phryderon ynghylch goryrru.

Cynnydd a wnaed

- Mae buddsoddiad sylweddol wedi bod o ran *Llwybrau Diogel yn y Gymuned a Llwybrau Diogel i Ysgolion* i annog mwy o deithio cynaliadwy.
- Rydym wedi bod yn datblygu prif gynlluniau ar gyfer *Teithio Llesol* a fydd yn cefnogi mynediad i gyflogaeth, addysg, iechyd a hamdden. Mae £1.4m wedi dod i law gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau teithio llesol yn Llanelli, Caerfyrddin, Rhydaman a Cross Hands, ac mae nifer o gynlluniau bron wedi'u cwblhau.
- Mae cyllid wedi'i ddyrannu i ranbarth De-orllewin Cymru er mwyn datblygu ymhellach system drafnidiaeth integredig dull METRO. Er bod cyllid yn cael ei weinyddu drwy Ddinas a Sir Abertawe, mae Sir Gaerfyrddin wedi bod yn gweithio'n galed i sicrhau bod buddiannau'r Sir a'r Rhanbarth yn cael eu hystyried yn llawn o ran datblygu system drafnidiaeth Metro. Mae gwaith yn cael ei wneud ar y gwasanaethau rheilffordd ar hyn o bryd. Cyflwynwyd blaenoriaethau ar gyfer Sir Gaerfyrddin sy'n cynnwys gofyniad am wasanaeth rheilffordd cyflymach i Orllewin Cymru gan ddefnyddio Llinell Ardal Abertawe. Roedd ein cais i Lywodraeth Leol am £450k ar gyfer y Gronfa Rhwydwaith Trafnidiaeth Leol yn llwyddiannus. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i wella seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus strategol allweddol ar draws y sir.
- **Canolbwynt Beicio:** Rydym wedi parhau i ddatblygu ein nod o sefydlu Sir Gaerfyrddin fel Canolfan Beicio Cymru. Mae ein Byrddau Strategol yn parhau i gyfarfod ac yn bwrw ymlaen â chyfres o gamau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Feicio. Rydym yn parhau i wneud cynnydd ar y seilwaith Beicio fel Llwybr Dyffryn Tywi a rhwydweithiau *Teithio Llesol.* Dyfarnwyd £313k cychwynnol gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dyluniad ac ymarferoldeb ein dyheadau Teithio Llesol. Erys heriau i Awdurdodau gwledig fel Sir Gaerfyrddin elwa ar gyllid Teithio Llesol, sy'n cael ei dargedu gan Lywodraeth Cymru mewn ardaloedd trefol.

Mae **cynllun gwerth £1.8 miliwn** wedi gwella cyffordd Stryd y Gwynt a Tirydail yn Rhydaman. Mae'r gylchfan newydd a adeiladwyd yn lle'r hen system goleuadau traffig bedair ffordd wedi helpu'n sylweddol i leihau tagfeydd traffig.

Sicrhawyd yr arian gennym drwy Gronfa Trafnidiaeth Leol Llywodraeth Cymru i wella'r cynllun a rhoi hwb i gynlluniau adfywio tymor hir y dref.

Y ffordd rydym yn gweithio

Bwcabus

Mae gwasanaeth bysiau gwledig sydd wedi cael ei ddisgrifio fel gwasanaeth hanfodol i'w deithwyr yn dathlu ei ben-blwydd yn 10 oed.

Mae **Bwcabus** yn gweithredu chwe diwrnod yr wythnos yn Nyffryn Teifi yng Ngogledd Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, ac ar draws Sir Benfro, gan ganiatáu i ddefnyddwyr archebu siwrneiau ymlaen llaw neu ddefnyddio gwasanaethau sefydlog i gysylltu â'r TrawsCymru a gwasanaethau bysiau lleol eraill.

Hebddo, does gan nifer o'i ddefnyddwyr ddim mynediad i'r rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus ac yn ôl nhw, mae'r gwasanaeth yn eu helpu nhw i gadw eu swyddi, gweld eu meddygon teulu a chymdeithasu â'u ffrindiau.

Dywedodd teithwyr fel Janet Davies o Dalgarreg bod y gwasanaeth yn un hanfodol iddi a'i fod yn chwarae rhan bwysig yn sicrhau ei bod hi'n cael cadw ei hannibyniaeth. Mae hi'n defnyddio'r gwasanaeth yn wythnosol gan nad oes ganddi unrhyw ddull arall o deithio. *"Mae'r bws hwn yn wych - mae'r gwasanaeth mor ddibynadwy ac mae'r gyrwyr bob amser yn ddymunol,*" dywedodd.
Mae Anona Jones o Ffostrasol yn un sydd wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers amser maith iawn. Dywedodd ei bod hi dim ond yn gallu parhau i weithio yn Ysbyty Glangwili diolch i wasanaeth dibynadwy Bwcabus. Bellach mae Anona wedi ymddeol, ond mae'n parhau i ddefnyddio'r gwasanaeth ar gyfer cymdeithasu a dywedodd: *"Heb Bwcabus, byddwn i mewn picil a byddai'n rhaid i ni symud."*

Caiff y gwasanaeth sy'n ymateb i'r galw, a lansiwyd yn Sir Gaerfyrddin a Cheredigion ar 24 Awst 2009, ei arwain gennym ni ar ran partneriaeth draws-sirol. Bu'r cynllun yn gymaint o lwyddiant iddo gael ei ymestyn i Sir Benfro yn 2017 er mwyn bod o fantais bellach i gymunedau gwledig.

Ffyrdd Sir Gaerfyrddin

Rydym wedi buddsoddi **£2.65m** yn Sir Gaerfyrddin dros y flwyddyn. Mae llawer o welliannau a gwaith gosod wyneb newydd wedi'u cwblhau ar ôl buddsoddiad gan yr awdurdod a chyllid gan Lywodraeth Cymru.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros yr Amgylchedd:
Y Cynghorydd Hazel Evans

Amcan Llesiant 14
Amgylchedd Iach a Diogel - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru

Byddwn yn cynyddu hyder siaradwyr Cymraeg ac felly'r defnydd o'r Iaith ym mhob agwedd ar fywyd, a byddwn yn annog ac yn helpu sefydliadau'r sir i sicrhau bod y Gymraeg yn gyfrwng cynyddol naturiol i'w Gwasanaethau.

Pam mae'n bwysig

- Nodwyd bod cymorth a datblygiad yn y defnydd o'r Gymraeg wedi cael ei nodi'n elfen allweddol wrth ddatblygu natur unigryw ac atyniad yr ardal o ran twristiaeth, buddsoddi mewn busnes, a mynd i'r afael â thlodi gwledig.
- Mae gennym hanes da o gefnogi'r celfyddydau, ac rydym wedi bod ar flaen y gad fel un o'r awdurdodau lleol sydd wedi ymrwymo fwyaf i ddiwylliant yng Nghymru, wrth i ni barhau i werthfawrogi a buddsoddi yn y celfyddydau er gwaethaf her cyni cyllidol a thoriadau mewn arian cyhoeddus.
- Byddwn yn cymryd camau pwrpasol i effeithio'n gadarnhaol ar symudiadau poblogaeth gan geisio denu pobl ifanc i setlo neu ailsetlo yn y sir, fel bo'r cynnydd sy'n cael ei wneud o ran siaradwyr Cymraeg drwy'r system addysg ddim yn cael ei golli. Hefyd, gwneud ymdrech sylweddol i gymathu newydd-ddyfodiaid a sicrhau nad yw datblygiadau cynllunio newydd yn cael effaith andwyol ar hyfywedd y Gymraeg

Mesurau Llwyddiant

Mae **37.4%** o'n pobl yn gallu siarad Cymraeg
(Gostyngiad o'r canlyniad blaenorol sef 37.8%)

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru (maint sampl 600)

% y bobl a ymwelodd â:

Digwyddiadau'r Celfyddydau/Lleoedd	Hanesyddol/Amgueddfeydd
68.3%	**68.7%**	**42.1%**
I fyny o'r flwyddyn flaenorol sef 67.4%	I fyny o'r flwyddyn flaenorol sef 64.7%	I fyny o'r flwyddyn flaenorol sef 34.6%

Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, dywedodd 37.4% o'r rhai a gymerodd ran eu bod yn gallu siarad Cymraeg. Mae hyn yn llai nag yn 2018/19 (37.8%) ond gennym ni mae'r ganran 4edd uchaf yng Nghymru o hyd. Mae'r arolwg hwn yn rhoi syniad blynyddol da, yn seiliedig ar sampl o'r boblogaeth, o nifer y siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, y Cyfrifiad yw'r unig ffynhonnell sy'n rhoi ffigur poblogaeth gyfan, gyda 43.9% (78,000 o siaradwyr) wedi'u nodi yn 2011, sef y nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg mewn un sir.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru mae nifer y rhai o Sir Gaerfyrddin a gymerodd ran yn yr arolwg ac a fynychodd ddigwyddiad celfyddydol, gan ymweld â lleoedd hanesyddol ac ymweld ag amgueddfeydd yng Nghymru yn ystod 2019/20 wedi cynyddu. Mae ymweliadau â digwyddiadau celfyddydol ac amgueddfeydd yn is na chyfartaledd Cymru o 70.4% a 42.5%, ond mae'r % sy'n ymweld â lleoedd hanesyddol yn uwch na chyfartaledd Cymru o 62.5.
  Noder bod y cwestiynau'n gofyn a oeddent wedi bod yn y safleoedd hyn yng Nghymru, ac nid yn Sir Gaerfyrddin o reidrwydd.

Cynnydd a wnaed

Hyrwyddo'r Gymraeg

- Rydym wedi parhau i arwain *Fforwm Strategol y Gymraeg* sy'n cyfarfod bedair gwaith yn ystod y flwyddyn. Eleni rhoddwyd sylw i ddatblygu'r Iaith mewn blynyddoedd Cyn-ysgol, Cynllunio, Integreiddio, Pobl Ifanc a Chymraeg i Oedolion. Mae cylch llawn o ddiweddariadau ar y Cynllun Gweithredu bellach wedi'i gwblhau, ac mae gwaith wedi dechrau ar fesur effaith y Strategaeth Hyrwyddo.
- Cynhaliwyd sawl digwyddiad yn ein gweithleoedd yn ystod y flwyddyn i *hyrwyddo'r Gymraeg yn fewnol*. Roedd y digwyddiadau hyn yn gyfle i dynnu sylw at ofynion y Safonau, i rannu adnoddau i hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn y gwaith, ac i ddathlu ymdrechion niferus ein staff sy'n dysgu Cymraeg ac yn arwain ar hyrwyddo'r Gymraeg.
- Cafodd taflen newydd ei dylunio a'i hargraffu *i hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg* gyda'r nod o leddfu pryderon y di-Gymraeg ynghylch peidio â gallu cynorthwyo gyda gwaith cartref plant pan fydd plant mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Gwaith Cartref? Dim problem

- Fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) rydym *wedi cefnogi'r broses asesu effaith* er mwyn nodi a lleihau unrhyw effeithiau negyddol posibl ar y Gymraeg. Paratowyd asesiad manwl a fydd yn cael ei drafod fel rhan o'r CDLl. Mae hyn yn cynnwys data ar fewnfudo ac allfudo. Paratowyd Papur Pwnc mawl ar yr Iaith hefyd. Mae aelodau Fforwm Iaith Gymraeg Strategol y Sir wedi ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y CDLl.
- Mae ein perthynas â'r Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Dysgu Cymraeg wedi parhau i dyfu, ac mae staff wedi cael cymorth i ddilyn a mynychu ystod eang o gyfleoedd, gan gynnwys cyrsiau Cymraeg Gwaith dwys a darpariaeth breswyl. Mae'r modiwlau 'Croeso' 10 awr ar-lein hefyd yn cael eu hyrwyddo ymhlith yr holl weithwyr newydd.

Hyrwyddo Diwylliant Cymru

- Mae'r adran *'Pethau i'w Gwneud'* ar wefan Darganfod Sir Gâr yn un o'r rhai yr ymwelir fwyaf â hi o hyd, gan fod diddordeb gan drigolion a thwristiaid mewn gweld beth sy'n digwydd. Mae holl 'ddigwyddiadau' y Cyngor, gan gynnwys rhai mewn llyfrgelloedd, parciau, amgueddfeydd, theatrau a mannau awyr agored yng nghefn gwlad, wedi bod yn poblogi eu gwybodaeth ar y wefan.
- Ym mis Mai 2019, amlygwyd *gwasanaeth llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin* fel model ar gyfer gweddill Cymru mewn adroddiad gan Lywodraeth Cymru, a chanmolwyd y Cyngor am ei ymrwymiad i ddyfodol ei wasanaeth llyfrgelloedd ac am ei ddull blaengar o greu amgylchedd dysgu digidol newydd ochr yn ochr â'i arlwy mwy traddodiadol. **Sir Gaerfyrddin yw'r orau yng Nghymru** am ei buddsoddiad mewn deunyddiau darllen a'i gwariant fesul person ar ddarpariaeth llyfrgell, yn ogystal â'r drydedd orau am ei darpariaeth cyfrifiaduron.
- Rydym wedi parhau i ddarparu *cynllun trawsnewid ar gyfer y ddarpariaeth bresennol o ran Amgueddfeydd* yn Amgueddfa'r Sir yn Abergwili, Parc Howard, Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli ac Amgueddfa Cyflymder Pentywyn i wella'r ddarpariaeth ar gyfer trigolion ac ymwelwyr. Y datblygiadau hyd yn hyn yw:-
  - Mae'r gwaith o adeiladu'r Amgueddfa Cyflymder a dylunio'r arddangosfa yn mynd rhagddo.
  - Mae cais cynllunio adeilad rhestredig wedi'i wneud am becyn Gwaith Hanfodol Parc Howard, ac mae'r rhaglen yn parhau i gael ei monitro gan Grŵp Cydweithredu Parc Howard.
  - Mae cynllun hirdymor ar gyfer Amgueddfa Ddiwydiannol Cydweli, gan gynnwys cadw henebion cofrestredig, yn cael eiddatblygu.
  - Dechreuwyd prosiect i adnewyddu Amgueddfa Sir Gaerfyrddin, am gost o £1.2 miliwn, ym mis Ionawr 2020

Y ffordd rydym yn gweithio

Yn ail Wobrau Dathlu Diwylliant Sir Gaerfyrddin, dewiswyd deunaw ar gyfer y rownd derfynol o fwy na 110 o geisiadau.

Mewn partneriaeth gydweithredol rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin, y Llanelli Star a'r Carmarthen Journal, bu i Wobrau Diwylliant Sir Gaerfyrddin, a gynhaliwyd yn Theatr y Ffwrnes ym mis Ebrill 2019, amlygu hyd a lled y gweithgarwch diwylliannol a'r doniau sydd gennym ar draws y sir. Dewiswyd enillwyr o enwebiadau cyhoeddus ar draws 6 chategori - rhagoriaeth mewn Celfyddydau Gweledol a Chrefftau, y Celfyddydau Perfformio, Cyfryngau Creadigol, Llenyddiaeth, Treftadaeth a Cherddoriaeth. Roedd enillwyr mewn dau gategori arbennig hefyd.

Aeth **y wobr am Dalent Ifanc i Cerys Angharad,** telynores 10 mlwydd oed sydd eisoes wedi ennill nifer o wobrau cenedlaethol.

Tref a Phentref Diwylliant Sir Gaerfyrddin ar gyfer 2019 oedd Hendy-gwyn ar Daf a Drefach Felindre. Bu'r Cyngor Tref yn arwain y gwaith yn Hendy-gwyn ar Daf ac mae gweithgor wedi cael ei sefydlu yn Nrefach Felindre i drefnu rhaglen o ddigwyddiadau diwylliannol drwy gydol y flwyddyn.

Er mwyn hyrwyddo ein gwasanaethau cymorth Cymraeg, ailargraffwyd ein **llyfryn *Bod yn Ddwyieithog*** ond roedd cyfeiriad ychwanegol ynddo at ofal plant cyfrwng Cymraeg. Roedd hwn yn cyfeirio teuluoedd at y wybodaeth am leoliadau Cymraeg ar y wefan gwybodaeth i deuluoedd ac i'r ymweliadau iechyd.

Cafodd y rhain eu cynnwys yn y pecynnau llyfrau a ddosbarthwyd i deuluoedd sy'n cael cymorth gan Dechrau'n Deg.





Yn dilyn newidiadau sylweddol i **ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ein Theatrau**, mae ein gweledigaeth Hamdden wedi bod yn gweithio'n ddiflino i hyrwyddo'r gwasanaethau hyn ac i sicrhau cynulleidfaoedd ar gyfer y perfformiadau Cymraeg yn ein theatrau. Rydym wedi darparu gwybodaeth benodol i'r Fforwm Sirol er mwyn i sefydliadau cymunedol ddosbarthu gwybodaeth ar lawr gwlad. Mae ein data darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn dangos bod nifer y tocynnau a werthir ar gyfer sioeau Cymraeg wedi parhau i gynyddu.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros y Gymraeg, Diwylliant a Thwristiaeth:
Y Cynghorydd Peter Hughes Griffiths

Adeiladu Gwell Cyngor a Gwell Defnydd o Adnoddau

Amcan Llesiant 15a - Adeiladu Gwell Cyngor

Safon Platinwm ar gyfer iechyd a llesiant staff

Unwaith eto mae'r Cyngor wedi ennill y wobr uchaf fel cydnabyddiaeth o'r gwaith rydym yn ei wneud i gefnogi iechyd a llesiant ein staff. Y Safon Iechyd Corfforaethol Platinwm yw'r marc ansawdd ar gyfer hybu iechyd yn y gweithle yng Nghymru, dan arweiniad Llywodraeth Cymru. Y Cyngor yw'r unig Awdurdod Lleol yng Nghymru sy'n meddu ar y wobr hon, ac mae wedi gwneud ers 2009. Caiff sefydliadau eu hailasesu bob tair blynedd, ac eleni rydym wedi cael ein hail-ddilysu â'r gwobrau Aur a Phlatinwm.

Pam mae'n bwysig

- Mae'n bwysig bod ein cynlluniau strategol yn gyson ac yn integredig
- Yn Adeiladu Gwell Cyngor, rydym am wneud pob ymdrech i sicrhau llywodraeth leol fwy effeithlon, moesegol, tryloyw ac atebol sy'n cefnogi ac yn gwella cyfranogiad y cyhoedd a democratiaeth.
- Yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae'n ofynnol cael **7 maes** o newid corfforaethol, sy'n un o ddisgwyliadau allweddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth Adrodd yn Flynyddol.

1 Cynllunio Corfforaethol 2 Rheoli Perfformiad 3 Cynllunio'r Gweithlu	A gwmpesir gan **Adeiladu Gwell Cyngor**
4 Cynllunio Ariannol 5 Asedau 6 Caffael 7 Risg	A gwmpesir gan **Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau**

Mesurau Llwyddiant

Mae **71.2%** o bobl yn cytuno y gallant gael gafael ar wybodaeth amdanom yn y ffordd maent yn ei dymuno
(72.4% o'r blaen)
(cyfartaledd Cymru 74.9%)
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

74.6% o bobl yn gwybod sut i ddarganfod pa wasanaethau rydym yn eu darparu
(72.1% o'r blaen)
(cyfartaledd Cymru 75.8%)
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

9% o bobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau
(11.4% o'r blaen)
(cyfartaledd Cymru 17%)
Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru

Salwch staff **10.7** diwrnod y flwyddyn
(9.8 diwrnod o'r blaen)
(a phrif achos salwch yw straen, iechyd meddwl a blinder)

Egluro'r Canlyniadau

- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20:
  - Roedd **71.2%** o'r cyfranogwyr yn cytuno y **gallent gael gafael ar wybodaeth amdanom yn y ffordd roeddent yn ei ffafrio,** ac mae hyn ychydig yn llai na 72.4% y flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru o 74.9%, ond rydym wedi symud o'r 17^{eg} safle i'r 16^{eg} safle.
  - Roedd **74.6%** yn cytuno **eu bod yn gwybod sut i ddod o hyd i ba wasanaethau a ddarparwn**; mae hwn yn welliant ar ffigur y flwyddyn flaenorol o 72.1% ond mae dal yn is na chyfartaledd Cymru o 75.8%. Rydym wedi symud o'r 18^{fed} safle i'r 13^{eg} safle yng Nghymru.
  - Dim ond **9% o bobl yn cytuno bod ganddynt gyfle i fod yn rhan o'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ynghylch rhedeg ein gwasanaethau.** Mae hyn tipyn is na chyfartaledd Cymru o 17% ac rydym yn yr 21^{ain} safle, ac mae wedi gwaethygu ers y canlyniad diwethaf sydd ar gael yn arolwg 2017/18 o 11.4% a'r 16eg safle.
- Mae **Salwch Staff** o fewn yr Awdurdod wedi cynyddu i **10.7 diwrnod** yn 2019/20 o 9.8 diwrnod yn 2018/19. Mae'r Tîm Presenoldeb wedi gweithio ar gywirdeb a phrydlondeb cofnodi data absenoldeb oherwydd salwch, a fydd yn effeithio ar y ffigur cyffredinol. Bydd dadansoddiad manwl yn cael ei wneud yn dilyn effaith COVID-19 ar bresenoldeb yn y chwarter diwethaf.

Cynnydd a wnaed

Cynllunio Corfforaethol

- Rydym wedi darparu gwasanaeth cydlynu a chymorth i bob un *o Grwpiau Cyflawni'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus* ac mae Adroddiad Blynyddol ar gynnydd y Cynllun Llesiant wedi'i baratoi.
- Mae'r *Cynllun Cydraddoldeb Strategol* wedi cael ei adolygu a'i gytuno gan y Cyngor llawn. Bydd cynllun gweithredu manwl sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau yn cael ei ddatblygu.
- Cyhoeddwyd *Adnewyddu'r Strategaeth Gorfforaethol* gennym ar ddiwedd mis Mehefin 2019, a oedd yn cynnwys ein holl Amcanion Llesiant. Derbyniodd hyn dystysgrif cydymffurfio gan Swyddfa Archwilio Cymru.
- Mae'r *rhaglen Trawsnewid i Wneud Cynnydd* yn parhau i wella gwasanaethau a phrosesau, i nodi a chefnogi'r gwaith o gyflawni arbedion effeithlonrwydd, ac i gefnogi newid diwylliannol ac ymddygiadol ar draws y sefydliad. Daw cyfanswm yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd a/neu a wnaed o'r Rhaglen TIC ehangach hyd at ddiwedd 2018/19 i bron £20m.
- Mae ein gwaith gyda *Chynghorau Tref a Chymuned* a sefydliadau cymunedol eraill i edrych ar ffyrdd o fuddsoddi mewn gwella darpariaethau hamdden lleol wedi datblygu'n dda drwy gydol y flwyddyn, wrth i lawer o Gynghorau ymwneud â phrosiectau amrywiol.

Rheoli Perfformiad

- Rydym wedi sicrhau bod y Cyngor yn ymateb yn llawn i *ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol*, ac yn cydymffurfio'n llwyr â nhw, gan gynnwys ystyried y pum ffordd o weithio ym mhopeth mae'n ei wneud.
- Er mwyn cydymffurfio ymhellach â'r Ddeddf, roeddem wedi paratoi *Adroddiad Blynyddol 2018/19* a gafodd adborth gan Swyddfa Comisiynwyr Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cydnabod ein cynnydd o ran gofynion y Ddeddf. Daeth y Comisiynydd i'r casgliad '*Ar y cyfan rydych yn gwneud cynnydd da ac rydym yn croesawu eich gwaith i gyfuno eich cynlluniau yn un, fel rhan o ddull mwy integredig'* a bod *'Dealltwriaeth glir o'r 5 ffordd o weithio ac ymrwymiad iddynt'.*

Cynllunio'r Gweithlu ac Iechyd a Llesiant

- Rydym wedi parhau i sicrhau ein bod yn rhoi cefnogaeth lawn *i helpu staff i gynnal ffordd o fyw iach*, sy'n cynnwys camau rhagweithiol ac ataliol, addysg i gynyddu ymwybyddiaeth ynghylch pynciau iechyd allweddol a, lle bo'r angen, sicrhau bod absenoldeb salwch ymysg staff yn cael ei reoli'n ofalus er budd y staff a darpariaeth y gwasanaethau.
- Mae 50 o *Hyrwyddwyr Llesiant* gwirfoddol wedi cael eu hyfforddi'n ddiweddar a byddant yn gweithio, yn annog, ac yn cymell eu cydweithwyr - gan ddatblygu clybiau, timau, gweithgareddau a negeseuon corfforaethol sy'n gwella iechyd meddwl a chorfforol a llesiant.
- Gwnaethom *ailgyflwyno arolygon staff* i sicrhau bod barn staff yn cael ei chlywed ynglŷn â'r sefydliad. Mae ymgysylltu ag aelodau o staff ym mhob adran wedi bod yn hanfodol i lwyddiant yr arolygon, ac mae hynny i'w weld yn nifer y cyflogeion sy'n cymryd rhan. Yn yr arolwg diweddaraf, cymerodd dros 30% o'r sefydliad ran yn yr arolwg gwirfoddol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

- Mae *Strategaeth Trawsnewid Digidol* 3 blynedd newydd 2020-2023 wedi'i hysgrifennu, ond mae cymeradwyaeth ffurfiol wedi'i gohirio ar hyn o bryd oherwydd COVID-19. Mae'r Gwasanaeth TGCh wedi ymateb yn gyflym i gynorthwyo ein cwsmeriaid i fabwysiadu a darparu'r gwasanaethau hanfodol y mae'n rhaid iddynt eu darparu yn ystod y pandemig hwn. Mae gliniaduron, ffonau clyfar ac atebion Teleffoni wedi'u cyflwyno'n gyflym er mwyn gallu mwy o *Weithio o Gartref*. Mae Timau Microsoft a BYOD ar gael i ganiatáu mwy o gydweithredu. Mae sawl system a phroses wedi cael eu datblygu - StaffHub, Taliadau Uniongyrchol Prydau Ysgol Am Ddim, Rhyddhad Ardrethi Busnes ac ati.
- Rydym wedi parhau i ddatblygu gwefan *y Cyngor* mewn ymateb i ddisgwyliad cwsmeriaid a'r galw a cheisiadau mewnol gan ein hadrannau. O gymharu â'r flwyddyn flaenorol, rydym wedi gweld cynnydd o 33.5% yn nifer y bobl sy'n defnyddio ein gwefan ac mae nifer yr ymweliadau â'n tudalennau wedi cynyddu 22.3%.
- Llwyddom i symud i amgylchedd di-bapur yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau hyfforddiant a sesiynau 1:1 a ddarparwyd i aelodau etholedig a swyddogion. Cafodd y cyfarfod di-bapur cyntaf ei gynnal ar 3 Medi 2019.

amser i newid Cymru

rhown ddiwedd ar wahaniaethu ar sail iechyd meddwl

Rydym wedi parhau â'n hymrwymiad i leihau stigma cyflyrau iechyd meddwl ac yn ddiweddar rydym wedi ail-lofnodi'r ***addewid Amser i Newid***, sy'n cadarnhau ein cefnogaeth, ein blaenoriaeth, a'n gwaith parhaus o ran lleihau gwahaniaethu ar sail iechyd meddwl. Rydym hefyd bellach yn awyddus i recriwtio gweithwyr cymorth cyntaf a goruchwylwyr iechyd meddwl ar draws yr awdurdod ac yn ein hysgolion, yn ogystal â recriwtio Cydgysylltydd Llesiant newydd a fydd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a'r mentrau sy'n cefnogi'r gwaith hwn.

Band eang cyflym iawn

Rydym wedi gweithio gyda phartneriaid i gynorthwyo a gweithredu fel cynghorwyr technegol, gan fynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â band eang cyflym iawn a signal ffonau symudol ledled y sir, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae 'Cynllun Gweithredu Cysylltedd Digidol ar gyfer Sir Gaerfyrddin' wedi cael ei lunio ac rydym wedi gweithio gyda Llywodraeth Cymru, Openreach, Darparwyr Ffonau Symudol a rhanddeiliaid perthnasol eraill i lywio'r Cynllun Gweithredu. Mae'r ddogfen yn crynhoi'r sefyllfa bresennol o ran cysylltedd Band Eang a Ffonau Symudol ar draws y sir, yn nodi meysydd blaenoriaeth y mae angen ymyrryd â nhw, ac yn cyflwyno sawl ffrwd waith bosibl y gellid mynd ar eu trywydd er mwyn gwella'r sefyllfa ymhellach. Rydym hefyd yn arwain ar ran Sir Gaerfyrddin ar brosiect Seilwaith Digidol Bargen Ddinesig Bae Abertawe, gan sicrhau bod anghenion y sir yn cael lle blaenllaw mewn cynlluniau ar gyfer Cysylltedd Digidol y rhanbarthau.

Pâr yn gwneud hanes ar Nos Galan

Gwnaeth ein ***Gwasanaeth Cofrestru*** bopeth posibl i helpu pâr o Gastellnewydd Emlyn i ffurfio partneriaeth sifil fel dyn a menyw yn y DU; y pâr cyntaf yn y DU i wneud hynny. Bydd deddfwriaeth newydd a fydd yn dod i rym ar 31 Rhagfyr yn caniatáu i barau o wahanol ryw i gael eu hadnabod fel partneriaid sifil am y tro cyntaf yn y DU. Credir mai nhw fydd y pâr cyntaf yng Nghymru - ac yn y DU o bosibl - i ffurfio partneriaeth am ddau funud ar ôl hanner nos ar Nos Galan, yr union adeg y bydd yr atodlen yn cael ei llofnodi fel bod eu partneriaeth yn rhwymol yn ôl y gyfraith.

Cydnabod gwaith y Cyngor Ieuenctid

Mae *Cyngor Ieuenctid Sir Gaerfyrddin* yn gweithredu fel llais i gynrychioli safbwyntiau a barn yr holl bobl ifanc yn y sir. Ei brif nod yw sicrhau newid cadarnhaol a datblygu gan greu cyfleoedd i bobl ifanc gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau/prosesau democrataidd o fewn yr awdurdod, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Mae'r bobl ifanc sy'n ymwneud â'r Cyngor wedi datblygu sgiliau rhagorol wrth ymgyrchu a lobïo'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, gan gynnwys ymgyrch lwyddiannus i wrthdroi penderfyniad gan y Cyngor Sir i gwtogi ar gludiant i'r ysgol.

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau Dynol, Rheoli Perfformiad, TGCh, TIC:
Dirprwy Arweinydd - Y Cynghorydd Mair Stephens

Amcan Llesiant 15b - Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau

Rydym wedi gwneud arbedion o £90 miliwn dros y 10 mlynedd diwethaf, gyda'r nod o leihau'r effaith ar wasanaethau rheng flaen

Mae'r sefyllfa ariannol a wynebir gan awdurdodau lleol wedi bod yn thema gyson, ac mae gostyngiadau sylweddol yn lefel yr adnoddau sydd ar gael i wasanaethau cyhoeddus. Rydym wedi gorfod rheoli gostyngiadau yn y cyllidebau sydd ar gael i wasanaethau, ac ar yr un pryd mae'r gwasgfeydd ar y gyllideb wedi bod yn cynyddu o ran galw a disgwyliadau. Rydym yn ymdrechu i'r eithaf i reoli'r sefyllfa hon drwy leihau ein gwariant heb fod unrhyw effaith sylweddol ar y gwasanaethau rheng flaen sy'n bwysig i'n cymunedau.

Pam mae'n bwysig

- Mae'r disgwyliadau a'r galwadau yn cynyddu, ond mae llai o adnoddau ar gael. O dan yr amodau hyn, mae angen i ni weithio hyd yn oed yn fwy effeithlon ac effeithiol, i gynnal gwasanaethau a'u gwella lle y gallwn, gan gyflawni '*mwy (neu hyd yr oed yr un peth) am lai*'.
- Mae gwasgfeydd ariannol pellach yn debygol o ddeillio o bethau megis costau ynni cynyddol; cynnydd yn nifer y bobl hŷn y mae angen ein gwasanaethau arnynt; swyddfeydd, ac adeiladau ysgol a phriffyrdd y mae angen buddsoddi'n helaeth ynddynt, gan gofio bod hyn yn ychwanegol at yr ansicrwydd presennol o ran rhagolygon economaidd wrth i'r DU gychwyn y broses o adael yr Undeb Ewropeaidd.
- Yn ôl *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol* mae'n ofynnol cael **7 maes** o newid corfforaethol, **4** o fewn Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau sy'n un o ddisgwyliadau allweddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth Adrodd yn Flynyddol. Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol - Y daith hyd yn hyn : Mai 2018

4	Cynllunio Ariannol	
5	Asedau	**Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau**
6	Caffael	
7	Risg	

Mesurau Llwyddiant

Sir Gâr Carmarthenshire County Council — YOUR COUNCIL doitonline www.carmarthenshire.gov.wales

cynnydd o **17.1%**
mewn taliadau '*Ar-lein Amdani*'
(O 39,321 i 46,044)

£5.7m o arbedion cyfredol wedi'u gwneud yn 2019/20

9.9% o bobl yn cytuno ein bod yn gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb
(11.3% o'r blaen)
(Cyfartaledd Cymru 9.2% ac yn y 9fed safle)
(*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru)*

Egluro'r Canlyniadau

- Gan fod mwy o fynediad at wasanaethau ar-lein (cysylltedd digidol), mae rhagor o gwsmeriaid yn talu am wasanaethau drwy ein gwefan gyda **chynnydd o 17%** yn nifer y **taliadau ar-lein** o 39,321 yn 2018/19 i **46,044 yn 2019/20,** gan gynyddu boddhad cwsmeriaid ac effeithlonrwydd y gwasanaeth**.**
- Roedd gan yr Awdurdod darged arbedion o £9 miliwn yn ystod y flwyddyn ac roedd wedi cyflawni tua dwy ran o dair o hyn cyn i'r sylw gael ei ddargyfeirio'n briodol tuag at weithgarwch COVID-19.
- Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20, nifer y cyfranogwyr a gytunai ein bod yn *gofyn am eu barn cyn pennu ein cyllideb* oedd 9% yn unig (cyfartaledd Cymru 9.2%). Mae hwn yn ostyngiad ers y flwyddyn flaenorol pan oedd yn 11.3% a bellach rydym yn y 9fed safle (7fed o'r blaen). Mae hyn yn siomedig, yn enwedig gan fod y gyfradd gymerodd ran yn ein hymgynghoriad ar Gyllideb 2020/21 (a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2019) yn uwch nag y mae wedi bod mewn pum mlynedd, gyda chyfanswm o 2,006 o ymatebion wedi dod i law gan wahanol rannau o'r gymuned, gan gynnwys unigolion, busnesau, cynghorau tref a chymuned, a grwpiau a sefydliadau cynrychioliadol.

Cynnydd a wnaed

Cynllunio Ariannol:

- Nododd ein Hamcanion Llesiant ymrwymiadau ariannol i bob amcan; gwnaethom adolygu fformat ein *Seminarau ynghylch y Gyllideb i'r Aelodau,* gan gynnal seminarau dros 2 ddiwrnod a chafodd hyn ei groesawu, ac ystyriwyd effaith ein Hamcanion Llesiant. Cafodd yr ymgynghoriad ar y gyllideb eleni fwy o ymatebion nag unrhyw un o'n blynyddoedd blaenorol, a chafodd cynigion ar gyfer y gyllideb eu gwaredu o ganlyniad.
- Mae *monitro cyllidebau* yn parhau i fod yn rhan bwysig o'r system rheolaeth fewnol, ac mae pob rheolwr cyllideb newydd wedi cael hyfforddiant yn ogystal â hyfforddiant gloywi ar ddechrau pob blwyddyn ariannol.

Asedau:

- Lluniwyd *Cynlluniau Rheoli Asedau Gwasanaeth* ar gyfer 2019/20, ond mae digwyddiadau diweddar yn effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir/ffyrdd o weithio, a fydd â goblygiadau o ran eiddo. Felly ataliwyd y bwriad i gyhoeddi'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforaethol yng Ngwanwyn 2020 er mwyn ystyried ailosod gwasanaethau ac adolygu blaenoriaethau/prosiectau corfforaethol, y mae llawer ohonynt yn ymwneud ag asedau eiddo neu â goblygiadau i Ystad y Cyngor.
- Rydym yn gwneud y defnydd gorau o *eiddo ac asedau'r Cyngor* gan ganolbwyntio ar resymoli swyddfeydd a rhannu â phartneriaid eraill yn ogystal â hwyluso perchenogaeth y gymuned ar asedau er budd y gymuned. Mae rhan o Adeilad 8 Parc Dewi Sant wedi'i phrydlesu i Hywel Dda fel swyddfeydd. Trosglwyddwyd y rhan fwyaf o asedau hamdden y Cyngor i Gynghorau Tref a Chymuned i hwyluso perchnogaeth a buddsoddiad lleol

Y Risgiau:

- Diweddarwyd ein *Cofrestrau Risg Corfforaethol, Adrannol a Gwasanaeth* i gyd yn 2019/20 yn unol â Strategaeth Rheoli Risg a Chynllunio Wrth Gefn 2018-22) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Caffael:

- Rydym wedi cynnwys datblygu cynaliadwy drwy gydol ein *Strategaeth Gaffael* a gweithgarwch ac wedi manteisio i'r eithaf ar effaith gadarnhaol ein penderfyniadau ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gaffael yn gynaliadwy a mynd ar drywydd y Buddion Cymunedol mwyaf posibl lle bynnag y bo modd. (gweler yr astudiaeth achos ar y dudalen ganlynol)

Y ffordd rydym yn gweithio

Mae ein Huned Caffael Corfforaethol yn cefnogi ein Hadrannau i gyflawni eu nodau o dan Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn ymgymryd â rôl arweiniol neu'n cefnogi'n sylweddol y 15 Amcan Llesiant canlynol sydd gan Sir Gaerfyrddin: -

Amcan Llesiant			Mewnbwn Uned Caffaeliadau Corfforaethol
Dechrau'n Dda	**4**	*Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol.*	Drwy geisio Budd i'r Gymuned mewn Tendrau Caffael ac adrodd drwy Offeryn Mesur Budd i'r Gymuned.
Byw'n Dda	**6**	*Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir*	Drwy geisio Recriwtio a Hyfforddi wedi'u Targedu drwy gynnwys Buddion i'r Gymuned mewn Tendrau Caffael.
Heneiddio'n Dda	**10**	*Helpu'r niferoedd cynyddol o bobl hŷn i gynnal urddas ac annibyniaeth*	Helpu'r Adran Gymunedau yn y broses dendro megis ar gyfer gofal cartref a chefnogi pobl.
	11	*Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn Sir Gaerfyrddin*	
Mewn Amgylchedd Iach a Diogel	**12**	*Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol*	Rydym yn cynnwys cynaliadwyedd o'r cychwyn cyntaf ym mhob tendr dros £25,000 drwy gwblhau Offeryn Asesu Risg Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru a chynnwys y canfyddiadau yn y Fanyleb Dendro.
	14	*Hyrwyddo'r iaith Gymraeg a Diwylliant*	Wrth fodloni gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, rydym wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Gymraeg. Rydym yn cyfieithu ein holl ddogfennau tendro sydd dros y trothwy o £75,000 i'r Gymraeg.
Llywodraethu Corfforaethol	**15**	*Adeiladu Gwell Cyngor /Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau*	Rydym yn cynnwys datblygu cynaliadwy yn ein holl weithgarwch Caffael, drwy geisio sicrhau bod ein penderfyniadau yn cael yr effaith gadarnhaol fwyaf posibl ar lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy gaffael yn gynaliadwy a mynd ar drywydd y buddion cymunedol mwyaf posibl.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru / Future Generations Commissioner for Wales

Mae *Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol Mai 2020* yn nodi ***'Mae angen i ni ganolbwyntio ar y canlyniadau ac nid y broses gaffael'*** Steve Edwards, (Cyfarwyddwr Rheoleiddio a Masnachu Wales & West Utilities). Mae angen i gyrff cyhoeddus ystyried caffael yn gyson drwy lens y Ddeddf, gan wneud y Ddeddf yn ganolog i gomisiynu, caffael, monitro a gwerthuso canlyniadau. Byddai ailddiffinio'r hyn a olygwn wrth 'werth' yn galluogi cyrff cyhoeddus i ystyried sut y gallant wella canlyniadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol drwy eu penderfyniadau caffael, **gan ddarparu tystiolaeth o sut mae gwariant caffael yn cyfrannu at gyflawni eu hamcanion llesiant.** Gan gynnwys cymalau contract penodol sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd a llesiant, a phwysoli'r rhain fel rhan o'r sgorio, sy'n cyfateb i ystyriaethau cost ac ansawdd, sero carbon, adeiladau a seilwaith sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon.

Ysgolion Passivhaus - Porth Tywyn

Mae prosiect *Ysgol Parc y Tywyn* a gostiodd *£8.5m* yn Llanelli yn darparu amgylchedd dysgu newydd rhagorol i 350 o blant ysgol o ardal Porth Tywyn. Y prosiect yw'r ail o ddwy ysgol Passivhaus newydd i'w cwblhau o fewn y flwyddyn academaidd.

Adeiladwyd yr ysgolion o dan raglen fuddsoddi Ysgolion ar gyfer yr 21ainGanrif, gyda'r nod o sicrhau'r buddsoddiad cyfalaf mwyaf posibl, tra'n darparu amgylcheddau cynaliadwy o ansawdd uchel yn gyson i ddisgyblion a staff addysgu drwy safon Passivhaus, yn ogystal ag ategu agendâu eraill Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Cefnogi'r Economi Seiliol

GwerthwchiGymru

Rydym yn sicrhau bod busnesau lleol bach a chanolig eu maint yn cael cyfle llawn i gystadlu am nwyddau, gwasanaethau a gwaith i'r Awdurdod a'u darparu.

Busnes Cymru Business Wales

Llywodraeth Cymru Welsh Government

ERDF

Cymru Lewyrchus
Cymru Gydnerth
Cymru Iachach
Cymru sy'n Fwy Cyfartal
Cymru o Gymunedau Cydlynus
Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd-eang

Gwnaethom ymgysylltu â 475 o gontractwyr, cyflenwyr a darparwyr dros gyfres o 14 o ddigwyddiadau briffio marchnad gynnar / ymgysylltu â chyflenwyr cynnar, gan gynnwys Sesiwn Friffio ar gyfer tendr *SWWRCF 2020, ADIRA (TG i Ysgolion) a'r tendr Argraffu ac Arwyddion sydd ar ddod.* Cynhaliwyd Digwyddiad Ymgysylltu â Chyflenwyr a Gweithdy GwerthwchiGymru dilynol ym Mharc y Scarlets ym mis Mai 2019 ar gyfer Fframwaith Contractwyr Rhanbarthol De-orllewin Cymru 2020 sydd werth dros £1 biliwn dros gyfnod o 4 blynedd, gan gwmpasu 4 Awdurdod Lleol yn Rhanbarth y De-orllewin a llawer o gyrff cyhoeddus eraill. Daeth dros 200 o Gontractwyr i'r digwyddiad lle mae'r Tîm caffael yn rhoi sylw i amrywiaeth o bynciau gan gynnwys y dull tendro, Iechyd a Diogelwch, a Buddion i'r Gymuned. Dilynwyd hyn gan Weithdy Tendr Byw a gynhaliwyd gan Busnes Cymru i ddarparu pecyn llawn o gymorth tendro am ddim i ddarpar Gontractwyr.

Cynhaliwyd gennym hefyd *Weithdai "Byw" a Gweithdai "GwerthwchiGymru"* i gefnogi ein Tendrau. Nod y Gweithdai hyn, a reolir gan Dîm Caffael y Cyngor ac a gyflwynir gan Ymgynghorwyr Tendro Busnes Cymru, oedd ymgysylltu'n rhagweithiol â chyflenwyr sydd angen y lefel hon o gymorth i gyflwyno eu tendrau drwy'r porth tendro electronig, *Bravo.*

Yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau:
Y Cynghorydd David Jenkins

ATODIADAU

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhwymedigaethau cyfreithiol sydd ar wahân ond sy'n gysylltiedig hefyd. Roedd ein Cynllun Llesiant yn cyfuno'r gofynion ac mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn gwneud yr un peth.

Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

- Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor bennu Amcanion Gwella bob blwyddyn. Nid oes yn rhaid iddynt newid bob blwyddyn, nac ychwaith gael eu cyflawni o fewn blwyddyn.
- Yn y bôn mae ein Hamcanion Gwella yr un fath â'n Hamcanion Llesiant, gan eu bod wedi'u seilio ar ddealltwriaeth drylwyr seiliedig ar dystiolaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu ac anghenion lleol. Rydym yn cymharu perfformiad ein gwasanaeth a'n canlyniadau bodlonrwydd â phob Cyngor yng Nghymru i sicrhau ein bod yn gwella lle mae angen i ni wella fwyaf.
- Mae dyletswydd arnom i wella, gan ddarparu'r 'un gwasanaethau (neu hyd yn oed fwy o wasanaethau) am lai o arian'.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Deddf yw hon a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru a fydd yn newid agweddau ar sut rydym yn gweithio. Pwrpas cyffredinol y Ddeddf yw sicrhau bod trefniadau llywodraethu cyrff cyhoeddus ar gyfer gwella llesiant Cymru, yn ystyried anghenion cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Ddeddf wedi'i llunio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru, yn unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy. Mae'r Ddeddf newydd yn nodi:-

a) Bod yn rhaid i ni ddatblygu'n gynaliadwy, gan wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Yr egwyddor datblygu cynaliadwy yw
'... bod yn rhaid i'r corff cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb effeithio ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.'

b) Mae'n rhaid i ni arddangos 5 ffordd o weithio:
Tymor hir, integredig, cynhwysol, cydweithredol ac ataliol (gweler **Atodiad 1**)

c) Mae'n rhaid i ni weithio tuag at gyflawni'r 7 nod llesiant cenedlaethol sydd yn y Ddeddf. Gyda'i gilydd, maent yn creu gweledigaeth a rennir y gall cyrff cyhoeddus weithio tuag ati.



Am y tro cyntaf yng Nghymru, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu gweledigaeth a rennir y gall pob corff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati. Fel corff cyhoeddus roedd yn ofynnol i ni, yn unol â'r Ddeddf, bennu a chyhoeddi Amcanion Llesiant oedd yn mwyhau ein cyfraniad i'r Amcanion Llesiant.

Sut mae ein Hamcanion Llesiant yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

Amcanion Llesiant / Prif Flaenoriaethau Amcanion Gwella Sir Gaerfyrddin 2017/18			7 Nod Llesiant Cenedlaethol						
			Llewyrch	Cydnerthedd	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau Cydlynus	Diwylliant bywiog a'r Gymraeg	Cyfrifoldeb Byd-eang
Dechrau'n Dda	1	Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.	✓		✓	✓	✓		
	2	Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	✓		✓	✓	✓	✓	
	3	Cefnogi a gwell cynnydd a llwyddiant i bob dysgwyr	✓	✓		✓		✓	✓
	4	Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	✓		✓	✓	✓		
Byw'n Dda	5	Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	✓		✓	✓	✓		
	6	Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
	7	Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
	8	Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	✓		✓	✓	✓	✓	
Heneiddio'n Dda	9	Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu, a chymunedau mwy diogel			✓	✓	✓		✓
	10	Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio	✓		✓	✓	✓	✓	
	11	Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus	12	Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	✓	✓	✓				
	13	Gwella seilwaith a chysylltedd priffyrdd a thrafnidiaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
	14	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	✓	✓		✓	✓	✓	
	15	Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Mesurau Llwyddiant am ein Hamcanion Llesiant

Mesurau Llwyddiant i'r Amcanion Llesiant

Mae'r tabl isod yn dangos canlyniadau fwyaf diweddar ein mesurau llwyddiant ac a yw'n well na'n canlyniad gynt.

	PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella		
		Canlyniad blaenorol	Canlyniad fwyaf diweddar	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓
	WBO 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.			
1	% Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael **3 lleoliad neu fwy** yn ystod y flwyddyn *(PAM/029)*	10.4	8.6	↑
	WBO 2 - Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw.			
2	% **Gordewdra** yn ystod plentyndod	29.4	26.6	↑
	WBO 3 - Cefnogi a gwell cynnydd a llwyddiant i bob dysgwyr			
3	**Sgôr 'Cap 9' cyfartalog** ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 *(PAM/032)*	363.1	367.2	↑
4	% **Presenoldeb** disgyblion mewn **ysgolion cynradd** *(PAM/007)*	93.9	93.9	↔
5	% **Presenoldeb** disgyblion mewn **ysgolion uwchradd** *(PAM/008)*	93.8	93.5	↓
6	**Boddhad ag ysgol gynradd** y plentyn *(ACC)*	84	95	↑
	WBO 4 - Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol			
7	% Gadawyr **Blwyddyn 11** nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEETs) *(PAM/009)*	1.8	Ddim ar gael	Ddim yn gymwys
8	% Gadawyr **Blwyddyn 13** nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEETs) *(5.1.0.2)*	4.9	Ddim ar gael	Ddim yn gymwys
	WBO 5 - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.			
9	Y canran **bwlch yn Sgôr 'Cap 9'** cyfartalog rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim a'r disgyblion sy ddim yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim	19.7	17.9	↑
10	% Aelwydydd y **llwyddwyd i'w hatal** rhag dod yn **ddigartref** *(PAM/012)*	59.5	46.4	↓
11	Aelwydydd lle ceir **amddifadedd materol** *(ACC) (DLIC)*	13.5	11.3	↑
12	% Aelwydydd sy'n **byw mewn Tlodi** *(CACI 'PayCheck')*	35.5	33.7	↑
	WBO 6 - Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir.			
13	**Ffigurau cyflogaeth** *(SYG – Arolwg Poblogaeth Blynyddol) (DLIC)*	71.6	71.5	↓
14	**Nifer y swyddi a grëwyd gyda chymorth Adfywio** *(EconD/001)*	419.0	393.0	↑
15	**Tâl wythnosol gros cyfartalog (£)** *(SYG – Arolwg Blynyddol o oriau ac enillion)(DLIC)*	511.3	536.5	↑
16	**Nifer â chymwysterau hyd at NVQ Lefel 4 neu'n uwch** *(StatsCymru) (DLIC)*	38.0	41.4	↑
17	Pobl yn fodlon neu'n lled **fodlon ar eu swyddi** *(ACC) (DLIC)*	82.5	78.9	↓
	WBO 7 - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.			
18	**Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol yn y Sir** *(7.3.2.24)*	247	315	↑
	WBO 8 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).			
19	% Oedolion sy'n dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn** *(ACC) (DLIC)*	66	70	↑
20	% Oedolion sy'n dweud bod ganddynt **salwch hirdymor** *(ACC) (DLIC)*	53	51	↑
21	**Sgôr lles medygol** oedolion *(ACC) (DLIC)* (Sgôr allan o 70)	50.2	51.1	↑
22	% Oedolion sydd â **llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach** *(ACC) (DLIC)* Dim yn ysmygu, yfed > 14 uned neu lai, bwyta > 5 dogn o ffrwythau a llysiau'r y diwrnod, mynegai màs y corff, yn gorfforol egnïol am o leiaf 150 o funudau yr wythnos).	8.8	12.4	↓
	WBO 9 - Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel.			
23	% sy'n dweud bod ganddynt **ymdeimlad o gymuned** (Deillio o deimlad o berthyn, gwahanol gefndiroedd yn cyd-dynnu, trin â pharch.) *(ACC) (DLIC)*	47.7	51.6	↑
24	**Pobl yn teimlo'n ddiogel** (yn y cartref, cerdded yn yr ardal leol, a theithio) *(ACC) (DLIC)*	88.2	88.2	↔

	PAM – Atebolrwydd Cyhoeddus, Mesurau Cenedlaethol; SYG – Swyddfa Ystadegau Gwladol; ACC – Arolwg Cenedlaethol Cymru; DLIC – Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella		
		Canlyniad blaenorol	Canlyniad fwyaf diweddar	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓
	WBO 10 - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.			
25	Cyfradd y **bobl a gedwir yn yr ysbyty** wrth **aros am ofal cymdeithasol** fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed *(PAM/025)*	4.21	6.03	↓
26	Cytuno bod gwasanaethau **gofal cymdeithasol da** ar gael yn yr ardal *(ACC)* (henoed, plant, anabl a gofalwyr)	56.2	47.5	↓
27	Nifer y **dyddiau calendr** ar gyfartaledd a gymerwyd **i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl** *(PAM/015)*	157	176	↓
	WBO 11 - Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n Dda yn y sir.			
28	% o **bobl sy'n unig** *(ACC) (DLIC)*	18.3	16.2	↑
	WBO 12 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.			
29	**Defnydd o egni adnewyddadwy (kWh)**	979,071	997,480	↑
30	% Y **gwastraff** wedi'u **ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio** *(PAM/030)*	58.95	64.66	↑
	WBO 13 - Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.			
31	% **Y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael** *(PAM/020)*	5.2	5.4	↓
32	**% Y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael** *(PAM/021)*	4.2	4.7	↓
33	**% Y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael** *(PAM/022)*	12.5	12.5	↔
34	Y nifer a **laddwyd/a anafwyd yn ddifrifol** yn sgil damwain ar y ffordd *(5.5.2.21)*	97	113	↓
	WBO 14 - Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru.			
35	Gallu **siarad Cymraeg** *(ACC) (DLIC)*	37.8	37.4	↓
36	% Y bobl sydd wedi **ymweld â safle celfyddydol** yn y flwyddyn ddiwethaf *(ACC)*	67.4	68.3	↑
37	% Y bobl sydd wedi **ymweld â safle treftadaeth** yn y flwyddyn ddiwethaf *(ACC)*	64.7	68.7	↑
38	% Y bobl sydd wedi **ymweld ag amgueddfa** yn y flwyddyn ddiwethaf *(ACC)*	34.6	42.1	↑
	WBO 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.			
39	**Taliadau 'Ar-lein Amdani'**	39,321	46,044	↑
40	% Y bobl sy'n **cytuno ei fod yn gallu cyrraedd at wybodaeth drwy'r dull a ffafrir** (ACC)	72.4	71.2	↓
41	% Y bobl sy'n gwybod **sut i ddysgu mwy am wasanaethau Awdurdod Lleol** (ACC)	72.1	74.6	↑
42	Y bobl sy'n **cytuno ei fod yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau Awdurdod Lleol**. *(ACC)*	11.4	9.0	↓
43	Nifer y **diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch**. *(PAM/001)*	9.8	10.7	↓
44	**Gostyngiad mewn costau cynnal y sefydlia**d (£m)	8.0	5.7	↑
45	% Y bobl sy'n **cytuno fod yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â'r bobl leol wrth osod cyllideb**. *(ACC)*	11.3	9.9	↓

Canlyniad Arolwg Cenedlaethol Cymru Cyhoeddwyd Gorffenaf 2020

2019/20 Arolwg Cenedlaethol Cymru

Canlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 yw'r canlynol, sydd ar gael ar lefel awdurdod lleol, ond ni ellir priodoli'r rhain i gyd i berfformiad y Cyngor

Lle bo'r un cwestiwn wedi cael ei ofyn mewn arolwg blaenorol, mae'r tabl isod yn dangos a ydym wedi gwella ein perfformiad a'n safle.

	Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol **DLIC –** Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella		
			Canlyniad arolwg blaenorol	Canlyniad arolwg 2019/20	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓
1	✓	**Pobl yn gallu i gyrraedd at wybodaeth drwy'r dull a ffefrir.**	72.4	71.2	↓
2	✓	Pobl yn **gwybod sut i ddysgu mwy am wasanaethau Awdurdod Lleol**.	72.1	74.6	↑
3	✓	% o bobl sy'n cytuno fod yr Awdurdod yn **ymgynghori a'r bobl leol wrth osod cyllideb**.	11.3	9.9	↓
4	✓	% o bobl sy'n cytuno fod **cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau Awdurdod Lleol**.	11.4	9.0	↓
5		% o bobl sy'n cytuno **bod y cyngor yn gwneud popeth y gall i wella'r ardal leol**.	35.8	34.4	↓
6		% o bobl sy'n cytuno bod y **cyngor yn darparu gwasanaethau o safon uchel.**	51.0	52.8	↑
7	✓	**Boddhad ag ysgol gynradd** y plentyn	84	95	↑
8		**Boddhad ag ysgol uwchradd** y plentyn	89	86	↓
9	✓	**Gallu siarad Cymraeg** (DLIC/37)	37.8	37.4	↓
10		% o bobl sy'n **siarad Cymraeg yn feunyddiol** ac sy'n gallu siarad mwy nag ychydig eiriau o Gymraeg. (DLIC/36)	29.8	30.4	↑



	Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol **DLIC –** Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella		
			Canlyniad arolwg blaenorol	Canlyniad arolwg 2019/20	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓
11	✓	% o **bobl sy'n unig** (NWBI/30)	18.3	16.2	↑
12	✓	% o **bobl sy'n gwirfoddoli** (NWBI/28)	33.9	27.2	↓
13	✓	**Aelwydydd lle ceir amddifadedd materol** (DLICI/19)	13.5	11.3	↑
14		**Yn dod i ben â thalu biliau** a ymrwymiadau credyd - **Pob Oedolin**	62.7	66.6	↑
15		**Yn dod i ben â thalu biliau** a ymrwymiadau credyd -**bensiynwyr**	79.8	83.7	↑
16		**Yn dod i ben â thalu biliau** a ymrwymiadau credyd - **heb fod yn bensiynwyr**	56.4	60.7	↑
17	✓	% o bobl sy'n dweud eu bod **yn fodlon neu'n fodlon iawn yn eu gwaith** (NWBI/20)	82.5	78.9	↓
18		A oes gan y **cartref fynediad i'r rhyngrwyd**	87.0	88.9	↑
19		% **Boddhad â'r wefan sector cyhoeddus Cymru** fwyaf diweddaraf ymwelwyd â hi.	79.4	84.2	↑
20		**A ddefnyddir y rhyngrwyd** (gan gynnwys teledu clyfar a dyfeisiau llaw)	88.4	89.8	↑
21		% o bobl sy'n cyfranogi mewn **gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos** (DLIC/38)	35.1	35.1	↔
22	✓	% Oedolion sy'n dweud bod eu **hiechyd cyffredinol yn Dda neu'n Dda Iawn**	66	70	↑
23	✓	% Oedolion sy'n dweud bod ganddynt **salwch hirdymor**	53	51	↑
24		% o oedolion sy'n **Smygu** (cyfunwyd dwy flynedd o data)	16.6	16.2	↑



Yn yr AF	Cwestiynau a ofynnwyd yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2019/20 ac sydd ar gael ar lefel Awdurdod Lleol **DLIC –** Dangosydd Llesiant Cenedlaethol	A yw ein canlyniad wedi gwella		
		Canlyniad arolwg blaenorol	Canlyniad arolwg 2019/20	Gwell ↑ Cyson ←→ Gostwng↓
25	% o oedolion sydd yn **defnyddio e-sigarét** (cyfunwyd dwy flynedd o data)	7.0	6.7	↑
26	% o oedolion a **defnydd alcohol wythnosol - dros 14 uned** (cyfunwyd dwy flynedd o data)	19.9	21.5	↓
27	% o oedolion sydd yn **bwyta 5 dogn o lysiau a ffrwythau** y diwrnod (cyfunwyd dwy flynedd o data)	18.6	21.7	↑
28	% o oedolion sydd yn **egnïol 150 munud yr wythnos** (cyfunwyd dwy flynedd o data)	55.3	55.6	↑
29	% o oedolion sydd yn **egnïol llai na 30 munud yr wythnos** (cyfunwyd dwy flynedd o data)	27.8	27.6	↑
30	% o oedolion sydd yn **dros bwysau neu ordew (BMI 25+)** (cyfunwyd dwy flynedd o data)	61.7	63.6	↓
31	% o oedolion sydd yn ordew **(BMI 30+)**	24.3	28.2	↓
32 ✓	% Oedolion sydd â **llai na dau ymddygiad ffordd o fyw iach** (Allan o rhif **24-31** uchod) (cyfunwyd dwy flynedd o data)	8.8	12.4	↓
33 ✓	% Y bobl sydd wedi y**mweld â safle celfyddydol** yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf	67.4	68.3	↑
34 ✓	% Y bobl sydd wedi **ymweld â safle treftadaeth** yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf	64.7	68.7	↑
35 ✓	% Y bobl sydd wedi **ymweld ag amgueddfa** yng Nghymru yn y flwyddyn ddiwethaf	34.6	42.1	↑
36	% o bobl sy'n cyfranogi mewn **gweithgareddau chwaraeon deirgwaith neu fwy yr wythnos** (DLIC/38)	71.9	64.2	↓



Os mae ein canlyniadau am 2019/20 ar gyfer Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus wedi gwella

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM)

Mae'r tabl isod yn dangos ein canlyniad yn 2019/20 ac a yw'n well na'n canlyniad yn 2018/19.

	Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn gyfres genedlaethol o fesurau y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu, ond oherwydd Covid-19 mae Data Cymru sy'n casglu'r data'n ganolog ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi penderfynu peidio â chasglu data ar gyfer 2019/20. Felly, ni allwn fesur sut yr ydym yn perfformio o gymharu ag awdurdodau eraill ar gyfer 2019/20, ond gallwn fesur a ydym wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn.	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2018/19 i 2019/20		
		Ein canlyniad 2018/19	Ein canlyniad 2019/20	Gwell ↑ Cyson ↔ Gostwng ↓
	WBO 1 - Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau yn gynnar mewn bywyd.			
1	% Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael 3 lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn *(PAM/029)*	10.4	8.6	↑
2	% Asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser *(PAM/028)*	87.2	88.7	↑
	WBO 3 - Cefnogi a gwell cynnydd a llwyddiant i bob dysgwyr			
3	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd *(PAM/007)*	93.9	93.9	↔
4	% Presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd *(PAM/008)*	93.8	93.5	↓
5	Sgôr 'Cap 9' cyfartalog ar gyfer disgyblion blwyddyn 11 *(PAM/032)*	363.1	367.2	↑
	WBO 4 - Sicrhau bod pob person ifanc mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant ac yn dilyn llwybrau dysgu a gyrfaol cynhyrchiol			
6	% Gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth (NEETS) *(PAM/046)*	1.8	Ddim ar gael	Ddim yn berthnasol
	WBO 5 - Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi.			
7	% Teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref *(PAM/012)*	59.5	46.4	↓
	WBO 7 - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael.			
8	% Eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd *(PAM/013)*	7.40	7.72	↑
9	Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau ailddefnyddio eiddo gwag *(PAM/045)*	0	7	Ddim yn berthnasol
10	Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarperir fesul 10,000 o aelwydydd *(PAM/036)*	15	22	↑
11	Nifer y diwrnodau calendr ar gyfartaledd i cwblhau holl atgyweiriadau *(PAM/037)*	14.6	13.8	↑
12	% y cartrefi sy'n bodloni'r Safon Ansawdd Tai Cymru *(PAM/038)*	100.00	100.00	↔
13	% y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag *(PAM/039)*	2.9	3.4	↓
	WBO 8 - Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra).			
14	% y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd *(PAM/040)*	97.5	97.5	↔
15	Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden fesul 1,000 o'r boblogaeth *(PAM/017)*	8,401	7,768	↓
16	% cleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) a barhaodd i gymryd rhan yn y rhaglen ymarfer corff ar ôl 16 wythnos *(PAM/041)*	55.1	57.4	↑
17	% cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff *(PAM/042)*	Ddim ar gael	78.4	Ddim yn berthnasol
18	% Safleoedd bwyd sy'n cydymffurfio â safonau *(PAM/023)*	95.77	96.02	↑
	WBO 10 - Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth wrth iddynt heneiddio.			
19	Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl *(PAM/015)*	157	176	↓
20	Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed *(PAM/025)*	4.21	6.03	↓

Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (PAM)

Mae'r tabl isod yn dangos ein canlyniad yn 2019/20 ac a yw'n well na'n canlyniad yn 2018/19.

	Mae Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus yn gyfres genedlaethol o fesurau y mae'n rhaid i bob cyngor yng Nghymru eu casglu, ond oherwydd Covid-19 mae Data Cymru sy'n casglu'r data'n ganolog ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi penderfynu peidio â chasglu data ar gyfer 2019/20. Felly, ni allwn fesur sut yr ydym yn perfformio o gymharu ag awdurdodau eraill ar gyfer 2019/20, ond gallwn fesur a ydym wedi gwella o flwyddyn i flwyddyn.	A yw ein canlyniad wedi gwella o 2018/19 i 2019/20		
		Ein canlyniad 2018/19	Ein canlyniad 2019/20	Gwell ↑ Cyson ←→ Gostwng ↓
	WBO 12 - Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol.			
21	% Yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd *(PAM/018)*	72.6	71.6	↓
22	% Yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd *(PAM/019)*	71.4	80.0	↑
23	% Y strydoedd sy'n lân *(PAM/010)*	91.5	98.0	↑
24	Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon *(PAM/035)*	2.3	2.5	↓
25	Cilogramau o gwastraff trefol sydd heb ei ailddefnyddio, ei ailgylchu na'i gompostio yn ystod y flwyddyn fesul person *(PAM/043)*	179.7	156.3	↑
26	% Y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio *(PAM/030)*	58.94	64.66	↑
	WBO 13 - Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth.			
27	% Y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael *(PAM/020)*	5.2	5.4	↓
28	% Y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael *(PAM/021)*	4.2	4.7	↓
29	% Y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael *(PAM/022)*	12.5	12.5	←→
	WBO 15 - Adeiladu Gwell Cyngor a Gwneud Gwell Defnydd o Adnoddau.			
30	Nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch. *(PAM/001)*	9.8	10.7	↓
31	Nifer y prentisiaid ar gynlluniau prentisiaeth cydnabyddedig ffurfiol am bob 1,000 o gyflogeion *(PAM044)*	gawelodlin 20	34.4	↑
	Noder nad oes Mesur(au) Cenedlaethol wedi dyrannu i bob amcanion llesiant			

O'r 31 Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus am 2019/20 - ni all gwellhad o flwyddyn i flwyddyn ei fesur am 28.	Rhif	%
Gwell	13	47%
Cyson	4	14%
Gostwng	11	39%

Ein Hadroddiadau Rheoleiddiol

Cyhoeddwyd y rhestr ganlynol o adroddiadau rheoleiddiol yn ystod y deuddeg mis diwethaf:

ADRODDIADAU LLEOL

Adolygiad o Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaethau: Gwasanaethau Ar-lein (Mai 2019)
Arolwg o Drefniadau Rheoli Risg (Gorffenaf 2019)
Adroddiad Gwell Blynyddol (Awst 2019)
Archwilia Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Cytnnydd yn nifer y tai rhent a fforriadwy sydd ar gael. (Hydref 2019)

ADRODDIADAU CENEDLAETHOL

Effeithiolrwydd awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru (Mehefin 2019)
Y 'drws blaen' i ofal cymdeithasol i oedolion (Medi 2019)

ADRODDIADAU LLEOL

Arolygiad o Wasanaethau Hyn Cyngor Sir Gar (Awst 2019)

Byddem yn croesawu adborth gennych - anfonwch eich sylwadau a'ch safbwyntiau atom i:

Rheoli Perfformiad
TGCh a Pholisi Corfforaethol
Adran y Prif Weithredwr
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin SA31 1JP

Ffôn: **01267 234567**
E-bost: performance@carmarthenshire.gov.uk

Dilynwch ni ac ychwanegwch eich sylwadau ar dudalen Facebook y Cyngor

Dilynwch y cynllun hwn ac ychwanegwch eich negeseuon Trydar ar ein tudalen Twitter - #AdroddiadSirGar